



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25



llyw.cymru

Y Cynllun Cyllid Seilwaith

2022-23 to 2024-25

Cynnwys

Pennod 1: Y Cyd-destun Strategol ac Ariannol	2
Pennod 2: Tai	10
Pennod 3. Teithio Llesol a Chynaliadwy	19
Pennod 4. Trafnidiaeth Gyhoeddus	23
Pennod 5. Ffyrdd.....	27
Pennod 6. Adfywio	30
Pennod 7. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.....	33
Pennod 8. Datgarboneiddio.....	38
Pennod 9. Natur a'r Amgylchedd	42
Pennod 10. Datblygu Economaidd	48
Pennod 11. Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon.....	58
Pennod 12. Seilwaith Addysg	64
Pennod 13. Amaeth a Physgodfeydd.....	69
Pennod 14. Cymunedau	74
Pennod 15. Llywodraeth Leol.....	76
Pennod 16. Yr Amgylchedd a Dŵr	78
Pennod 17. Gweinyddu Llywodraeth Cymru.....	81

Pennod 1: Y Cyd-destun Strategol ac Ariannol

Trosolwg

1. Y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yw'r cynllun cyflawni cyntaf sy'n sail i'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac mae'r strategaeth hon a'r cynllun hwn yn cael eu cyhoeddi yn wyneb heriau economaidd a chymdeithasol sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys effaith pandemig y coronafeirws, a'r penderfyniad i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd; y gydnabyddiaeth bod angen inni weithredu'n bendant i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, yn ogystal â mynd i'r afael ag effaith niweidiol anghydraddoldebau yn ein cymunedau. Mae'r Cynllun hwn yn rhan hanfodol o'n hymateb i'r heriau hynny drwy nodi'r buddsoddiadau mewn seilwaith sy'n cyflawni ein huchelgais yn y ffordd fwyaf effeithiol dros y tair blynedd nesaf.
2. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn nodi'r canlyniadau a ddylai gael eu sicrhau gyda buddsoddiad mewn seilwaith yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn nodi pedwar maes llesiant – Llesiant Amgylcheddol, Cymdeithasol, Economaidd a Diwylliannol – ac mae'n cyflawni mewn perthynas ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu cynllun buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi economi ddi-garbon.
3. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn ein hymrwymo i ddatblygu cyfres o Gynlluniau Cyllid Seilwaith, i roi'r strategaeth ar waith. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith cyntaf hwn yn gwneud hynny'n union, gan nodi'r rhaglenni seilwaith allweddol y bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi ynddynt i gyflawni'r canlyniadau strategol a bennir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
4. Ar sail y setliad 3 blynedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gael yn sgil yr Adolygiad o Wariant y DU ac yn cyd-fynd yn agos â'r broses ar gyfer pennu cynlluniau gwario drwy Gyllideb ddrafft 2022-23, mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu'r swm o fwy na £8.1bn o fuddsoddiad cyfalaf newydd Llywodraeth Cymru sydd ar gyfer cefnogi ein cynlluniau seilwaith uchelgeisiol dros y blynyddoedd ariannol 2022-23 i 2024-25, ac a fydd yn hollbwysig wrth inni adfer ar ôl pandemig y coronafeirws. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn hefyd yn nodi'r buddsoddiadau arfaethedig mewn seilwaith cyhoeddus a fydd yn cael eu cyflawni drwy ein rhaglenni sy'n cael eu hariannu gan refeniw dros y cyfnod hwnnw.

Y Rhaglen Lywodraethu

5. Cafodd y Rhaglen Lywodraethu ei diweddarau ar 7 Rhagfyr yn dilyn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru, ac mae'n nodi'r ymrwymadau uchelgeisiol a radical y byddwn yn eu cyflawni dros y pum mlynedd nesaf er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu a gwella bywydau pobl ledled Cymru. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn rhoi manylion y camau y byddwn yn eu cymryd dros dair blynedd cyntaf y cyfnod hwnnw, gan gydnabod

bod yn rhaid inni weithredu ar frys ac yn bendant i gyflawni'r ymrwymïadau hynny.

6. Er bod y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cyflawni ymrwymïad y Rhaglen Lywodraethu i gael 'Cynllun Buddsoddi newydd yn Seilwaith Cymru dros 10 mlynedd', mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn nodi'r buddsoddiadau mewn seilwaith a fydd yn galluogi cyflawni ystod gyfan o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu. O uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu, i ddatgarboneiddio mwy o gartrefi drwy waith ôl-osod, mae'r buddsoddiadau mewn seilwaith a ddisgrifir yn y ddogfen hon yn ffordd hanfodol o gyflawni'r weledigaeth o Gymru decach, wyrddach a mwy llwyddiannus y mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ei chreu.
7. Mae rhai o ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu yn ymwneud â buddsoddiadau penodol mewn seilwaith, tra bo eraill yn ymrwymïadau ehangach lle gall buddsoddi mewn seilwaith chwarae rôl sy'n galluogi. Yn y naill a'r llall, mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn nodi'n glir y rôl sydd gan bob maes buddsoddi o ran cyflawni'r ymrwymïadau a sefydlwyd drwy'r Rhaglen Lywodraethu.

Buddsoddi yn ystod y degawd diwethaf

8. Cafodd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, sef rhagflaenydd y Strategaeth hon, ei gyhoeddi yn 2012 fel cynllun i sicrhau swyddi a thwf. Dros y degawd diwethaf, rydym wedi dyrannu cyllideb cyfalaf o dros £20.3bn i'n hadrannau gwario. Mae'r cwmipas cyffredinol hwnnw'n cynnwys £215m rydym wedi'i godi drwy ddefnyddio ein pwerau benthyca, a buddsoddiad o £1.7bn o gyfalaf trafodiadau ariannol, wedi'i gyfyngu i wneud buddsoddiadau dyled neu ecwiti mewn cyrff y tu allan i gyllideb a ffiniau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru.
9. Mae'r buddsoddiad sylweddol hwn mewn seilwaith ledled Cymru wedi cael effaith sylweddol ar ein darpariaeth a'r ffordd y darperir gwasanaethau i bobl Cymru. Er enghraifft, rydym wedi buddsoddi dros £3bn yn seilwaith darparu craidd y GIG. Mae'r buddsoddiad sylweddol parhaus hwn ar adeiladau, seilwaith digidol, offer a cherbydau wedi ein galluogi i ddarparu gwasanaethau'n fwy darbodus ac effeithlon. Cwblhawyd y gwaith gwerth £360m ar Ysbyty Athrofaol y Faenor yn 2020 gan ddefnyddio gwaith adeiladu modern oddi ar y safle i ddarparu modelau clinigol newydd, a dim ond un enghraifft yw hon o'r prosiectau mawr sydd wedi cael eu cyflawni.
10. Rydym yn gwybod bod darparu cartrefi diogel o ansawdd da yn gwella canlyniadau iechyd ac addysg, yn ogystal â gwella cydlyniant cymdeithasol. I gydnabod hynny, rydym wedi rhoi'r lefelau uchaf erioed o gyllid ar gyfer ein rhaglenni tai a chartrefi clyd, gyda thua £3.5bn yn cael ei fuddsoddi er 2012, ac mae ein rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru wedi buddsoddi £1.8bn hyd yma i godi safon a chyflwr ffisegol tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae ein cynllun Cymorth i Brynu wedi cael cyllideb o £535m er 2012 ac mae wedi helpu unigolion a theuluoedd yng Nghymru i brynu bron i 12,000 o gartrefi.
11. Mae ein rhaglen flaenllaw, Cymunedau Cynaliadwy i Ddysgwyr (Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif tan 31.12.21) wedi arwain at dros £1.4bn o

fuddsoddiad cyfalaf mewn ffrydiau seilwaith sy'n cynnwys y Gymraeg, Digidol, Addysg Bellach, Addysg Uwch, Gofal Plant a Dechrau'n Deg. Mae'r buddsoddiad hwn – sef y cam cyntaf rhwng 2014 a 2019, yn golygu bod 173 o ysgolion wedi'u hadeiladu o'r newydd neu wedi'u hadnewyddu ledled Cymru, gan wella'r amgylchedd dysgu i fwy na 100,000 o ddisgyblion.

12. Wrth fynd i'r afael â pherygl llifogydd ledled Cymru, rydym wedi buddsoddi £420m (gan gynnwys drwy ein Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, yn ogystal â chyllid refeniw) rhwng 2012-13 a 2020-21, gan leihau'r risg i gymunedau. Mae ein buddsoddiadau hefyd wed bod yn hanfodol o ran lleihau canlyniadau ariannol llifogydd hefyd, ac amcangyfrifir bod gwerth £3bn o ddifrod wedi'i atal yn sgil yr stormydd arfordirol ym mis Rhagfyr 2013 ac Ionawr 2014 yn unig.
13. Rydym wedi gwneud mwy na £150m o ddyraniadau cyllidebol cyfalaf i'n rhaglen buddsoddi mewn seilwaith digidol ers 2011-12, gyda phrosiect Cyflymu Cymru yn darparu mynediad i fand eang cyflym iawn i fwy na 700,000 eiddo ledled Cymru. Mae hyn wedi cynyddu canran y cartrefi a'r safleoedd busnes sydd â mynediad ato, o 44% ar y cychwyn i 90% ar ddiwedd y prosiectau yn 2018.
14. Rhwng 2012-13 a 2020-21, gwnaethom fuddsoddi bron i £1.8bn yn ein rhwydwaith ffyrdd strategol, gan gynnwys buddsoddiad cynnal a chadw a phrosiectau gwella mawr. Mae'r prosiectau seilwaith allweddol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys gwaith ar yr A4226 (Five Mile Lane) a'r A483 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd).
15. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adeiladu ar ein buddsoddiadau a'n cyflawniadau seilwaith dros y degawd diwethaf, ac mae'n adlewyrchu ein cynlluniau fel y'u nodir yng Nghyllideb ddrafft 2022-23.

Y Cyllid sydd ar gael

Grant Bloc

16. Er gwaethaf cyfeiriadau'r Canghellor at 'oes o obaith' wrth gyhoeddi canlyniad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael inni yn disgyn yn nhermau ariannol ym mhob blwyddyn yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant, ac mae hyn yn 11 y cant yn is yn 2024-25 nag yn y flwyddyn bresennol. Yn gyffredinol, bydd ein cyllideb yn 2024-25 bron £3bn yn is na phe bai wedi cynyddu yn unol â'r economi ers 2010-11.
17. Yn syml iawn, nid yw hyn yn darparu ar gyfer y buddsoddiad angenrheidiol mewn prosesau adfer ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a theuluoedd yng Nghymru, nac yn gwneud yr hyn y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfyngau yn yr hinsawdd a natur yr ydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Fel y nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, byddwn yn parhau i ddilyn ein hegwyddor sydd wedi hen ennill ei phlwyf ac sy'n sail i ddefnyddio cyfalaf yng Nghymru, gan fanteisio'n llawn ar y mathau rhataf o gyfalaf cyn edrych ar opsiynau eraill i roi hwb i'n capasiti buddsoddi. Er mwyn cyflawni uchelgeisiau'r

llywodraeth hon, mae defnydd o'r "opsiynau eraill" hynny dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant yn cael eu hamlinellu isod.

Benthycia Cyfalaf

18. Yng ngoleuni'r setliad cyfyngol rydym wedi'i gael yn sgil Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, mae'r rhaglenni sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu'r defnydd gorau posibl o'n capasiti benthycia dros y tair blynedd nesaf, gan roi'r gallu inni ariannu gwerth tua £450m o fuddsoddiad mewn seilwaith. Mae'r tabl isod yn dangos proffil y benthycia hwn yn ogystal â'n cyfalaf cyffredinol dros y tair blynedd. Mae'n hanfodol cofio nad yw benthycia cyfalaf yn ffynhonnell gyllid "am ddim", ac y bydd defnyddio'r benthyciad fel y nodir yng Nghyllideb ddrafft 2022-23 yn arwain at gost refeniw ychwanegol o £3.1m y flwyddyn ar gyfartaledd i dalu am y benthycia.

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Total (£,000)
<i>Cyfalaf Cyffredinol</i>	2,377,963	2,514,687	2,503,138	7,395,788
<i>Capasiti Benthycia</i>	150,000	150,000	150,000	450,000
CYFANSWM	2,527,963	2,664,687	2,653,138	7,845,788

Gor-raglennu

19. Rydym wedi nodi o'r blaen yr heriau sy'n ein hwynebu o ran defnyddio dyraniadau a dderbyniwyd o ganlyniad i ddigwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU yn hwyr yn y blynyddoedd ariannol, ac mae hyn, ynghyd â'r setliad heriol a nodir uchod, yn golygu ein bod wedi gwneud y penderfyniad i "or-raglennu" ein cynlluniau cyfalaf dros y tair blynedd nesaf. Mae cyfanswm ein hamlen ariannol ar gyfer cyfalaf cyffredinol yn £7.846bn dros y tair blynedd nesaf, o'i gymharu â chyfanswm y buddsoddiad arfaethedig a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn, sef £8.12bn.
20. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu ein bod yn dyrannu mwy o gyllid drwy'r gyllideb ddrafft na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, gwerth £79m yn 2022-23, £98m yn 2023-24 a £98m yn 2024-25. Wrth i gyllid ychwanegol ddod i law yn ystod y flwyddyn, bydd maint y gor-raglennu yn cael ei leihau, gan ddileu'r angen i ddefnyddio'r cyllid ychwanegol ar fyr rybudd, mewn ffordd nad yw'n ddelfrydol o bosibl. Byddwn hefyd yn cadw'r opsiwn i newid refeniw i gyllid cyfalaf, yn ogystal â thynnu cyllid i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru, lle bo hynny'n briodol er mwyn cynnal ein cynlluniau cyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf.

Buddsoddi mewn Seilwaith gydag Arian Refeniw

21. Er bod y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn yn adlewyrchu dyraniadau'r gyllideb cyfalaf dros y cyfnod 2022-23 i 2024-25, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu

amrywiaeth o fuddsoddiadau seilwaith drwy ein cynlluniau cyllid arloesol, a fydd yn sicrhau gwerth cyfalaf sylweddol dros y tair i bum mlynedd nesaf.

22. Yn gyntaf, bydd ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol a ariennir yn breifat yn dechrau cyflawni adrannau 5 a 6 prosiect gwaith deuoli'r A465, Band B ein rhaglen Cymunedau Cynaliadwy i Ddysgwyr (Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif tan 31.12.21) a Chanolfan Ganser newydd Felindre yng Nghaerdydd. Gyda'i gilydd, mae cyfanswm gwerth cyfalaf cyfunol y tri chynllun hyn yn fwy na £1.3bn.
23. Yn ail, mae elfen o'n Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol yn cael ei hariannu drwy Fenter Benthycu Llywodraeth Leol. Drwy'r Fenter hon bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth refeniw ychwanegol, gan alluogi awdurdodau lleol i hunan-gyllido gwerth £233m o fuddsoddiad cyfalaf mewn camau i liniaru risgiau arfordirol.
24. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn esbonio pan fyddwn wedi defnyddio pob ffynhonnell gyllid arall ac nad yw hynny'n ddigon i ariannu'r seilwaith sydd ei angen arnom, byddwn yn ystyried buddsoddiadau gan ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae buddsoddiadau cyfalaf gydag arian refeniw fel arfer yn galw am gyfnodau arweiniol hir, a mwy o gynllunio strategol hirdymor na buddsoddiad cyfalaf rheolaidd. Byddwn yn defnyddio'r cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn i ystyried sut y gellid defnyddio modelau sy'n cael eu hariannu gan refeniw i helpu i gyflawni rhagor o fuddsoddiadau mewn seilwaith ar hyd oes y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, os bydd cyfyngiadau cyfalaf yn dal yn broblem.

Chwyddiant Prisiau Gwaith Adeiladu

25. Fel strategaeth fuddsoddi mewn seilwaith dros 10 mlynedd, mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cydnabod bod yn rhaid i'n seilwaith gael ei lunio i adlewyrchu tueddiadau hirdymor. At ddibenion y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn, sy'n setlo buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith dros gyfnod o dair blynedd, dylid cydnabod tueddiadau tymor byrrach hefyd. Er ei bod yn amlwg yn anodd rhagweld y rhagolygon tymor byr ar gyfer yr economi yng Nghymru a'r DU yn ehangach, mae arwyddion y gallai chwyddiant prisiau gwaith adeiladu gyrraedd rhwng 5-10% yn 2022/23 a disgwylir rhywfaint o lacio yn 2023/24. Rhaid inni gydnabod hyn fel cyfyngiad posibl ar ein gallu i gyflawni ein rhaglenni seilwaith cyfalaf uchelgeisiol.

Buddsoddiadau Llywodraeth y DU

26. Nid yw Adolygiad o Wariant y DU wedi cyflawni dros Gymru yn y meysydd hynny y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt. Nid yw blaenoriaethau cyllido hanfodol, fel adfer tomenni glo yn y tymor hir, cyllido'r seilwaith rheilffyrdd, a chyllid llawn yn lle cyllid yr UE, wedi cael eu cyflawni.

Rheilffyrdd

27. Mae adroddiad terfynol yr Adolygiad o Gysylltedd yr Undeb gan Syr Peter Hendy yn ategu argymhellion adroddiad Burns, gan gynnwys y rheini sy'n dal o fewn cymhwysedd sydd wedi'i gadw'n ôl, megis galw am fwy o fuddsoddiad yn y gwaith o uwchraddio ac adeiladu gorsafoedd newydd ar Brif Lein Rheilffordd bresennol De Cymru. Felly, mae'n siomedig na fu unrhyw ymrwymiad sylweddol i fuddsoddi mewn prosiectau rheilffyrdd penodol yng Nghymru, yn enwedig yn y rheini sy'n cefnogi ein targedau sero net ac yn gwella amserlenni. Gan nad oes datganoli priodol ar seilwaith rheilffyrdd na setliad cyllido teg, rydym yn parhau i alw ar y DU i ddadwneud y tanariannu sydd wedi bod yn y gorffennol ar y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru er mwyn i hyn allu digwydd.
28. Ochr yn ochr â hyn, mae'r ffaith bod Trysorlys Llywodraeth y DU yn parhau i gategoreiddio HS2 fel prosiect Cymru a Lloegr yn tanseilio ein gallu i fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru gan fod hyn yn arwain at lai o lawer o gyllid i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffactor cymharedd ar gyfer Cymru gyda chyllid yr Adran Drafnidiaeth wedi gostwng i 36.6% erbyn hyn (o 80.9%) oherwydd y cynnydd sylweddol yng nghyllideb HS2 a bod Network Rail yn cael ei gynnwys yng nghyllideb yr Adran Drafnidiaeth. Mae hyn yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn cael llawer llai o ganlyniad i unrhyw newid yng nghyllid yr Adran Drafnidiaeth nag y byddai petai HS2 yn cael ei nodi fel cynllun i Loegr yn unig. Mae'n dweud y bydd y "Cynllun Rheilffyrdd Integredig" a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU yn golygu y bydd dros 75% o'r brif reilffordd yn Lloegr yn cael ei drydaneiddio, a ninnau yng Nghymru yn dal ar 2%.
29. Er gwaethaf hyn, rydym wedi ymrwymo o hyd i fuddsoddi yn ein trafnidiaeth gyhoeddus, ac mae'r adran ar fuddsoddi mewn "Rheilffyrdd" yn amlinellu ein buddsoddiad sylweddol yn y meysydd rheilffyrdd hynny y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt.

Tomenni Glo


30. Diogelu ein cymunedau yw prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru o hyd, a byddwn yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau datganoledig yn llawn er mwyn gwneud hynny. Yng ngoleuni'r ymrwymiad hwn, mae'n siomedig iawn bod Llywodraeth y DU yn cefnu ar ei rhwymedigaethau i fynd i'r afael â'r hyn y mae'r diwydiant glo wedi'i adael ar ei ôl, ei effaith anghymesur ar gymunedau Cymru a'r goblygiadau cysylltiedig o ran diogelwch y cyhoedd. Nid oedd yn hysbys bod angen gwaith i fynd i'r afael â'r effaith hon – yn enwedig yn wyneb newid yn yr hinsawdd sydd wedi effeithio ar y byd, ac ni wnaed darpariaeth pan gytunwyd ar drefniadau cyllido Cymru yn 1999.
31. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i'r cymunedau hyn, a dyna pam mae Cyllideb ddrafft 2022-23 - a adlewyrchir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn, - yn ariannu'n llawn gostau ein dull gweithredu dros dro, gan gyflawni'r rhaglen cynnal a chadw sydd ei hangen i sefydlogi tomenni glo cyn y drefn reoli statudol newydd.

Cyllid yn lle arian yr UE

32. Er gwaethaf yr addewidion na fyddai Cymru’n cael “ceiniog yn llai” o dan y trefniadau cyllido ar ôl ymadael â’r UE, cadarnhaodd yr Adolygiad o Wariant y DU y byddai’r Gronfa Ffyniant Gyffredin newydd yn werth £400m ledled y DU yn 2022/23, £700m yn 2023/24 a £1.5bn yn 2024/25. Mae hyn yn golygu y bydd Cymru’n cael llawer llai na’r £375m, o leiaf, a dderbyniwyd bob blwyddyn drwy’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd.
33. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd i fuddsoddi mewn sgiliau critigol, cyflogadwyedd, prentisiaethau, Banc Datblygu Cymru, seilwaith strategol a datblygu economaidd rhanbarthol, yn ogystal â chyflawni ein rhwymedigaethau statudol i leihau allyriadau carbon a gwireddu ein huchelgais ar gyfer Sero Net. Mae methu â darparu cyllid tebyg yn ein cyfyngu’n sylweddol i fuddsoddi yn y rhaglenni hynny, yn ogystal â buddsoddi mewn addysg uwch ac addysg bellach, busnesau a’r trydydd sector.
34. Mae’r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd wedi ein galluogi hefyd i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith cyfalaf hanfodol ar gyfer Cymru – fel Metro De Cymru, cynllun ffordd A465 Blaenau’r Cymoedd ac amrywiaeth o brosiectau adfywio canol trefi – ac mae gennym bryderon difrifol am ymdrechion Llywodraeth y DU i roi cyfran deg o gyllid i bobl Cymru yn lle arian Ewrop. Rydym wedi egluro i Lywodraeth y DU bod angen i Lywodraethau datganoledig chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio a darparu unrhyw raglenni ledled y DU sy’n buddsoddi mewn meysydd datganoledig fel bod gwerth am arian, buddsoddiadau cydgysylltiedig a strategol a chanlyniadau gwell a thecach yn cael eu cyflawni.

Cynlluniau Buddsoddi

Canlyniadau

Amgylcheddol		Cymdeithasol		Economaidd		Diwylliannol	
1. Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr	 Datgarboneiddio	5. Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru	 Lles Corfforol	9. Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru	 Cyflogaeth	13. Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu’r defnydd ohoni	 Y Gymraeg
2. Buddsoddi mewn bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol	 Bioamrywiaeth	6. Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru	 Iechyd Meddwl	10. Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau	 Cynhyrchiant Busnesauau	14. Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth	 Diwylliant
3. Gwella ansawdd aer a dŵr	 Ansawdd aer a dŵr	7. Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol	 Anghydraddoldeb Cymdeithasol	11. Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd	 Incwm Aelwydydd	15. Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden	 Chwaraeon
4. Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy	 Defnydd anghynaliadwy	8. Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol	 Gwasanaethau Allweddol	12. Gwella deiliannau addysgol	 Gwella Deiliannau Addysgol	16. Gwella’r buddsoddiad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru	 Buddsoddi yng Nghymru

35. Mae pob un o’r canlyniadau strategol a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn cael eu trefnu o dan y pedwar maes llesiant. Mae’r

canlyniadau hynny'n seiliedig ar amrywiaeth o gamau buddsoddi ac, fel hyn, rydym yn ceisio dangos bod gan bob maes buddsoddi mewn seilwaith y potensial i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau ar draws y meysydd, ac mae gan bob un rôl i'w chwarae o ran mynd i'r afael ag argyfyngau yn yr hinsawdd a natur.

36. Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar y dull gweithredu hwnnw drwy nodi'r prif gamau y mae ein buddsoddiad ym mhob maes buddsoddi yn eu cyflawni. Er nad oes bwriad i'r prif gamau hyn fod yn rhestr gynhwysfawr, maent yn dangos y canlyniadau niferus y mae ein buddsoddiadau'n cyfrannu atynt. Rydym hefyd yn cysylltu'r buddsoddiadau â'r ymrwymiad perthnasol yn y Rhaglen Lywodraethu, ac yn cydnabod y rôl y mae'r buddsoddiad yn ei chwarae o ran cyfrannu at dargedau Sero Net Llywodraeth Cymru.
37. Mae'r Atodiad i'r ddogfen hon yn nodi map canlyniadau manwl, sy'n crynhoi sut mae'r buddsoddiadau a wneir drwy'r ddogfen hon yn cyflawni yn erbyn yr ystod o ganlyniadau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Pennod 2: Tai

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Tai Cymdeithasol	330,000	350,000	350,000	1,030,000
Datgarboneiddio Cartrefi Cymru	180,000	200,000	200,000	580,000
Diogelwch Adeiladau	75,000	135,000	165,000	375,000
Y Gronfa Gofal Integredig ac Addasiadau	80,000	80,000	80,000	240,000
Cymorth Prynu	2,000	2,500	4,000	8,500
Tai'r Farchnad Agored	10,000	25,000	25,000	60,000
Cyflenwad y Sector Rhentu Preifat	500	1,500	1,500	3,500
Cyfanswm	677,500	794,000	825,500	2,297,000

Tai Cymdeithasol

Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da
Buddsoddi yng Nghymru	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy sydd â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt
Datgarboneiddio	Rhaid i fuddsoddiadau newydd mewn stoc tai cymdeithasol gyflawni'r targedau yn Cymru Sero Net
Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn parhau i archwilio a defnyddio technolegau adeiladu carbon isel newydd, gan gynnwys dulliau adeiladu modern

- 2.1** Mae'r rhaglen Tai Cymdeithasol yn helpu i gyflawni amrywiaeth o flaenoriaethau'r llywodraeth hon. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel i'w rhentu er mwyn mynd i'r afael â phrinder tai ac allyriadau nwyon tŷ gwydr y genedl, ac ymrwymiad i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal digartrefedd a sicrhau ailgartrefu cyflym. Yn hynny o beth, mae'r gyllideb ddrafft hon yn nodi'r ymrwymiad i fuddsoddi £1,030m dros y tair blynedd nesaf mewn rhaglenni Tai Cymdeithasol i gyflawni'r uchelgeisiau hyn.
- 2.2** Drwy ein buddsoddiad o £965m yn y Grant Tai Cymdeithasol, rydym yn cyllido landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol yn uniongyrchol er mwyn darparu amcangyfrif o 17,500 o dai cymdeithasol carbon isel i'w rhentu. Cartrefi cymdeithasol sy'n gosod y meincnod ar gyfer ansawdd; rydym yn disgwyl safonau uchel o ran gofod, ansawdd, effeithlonrwydd ynni a chreu lleoedd yn sector tai cymdeithasol Cymru.
- 2.3** Bydd y Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau sy'n werth £35m yn ategu'r gwaith o ddatblygu tir ac adeiladau segur mewn perchnogaeth gyhoeddus yn gyflym er mwyn darparu tai cymdeithasol a fforddiadwy y mae mawr eu hangen ar gymunedau ledled Cymru. Mae'r cynllun yn ategu'r uchelgais ar gyfer

datblygiadau carbon isel, ynni-effeithlon ar raddfa fach, ac mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatgloi cynlluniau a fydd yn defnyddio dulliau adeiladu modern, technolegau arloesol a darparu atebion yn gyflym.

- 2.4** Mae'r cynllun Safleoedd Enghreifftiol yn golygu rhoi £30m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd i ganolbwyntio ar sicrhau cartrefi fforddiadwy cynaliadwy sydd wedi eu cynllunio'n dda ar dir sector cyhoeddus, gan gynnwys ein portffolio tir ein hunain, lle bydd yn ceisio sefydlu meincnod newydd ar gyfer datblygiadau preswyl. Mae pob cynllun yn cael ei ddarparu mewn cyd-destun creu lleoedd, gyda'r bwriad o sicrhau 50% o gartrefi fforddiadwy a gorfodi safonau gofod, a sbarduno arloesi mewn atebion ynni carbon isel a dulliau adeiladu modern.
- 2.5** Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar waith Datgarboneiddio Tai Cymdeithasol, gyda gwaith adfer ôl-osod ar dai cymdeithasol, er mwyn cyrraedd targedau sero net Cymru. Amcangyfrifir bod y stoc dai gyfredol yng Nghymru yn gyfrifol am 27% o'r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru ac am 15% o'n holl allyriadau nwyon tŷ gwydr ar ochr y galw. Ein nod yw sicrhau nad yw'r cartrefi cymdeithasol newydd rydym yn eu cyllido yn gwaethygu'r sefyllfa hon. Bydd tai cymdeithasol yng Nghymru'n cael eu hadeiladu yn unol â safonau inswleiddio a gofod uwch na'r rhai sydd wedi eu gosod ar gyfer cartrefi ar y farchnad agored, fel y nodir yng Ngofynion Ansawdd Dylunio Cymru.
- 2.6** Mae Gofynion Ansawdd Dylunio Cymru, a ddiwygiwyd o 1 Hydref eleni, yn ei gwneud yn ofynnol i bob cartref newydd a adeiladir gyda grant cymorth Llywodraeth Cymru fodloni safonau newydd beiddgar sy'n uwch na'r rhai a nodir yn y Rheoliadau Adeiladu, gan gynnwys: Cyflawni EPC A (SAP92 neu fwy) drwy fabwysiadu dull defnydd cyntaf a defnyddio bwyleri nad ydynt yn llosgi tanwydd ffosil i ddarparu dŵr poeth domestig a gwresogi gofod. Gall buddsoddi mewn gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai newydd a thai presennol helpu i leihau tllodi tanwydd a dibyniaeth ar fudd-daliadau, gydag amcangyfrif bod pob £1.00 sy'n cael ei gwario ar effeithlonrwydd ynni yn arbed tua 0.42c mewn costau iechyd.

Datgarboneiddio Cartrefi Cymru

Datgarboneiddio	Rhaid i fuddsoddiadau newydd mewn stoc tai cymdeithasol gyflawni'r targedau yn Cymru Sero Net
Datgarboneiddio	Byddwn yn buddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi sy'n bodoli eisoes drwy gamau ôl-ffitio
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da

- 2.7** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n glir ein huchelgais i ddatgarboneiddio mwy o gartrefi drwy ôl-osod, ac mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn nodi ein buddsoddiad arfaethedig o gyfanswm o £580m dros y tair blynedd nesaf i sbarduno datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol.
- 2.8** Rhan o hyn yw ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio , sef ein rhaglen fuddsoddi flaenllaw sydd wedi ei dylunio i wella effeithlonrwydd ynni ein stoc tai cymdeithasol bresennol. Mae'r Rhaglen yn mabwysiadu llwybr 'profi a dysgu' i

lywio polisi ac ymarfer ôl-osod, ac i nodi'r buddsoddiadau mwyaf effeithiol i gyflawni ein huchelgeisiau datgarboneiddio tymor hwy. Drwy fabwysiadu dull gweithredu pragmatig a chyfannol i ddatgarboneiddio cartrefi presennol, gallwn ystyried y ffabrig neu'r deunyddiau a ddefnyddiwyd i adeiladu ein cartrefi, y ffordd rydym yn gwresogi ac yn storio ynni yn ein cartrefi a'r ffordd mae ynni'n cael ei gyflenwi i'n cartrefi.

- 2.9** Gan adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol o £20m yn 2020-21 a £50m yn 2021-22, sy'n golygu bod bron i 2,000 o gartrefi'n cael arolwg ac yn cael 'pasbort cartref' pwrpasol sy'n nodi'r gwaith sydd ei angen i wneud pob eiddo'n ynni effeithlon, mae'r maes buddsoddi hwn yn cynnwys £150m dros dair blynedd i ehangu'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio i ragor o gartrefi. Gan edrych tua'r tymor hwy, mae'r buddsoddiad hwn hefyd yn darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein strategaethau ôl-osod yn y tymor hwy, a gofynion manwl Safonau Ansawdd Tai diwygiedig Cymru, y bwriadwn eu cyhoeddi yn 2022.
- 2.10** Mae Safonau Ansawdd Tai Cymru yn nodi'r gofynion cyfreithiol y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sicrhau bod eu stoc dai yn eu bodloni, a'u bod wedi eu cynllunio i wella safon a chyflwr ffisegol tai cymdeithasol yng Nghymru. Hyd yma, rydym wedi buddsoddi dros £1.8bn o gyllid cyfalaf i gynorthwyo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn drwy ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr, a'n Cytundebau Cyllido Gwaddol, a byddwn yn parhau i gynnig y cymorth hwn dros gyfnod y Gyllideb ddrafft hon rhwng 2022-23 a 2024-25.
- 2.11** Gwyddom y bydd cyfanswm cost datgarboneiddio stoc tai yng Nghymru yn llawer mwy na'r hyn y gall llywodraeth ei gyllido'n uniongyrchol, ac mae sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cynhyrchu'r capasiti a'r sgiliau angenrheidiol, ac yn datblygu dulliau y gall deiliadaethau eraill elwa arnynt, yn ganlyniad sydd yr un mor bwysig.
- 2.12** Mae manteision ein buddsoddiad i ategu'r gwaith o gyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru, a'n buddsoddiad mewn datgarboneiddio stoc tai cymdeithasol, fodd bynnag, yn mynd y tu hwnt i ffactorau amgylcheddol yn unig. Gwyddom fod cysylltiadau allweddol â chyfiawnder cymdeithasol o ran mynd i'r afael â thlodi tanwydd, a sicrhau bod gan bobl fynediad at gartrefi o ansawdd uchel, sy'n cael eu hystyried yn fanylach wrth bennu ein cynlluniau buddsoddi ar gyfer cyflenwi cartrefi cymdeithasol newydd a'n rhaglenni effeithlonrwydd ynni ehangach.
- 2.13** Sgôr EPC nodweddiadol cartref cymdeithasol nodweddiadol yng Nghymru yw D ar gyfartaledd – sy'n cyfateb i allyriadau carbon o 4,700kg o garbon y flwyddyn. Bydd y Safonau Ansawdd Tai Cymru newydd – sy'n seiliedig ar ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio – yn ceisio dod â'r holl stoc tai cymdeithasol mor agos ag sy'n ymarferol i safonau A EPC o fewn degawd, lle mae allyriadau carbon yn llai na 600kg y flwyddyn.

Diogelwch Adeiladau

Iechyd Meddwl	Bydd ein buddsoddiad mewn rhaglenni diogelwch adeiladau yn diogelu ac yn gwella iechyd meddwl a llesiant trigolion adeiladau uchel
Iechyd Corfforol	Bydd ein buddsoddiad mewn rhaglenni diogelwch adeiladau yn diogelu ac yn gwella iechyd corfforol a llesiant trigolion adeiladau uchel
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da

2.14 Roedd y diwygiadau deddfwriaethol a gynigiwyd yn y Papur Gwyn ar Ddiogelwch Adeiladau yn nodi trefn newydd a chadarn i sicrhau y bydd pobl sy'n byw mewn adeiladau preswyl aml-lawr yn ddiogel yn eu cartrefi. Mae'r diwygiadau hyn yn canolbwyntio ar newid ar gyfer y dyfodol.

2.15 Ochr yn ochr â hyn, mae angen buddsoddiad i fynd i'r afael â'r materion presennol a nodwyd mewn adeiladau preswyl o uchder canolig ac adeiladau preswyl uchel iawn, a bydd hyn yn cynnwys nifer o elfennau sy'n ategu'r gwaith o nodi problemau a gwaith adfer dilynol i adeiladau, yn ogystal ag opsiynau i lesddeiliaid preifat sydd mewn caledi ariannol sylweddol werthu eu heiddo.

2.16 Mae'r rhaglen hon yn cyflawni'n uniongyrchol yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wella diogelwch adeiladau fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi drwy ddatblygu cronfa diogelwch tân ar gyfer adeiladau sydd eisoes yn bodoli.

2.17 O'r herwydd, mae'r gyllideb ddrafft hon wedi ymrwymo £375m dros y tair blynedd nesaf drwy fuddsoddiad hirdymor mewn adfer blociau o fflatiau drwy Gronfa Diogelwch Adeiladau Cymru, a thrwy gyllido'r addewid yn y Cytundeb Cydweithio i gyflwyno ail gam Cronfa Diogelwch Adeiladau Cymru. Bydd cam 1 y rhaglen hon yn sicrhau bod cyllid ar gael i gomisiynu arolygon diogelwch tân ar gyfer adeiladau cymwys, lle mae diffygion diogelwch tân yn hysbys neu lle mae amheuaeth o hynny. Bydd yr wybodaeth a geir o'r arolwg yn sail i Basbort Adeilad, fydd yn nodi llwybr at adfer ac yn rhoi eglurder y mae mawr ei angen i breswylwyr a pherchnogion adeiladau. Nod y Pasbort fydd alinio'r gwaith diogelwch tân sydd ei angen ar gyfer yr adeilad gyda chmau cynnal a chadw a datgarboneiddio arfaethedig, i roi cyfle i arbed costau drwy rannu costau comisiynu a rheoli prosiectau a tharfu cyn lleied ag y bo modd ar breswylwyr.

2.18 Bydd cam 2 y gronfa yn darparu cyllid cyfalaf i adfer materion a nodwyd drwy'r cynllun pasbort. Bydd pob adeilad preswyl amlfeddiannaeth 11m a throsodd yn gallu defnyddio'r cynlluniau hyn. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i adeiladau uchel iawn (18m+ neu 7 neu ragor o lorïau) yn y lle cyntaf. Gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r Pasbortau Adeiladau, bydd ail ran y cynllun yn darparu rhaglen o gymorth ariannol cymesur wedi ei dargedu i adfer adeiladau. Bydd hyn yn sicrhau diogelwch miloedd o breswylwyr o bosibl ac yn dod â chyfnod hir o ofid ac ansicrwydd ariannol i ben.

- 2.19** Bydd Cronfa Diogelwch Adeiladu Cymru'n golygu buddsoddi mewn seilwaith ledled Cymru wrth i adeiladau gael eu hadfer. Mae ffocws y gronfa y tu hwnt i fflatiau uchel iawn (18m+) a bydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer blociau o fflatiau wedi eu hadeiladu'n bwrpasol (11-18m) sydd wedi eu gwasgaru ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Bydd y ffocws ar yr economi sylfaenol yn golygu y bydd busnesau lleol yn cael cyfle i ffynnu o ganlyniad i fuddsoddi, gan sicrhau economi fywiog.

Y Gronfa Gofal Integredig ac Addasiadau

Iechyd Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn tai a llety arloesol i fodloni anghenion gofal
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da
Buddsoddi yng Nghymru	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy sydd â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt

- 2.20** Mae cefnogi'r rhai sydd ag anghenion gofal uwch i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon, a thanlinellir hynny gan ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal plant sydd ag anghenion cymhleth, pobl hŷn a phobl sydd ag anabledd corfforol neu anabledd dysgu.

- 2.21** Bydd y gyllideb ddrafft hon yn buddsoddi £240m dros y tair blynedd nesaf yn y Gronfa Gofal Integredig i barhau i gynorthwyo prosiectau tai, iechyd a gofal mwy cymhleth sy'n golygu cydleoli tai gyda gwasanaethau iechyd a gofal. Bydd y Gronfa yn hwyluso adeiladu 930 o unedau tai â gofal drwy'r cynlluniau Gofal Ychwanegol a Byw â Chymorth ac 110 o welyau preswyl i blant ag anghenion uwch, ynghyd ag ystod o leoliadau gofal canolraddol.

- 2.22** Byddai'r rhan fwyaf o'r unedau hyn yn dai Gofal Ychwanegol mewn datblygiadau ar raddfa fwy ar gyfer pobl hŷn a phobl â dementia. Byddai'r gweddill mewn datblygiadau ar raddfa fach i ddarparu llety â chymorth i oedolion ag anabledd dysgu a/neu ASD ac eraill. Ar ben hynny, bydd yn cefnogi llety preswyl newydd ar raddfa fach ar gyfer plant ag anghenion uwch er mwyn dod â phlant yn ôl i'w siroedd neu i osgoi lleoliadau y tu allan i'r wlad, yn ogystal â lleoliadau gofal canolraddol yn y gymuned.

- 2.23** Bydd y Gronfa hefyd yn galluogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu cymorth ategol fel darparu technolegau gofal digidol, adnewyddu tai presennol gyda gofal a chymorth ychwanegol i blant anabl ac oedolion sydd fwyaf angen aros yn eu cartref ac osgoi gofal preswyl.

- 2.24** Mae'r gyllideb ddrafft hon hefyd yn darparu buddsoddiad o £60m yn y Rhaglen Addasiadau Ymateb Cyflym, sy'n targedu'r ddarpariaeth gyflym o addasiadau i eiddo sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn sicrhau bod tua 30,000 bob blwyddyn o bobl hŷn a phobl anabl a'r rhai sydd â chlefydau sy'n cyfyngu ar eu bywyd yn gallu parhau i gael diwallu eu hanghenion gofal gartref, gan gynnal eu

hannibyniaeth a gwella'u llesiant. Mae hwn yn faes buddsoddi cynyddol bwysig oherwydd bod poblogaeth Cymru'n heneiddio'n gyflym. Mae'r rhaglen yn cyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac yn lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal.

2.25 Mae buddsoddi mewn adeiladu tai newydd a gwella a chynnal rhai sy'n bodoli'n barod yn cyfrannu at economïau lleol, yn creu ac yn cefnogi swyddi a chyfleoedd hyfforddi, ac yn gwella iechyd, llesiant ac ansawdd bywyd pobl. Bydd y cynlluniau Gofal Ychwanegol a Thai â Chymorth hefyd yn cyfrannu tuag at y targed o 20,000 o dai cymdeithasol newydd i'w rhentu.

2.26 Yn yr un modd â chynlluniau tai cymdeithasol eraill, bydd y Gronfa Gofal Integredig a'r rhaglen Addasiadau hefyd yn ategu ymrwymiad y Llywodraeth i gyrraedd sero net erbyn 2050, gan y bydd pob adeilad newydd yn ddarostyngedig i reoliadau adeiladu diwygiedig sy'n bodloni safonau newydd beiddgar i sicrhau cartrefi fforddiadwy cynaliadwy drwy effeithlonrwydd ynni a lleihau'r ddibyniaeth ar losgwyr tanwydd ffosil.

Cymorth Prynu

Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da
Buddsoddi yng Nghymru	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy sydd â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt

2.27 Pwrpas ein cynllun Cymorth Prynu yw helpu pobl i fod yn berchen ar eu cartref eu hunain drwy rannu ecwiti; ac mae ar gael ar gyfer cartrefi presennol. Mae'r cynllun yn un llwyddiannus sydd wedi cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, ar raddfa fach, ers blynyddoedd lawer, ac mae'n boblogaidd mewn ardaloedd gwledig lle nad yw cartrefi newydd ar gael yn rhwydd.

2.28 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi ein hymrwymiad yn glir i fynd i'r afael a mater fforddiadwyedd mewn ardaloedd lle mae cyfran uchel o ail gartrefi, ac i ddatblygu Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg, ac mae'r cynllun Cymorth Prynu yn rhan o hyn. Dyma'r unig gynnig yn gysylltiedig â chartrefi i'w prynu. Rydym yn defnyddio dull gweithredu tri cham i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau sydd â lefelau uchel o ail gartrefi yng Nghymru. Bydd Cymorth Prynu yn rhan o'r pecyn i fynd i'r afael â materion fforddiadwyedd drwy dargedu a theilwra'r rhaglenni tai presennol.

2.29 Mae'r cynllun yn cynnig cymorth o 30-50% ar bris prynu cartref, ac fe gaiff ei adalu pan fydd yr eiddo'n cael ei werthu. Mae'n agored i bawb, ac yn cael ei reoli gan awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a all osod gofynion ychwanegol ar ymgeiswyr, megis yr angen am gysylltiad lleol. Felly, ystyrir bod y cynllun yn allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o liniaru materion fforddiadwyedd mewn rhai cymunedau, sy'n aml yn waeth yn sgil y niferoedd uchel o ail gartrefi.

- 2.30** Mae'r cynllun Cymorth Prynu yn bennaf yn cefnogi pobl sy'n dymuno prynu cartref yn eu cymuned eu hunain, ond sydd heb yr adnoddau ariannol llawn i wneud hynny; felly, mae'n cefnogi pobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.
- 2.31** Gan adeiladu ar fuddsoddiadau blaenorol o £9.7m i brynu 178 o gartrefi Cymorth Prynu yn ystod tymor diwethaf y Llywodraeth, mae'r gyllideb ddrafft hon yn ymrwymo i fuddsoddi £8.5m i brynu 85 o gartrefi ychwanegol dros y tair blynedd nesaf, yn dibynnu ar amodau'r farchnad. Yn y lle cyntaf, bydd y buddsoddiad yn hwyluso'r broses o ddarparu'r cynllun yn yr ardal beilot arfaethedig ar gyfer ail gartrefi, ac yna caiff ei ymestyn i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Tai'r Farchnad

Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da
Buddsoddi yng Nghymru	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy sydd â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt

- 2.32** Drwy gefnogi pobl sy'n dymuno bod yn berchen ar eu cartref eu hunain, ond sydd angen cymorth ariannol i wneud hynny, mae ein hymyriadau yn y farchnad dai yn gwneud cyfraniad allweddol o ran mynd i'r afael ag anghenion o ran tai yng Nghymru, yn ogystal â rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu tai a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig.
- 2.33** Mae Cymorth i Brynu - Cymru yn cynnig benthyciad rhannu ecwiti sydd ar gael ar gyfer cartrefi a adeileddir o'r newydd hyd at uchafswm gwerth o £250k. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau â chynllun Cymorth i Brynu - Cymru tan ddiwedd mis Mawrth 2023 er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu Cymru'r Dyfodol gan y bydd symud i'r farchnad perchnogaeth breifat yn rhyddhau lle mewn tai cymdeithasol. Gall pawb sy'n datblygu tai o'r newydd ymuno â chynllun Cymorth i Brynu - Cymru sydd ar gael ledled Cymru.
- 2.34** Mae benthyciadau o hyd at 20% o werth yr eiddo ar gael i gwsmeriaid cymwys sy'n prynu cartrefi hyd at uchafswm gwerth o £250k. Caiff y benthyciad ei ad-dalu pan fydd cwsmeriaid yn ad-dalu eu morgais neu'n gwerthu eu cartref. Mae hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru yn adennill ei buddsoddiad cychwynnol ac yn gallu defnyddio unrhyw arian dros ben, llai'r costau rhedeg, ar gyfer blaenoriaethau eraill.
- 2.35** Ariennir Cymorth i Brynu Cymru tan 2023-24, a byddwn yn ystyried ymestyn y cynllun, lefel y cyllid y byddai ei angen, a tharged ar gyfer darparu cartrefi newydd.
- 2.36** Mae'r cynnig hwn ar gyfer tai'r farchnad agored yn cefnogi darparu 1,700 o gartrefi yn ystod 2022-23. Bydd trafodaethau yn ystod 2022-23 yn golygu bod targed blyneddol ar gyfer gweddill tymor y llywodraeth hon yn cael ei ddatblygu. Ar gyfartaledd, mae tua 1,500 o gartrefi'n cael eu darparu drwy Cymorth i Brynu -

Cymru bob blwyddyn, yn dibynnu ar y galw a lefel y buddsoddiad sydd ar gael i'r cynllun.

2.37 Yn ogystal, mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn darparu £60m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd i'n Cronfa Cartrefi Gwag, i ddarparu cyllid benthyca neu grant i sicrhau bod 2,500 o gartrefi gwag anodd yn cael eu meddiannu unwaith eto. Eiddo gwag anodd yw eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na dwy flynedd, ac mae hyd at £25,000 ar gael i berchen-feddianwyr (neu ddarpar berchen-feddianwyr) i dalu am gost gwaith adfer i wneud eiddo'n addas i fyw ynddo, ar yr amod bod yr ymgeisydd yn byw yn yr eiddo am o leiaf 5 mlynedd.

2.38 Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i dai cymdeithasol, ond mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi nodi'n glir bod angen parhaus am dai'r farchnad agored yng Nghymru a'i bod yn bwysig creu safleoedd tai deiliadaeth gymysg er mwyn sicrhau cymunedau gwirioneddol gynaliadwy. Mae Cymorth i Brynu - Cymru yn ganolog i'r broses o fynd i'r afael â'r angen hwn gan ei fod wedi darparu 11,959 o gartrefi yn barod ac yn anelu at ddarparu 3,400 o gartrefi ychwanegol rhwng mis Ebrill 2021 a mis Rhagfyr 2023. Bydd yn rhaid i adeiladau newydd fodloni'r lefelau effeithlonrwydd ynni sylfaenol a'r arferion gorau o ran safonau perfformiad ynni, gan gefnogi targedau sero net Cymru. Y tu hwnt i 2023, bydd yn rhaid i gartrefi o'r fath hefyd fodloni Gofynion Ansawdd Dylunio newydd Cymru.

Y Sector Rhentu Preifat

Datgarboneiddio	Bydd y sector rhentu preifat yn cael cymorth i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau yn sicrhau bod gan bobl yng Nghymru fynediad at dai addas, fforddiadwy o ansawdd da
Buddsoddi yng Nghymru	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy sydd â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt

2.39 Nod Cynllun Prydlesu Cymru yw prydlesu eiddo yn y Sector Rhentu Preifat i'w defnyddio gan awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau yn ymwneud â digartrefedd. Mae'r tenantiaid yn cael cynnig yr un lefel o gefnogaeth a ddisgwylir yn y sector cymdeithasol, ac mae'r rhent yn cael ei gyfyngu i gyfraddau lwfans tai lleol. Cynigir cymhellion i berchnogion gynnig eu heiddo drwy'r cynllun. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle gwerthfawr i awdurdodau lleol ddefnyddio'r cynllun i gyflawni eu dyletswyddau yn ymwneud â digartrefedd ac atal digartrefedd.

2.40 Mae'r cynllun yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu cynllun cenedlaethol sy'n cyfyngu rhent i lefelau lwfans tai lleol ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'n rhan o ddull arloesol gan awdurdodau lleol i ymdrin â digartrefedd ac i symud i ffwrdd o ddefnyddio llety dros dro. Ar ben hynny, bydd y cynllun yn sicrhau lles cymdeithasol gwell i denantiaid, drwy eu galluogi i gael gafael ar lety tymor hwy a manteisio ar gymorth tenantiaeth fel y gallent ei ddisgwyl mewn tai cymdeithasol.

- 2.41** Bydd y cynllun hwn yn cael ei gynnig i bob awdurdod lleol yng Nghymru, gydag awdurdodau lleol yn gosod targed dros dro i brydlesu 1% o'u heiddo Sector Rhentu Preifat drwy'r cynllun erbyn blwyddyn 5. Mae'r gyllideb ddrafft hon yn ymrwymo mwy na £3m dros dair blynedd i ehangu'r Cynllun Prydlesu ledled Cymru fel bod 2,179 eiddo yn gallu cael eu prydlesu dros gyfnod o 5 mlynedd fel rhan o'r cynllun.
- 2.42** Mae Llywodraeth Cymru yn gwarantu rhent ar gyfradd Lwfans Tai Lleol (minws swm sy'n cyfateb i ffi rheoli) i berchnogion eiddo drwy gydol y brydles, ac yn gwarantu y bydd unrhyw ddifrod neu atgyweiriadau i eiddo yn cael eu had-dalu hyd at lefel ragnodedig.
- 2.43** Yn ogystal ag argaeledd tai fforddiadwy, mae'r cynllun hefyd yn cyfrannu at wella safonau eiddo o fewn y sector rhentu preifa, drwy ddarparu grantiau o hyd at £5k i wella cyflwr yr eiddo, neu hyd at £20k ar gyfer eiddo gwag, naill ai i godi'r eiddo i safonau gorfodol y cynllun neu i wella sgôr EPC i C o leiaf.
- 2.44** Bydd camau effeithlonrwydd ynni yn fesur hollbwysig o ran cyflawni Cyllideb Garbon 2 a'n targed sero net. Mae gan Gymru 1.4m o gartrefi o bob maint a math, gan gynnwys cyfran sylweddol o adeiladau hŷn. Bydd ein buddsoddiadau yng nghynllun prydlesu'r sector rhentu preifat yn allweddol i hybu effeithlonrwydd ynni, ond byddwn hefyd yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu amgylchedd rheoleiddio ac ariannol cefnogol.

Pennod 3. Teithio Llesol a Chynaliadwy

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Teithio Llesol	60,000	80,000	80,000	220,000
Seilwaith Cerbydau Trydan	7,788	11,672	23,217	42,677
Cronfa Trafnidiaeth Leol	17,500	40,000	50,000	107,500
Cyfanswm	85,288	131,672	153,217	370,177

Seilwaith Teithio Llesol

Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau trafndiaeth yn cefnogi'r cyfraniad y gall newid dulliau teithio ei wneud tuag at ddatgarboneiddio
Lles Corfforol	Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol a all sicrhau manteision iechyd sylweddol
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith teithio llesol strategol yn ystyried y buddion y gall cynlluniau eu sicrhau drwy hybu defnydd ar draws pob grŵp cymdeithasol
Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith teithio llesol yn rhoi hwb i hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus allweddol

3.1 Rydyn ni'n gwybod y gall buddsoddi mewn seilwaith Teithio Llesol gyflawni yn erbyn ystod eang o'r canlyniadau a'r camau sydd wedi'u nodi yn Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, o fuddion iechyd a llesiant i hyrwyddo a galluogi defnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy. Dyna pam ein bod, drwy ein Rhaglen Lywodraethu, wedi ymrwymo i weithio tuag at ein targed newydd, sef 45% o deithiau'n cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, yn ogystal â gosod nodau mwy uchelgeisiol lle bo modd.

3.2 Ni fydd modd newid dulliau teithio ar y lefel hon drwy fuddsoddiad cyfalaf yn unig – gwyddom y bydd yn rhaid inni fuddsoddi yn y seilwaith sy'n golygu bod trafndiaeth gyhoeddus a cherdded a beicio yn ddewisiadau ymarferol. Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn dyrannu tua £220m o gyllid cyfalaf i'n rhaglenni seilwaith Teithio Llesol rhwng 220-23 a 2024-25, sy'n golygu buddsoddiad o fwy na £23 y pen erbyn diwedd cyfnod y gyllideb. Bydd y cyllid Teithio Llesol hwn yn galluogi awdurdodau lleol i fuddsoddi yn y mathau o seilwaith sy'n nodwedd gyffredin mewn lleoedd sydd â lefelau uchel o bobl yn cerdded a beicio – er enghraifft, rhwydweithiau cynhwysfawr o lwybrau beicio sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig cerbydau modur.

3.3 Mae ein dadansoddiad yn amcangyfrif y bydd cyflawni ein targedau o ran newid dulliau teithio yn sicrhau arbedion allyriadau cronol o 0.3-0.7 MtCO₂e rhwng nawr a 2040. Tua diwedd y cyfnod amser a fodelwyd, yng Nghyfnod Cyllideb

Garbon 5 Cymru (2036-40), byddai'r carbon a arbedir yn cyfateb i 2.0-4.8% o'r holl allyriadau o geir yng Nghymru. Mae ein dadansoddiad hefyd yn awgrymu bod yr arbedion posibl mwyaf pe bai pob taith addas mewn car yn cael ei gwneud ar droed, neu ar gefn beic ac e-feic, yn llawer mwy na hyn.

Trawsnewid o ran Cerbydau Trydan

Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau trafnidiaeth yn cefnogi'r cyfraniad y gall newid dulliau teithio ei wneud tuag at ddatgarboneiddio
Ansawdd Aer a Dŵr	Bydd ein buddsoddiadau trafnidiaeth yn hyrwyddo newid mewn dulliau teithio, a'r gwelliannau cysylltiedig o ran ansawdd aer

3.4 Mae 'Llwybr Newydd', ein Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru, yn nodi'r camau eang sydd eu hangen i hwyluso newid dulliau teithio, ond gwyddom fod buddsoddi mewn seilwaith gwefru yn hanfodol er mwyn sicrhau, erbyn 2025, bod holl ddefnyddwyr ceir a faniau trydan yng Nghymru yn hyderus eu bod yn gallu cael mynediad at seilwaith gwefru cerbydau trydan pan fydd ei angen arnynt. Fel y nodir yn Cymru Sero Net, byddwn yn sicrhau bod o leiaf un pwynt gwefru ar gael i'r cyhoedd ar gyfer pob 7 i 11 o geir a faniau trydan yng Nghymru, a byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol i ddarparu mannau gwefru cyhoeddus ac ar y stryd drwy gronfa cerbydau allyriadau isel iawn Llywodraeth Cymru.

3.5 Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn ein hymrwymo i weithio i ostwng allyriadau'r fflyd bysiau a thacsis i sero erbyn 2028, ac rydym yn buddsoddi dros £42m yn ystod y cyfnod rhwng 65-23 a 2024-25 i roi hwb i fentrau a hyrwyddo cydweithioewn grwpiau cyflawni.

3.6 Bydd hyn yn ariannu cronfa drawsnewid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn. Yn unol â'n Cynllun Gweithredu Gwefru Cerbydau Trydan, ochr yn ochr â rhwydwaith o orsafoedd gwefru cyflym/cyflym iawn ar draws rhwydwaith ffyrdd strategol Cymru, bydd y gronfa yn cefnogi amrywiaeth o flaenoriaethau, gan gynnwys canolfannau trafnidiaeth aml-ddull gyda darpariaeth gwefru, gwefru yn y gweithle, gwefru mewn cymunedau gwledig, canolfannau gwefru trefol a gwefru preswyl ar y stryd. Ar ben hynny, byddwn yn edrych ar gynllun tebyg i brydlesu er mwyn disodli'r fflyd tacsis, gan alluogi gyrwyr a gweithredwyr i brynu cerbydau allyriadau sero gan godi'r cyfalaf cychwynnol, ac ad-dalu drwy eu hincwm refeniw yn lle hynny.

3.7 Mae gwerthusiad o Lwybr Sero Net Cytbwys CCC yn dangos, os bydd cerbydau'n cael eu trydaneiddio ar y gyfradd sy'n ofynnol gan y Llwybr hwnnw, y bydd gostyngiad o 0.5 MtCO₂e y flwyddyn yn 2025 mewn allyriadau pibell

fwg o geir a faniau bach, ac y bydd yn codi i 4.3 MtCO₂e y flwyddyn yn 2040. Cyfanswm yr arbedion carbon rhwng 2020 a 2040 fyddai rhwng 35 MtCO₂e a 39 MtCO₂e. Rydym yn amcangyfrif y bydd cyflawni'r targed i gael tacsis allyriadau sero erbyn 2028 yn arwain at arbedion carbon cronol o tua 0.2 MtCO₂e rhwng nawr a 2031.

Trafnidiaeth Leol

Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau trafndiaeth yn cefnogi'r cyfraniad y gall newid dulliau teithio ei wneud tuag at ddatgarboneiddio
Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n sicrhau rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus
Cyflogaeth	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafndiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn golygu bod modd lleoli swyddi'n gynaliadwy

3.8 Ochr yn ochr â'r buddsoddiad strategol mewn teithio llesol a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith hwn, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn atebion trafndiaeth leol cynaliadwy a chadarn hefyd. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ddatblygu Cynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Trafndiaeth. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu eu Cynlluniau Trafndiaeth Rhanbarthol. Byddwn yn moderneiddio ein grantiau trafndiaeth i adlewyrchu blaenoriaethau newydd Strategaeth Drafndiaeth newydd Cymru a'r Hierarchaeth Teithio Cynaliadwy, ac mae'n hanfodol bod ein buddsoddiadau cyfalaf yn cyflawni'r ymrwymadau hyn.

3.9 Dyna pam ein bod yn buddsoddi £107m yn ystod y cyfnod rhwng 2022-23 a 2024-25 i barhau i ariannu ein mentrau trafndiaeth leol i gyflawni ein huchelgeisiau cyffredinol am system drafndiaeth gynaliadwy. Bydd ein Cronfa Deithio Leol yn canolbwyntio ar sicrhau bod y prosiectau mae'n eu cefnogi yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau yn Llwybr Newydd ac, yn benodol, yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r gostyngiad i 20mya yn y terfyn cyflymder. Yn unol ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu'r broses benderfynu ranbarthol, bydd blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi'r gronfa hon yn cael eu pennu drwy gynllunio trafndiaeth ranbarthol.

3.10 Er bod ein buddsoddiad yn canolbwyntio'n gyffredinol ar leihau allyriadau carbon – o ran adeiladu, gweithredu a'r ymddygiad mae'n ei alluogi – mae'n rhaid inni hefyd sicrhau bod y seilwaith sydd gennym yn parhau i fod yn gadarn o ran y newid yn yr hinsawdd sy'n digwydd yn barod.

3.11 Wrth asesu ceisiadau am gyllid yn y cynlluniau grant hyn, mae angen dangos sut mae'n cyd-fynd â Llwybr Newydd – yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth carbon isel, hygyrch, effeithlon a chynaliadwy – yn ogystal â chydymffurfio â gofynion asesu WelTAG.

Pennod 4. Trafnidiaeth Gyhoeddus

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Rheilffyrdd	400,000	150,000	35,000	585,000
Bysiau	25,000	80,000	80,000	185,000
Cyfanswm	425,000	230,000	115,000	770,000

Rheilffyrdd

Cyflogaeth	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafndiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn golygu bod modd lleoli swyddi'n gynaliadwy.
Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau trafndiaeth yn cefnogi'r cyfraniad y gall newid dulliau teithio ei wneud tuag at ddatgarboneiddio.
Cynhyrchiant Busnesauau	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafndiaeth gyhoeddus yn golygu bod modd sicrhau'r manteision cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â datblygiadau busnes newydd sy'n canolbwyntio ar ganol trefi.
Y Gymraeg	Gall ein buddsoddiadau ar draws sectorau seilwaith gefnogi cymdeithas ac economi sy'n annog defnyddio'r Gymraeg a manteisio i'r eithaf arni.

- 4.1 Mae'r pwerau o ran elfennau sylweddol o'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru yn dal wedi'u cadw i Lywodraeth y DU, ac yn y meysydd hynny byddwn yn cyflawni ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu i barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU am gyfran deg o'r seilwaith rheilffyrdd hanfodol a buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu i Gymru, yn ogystal â thrydaneiddio prif reilffordd y Gogledd.
- 4.2 Fodd bynnag, mae trosglwyddo Llinellau Craidd y Cymoedd i Lywodraeth Cymru a pherchnogaeth masnachfaint Cymru a'r Gororau yn gyfle i ddefnyddio buddsoddiad mewn seilwaith fel cyfrwng i gyflawni'r amcanion yn Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn ogystal â'n hymrwymïadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwerth £800m o gerbydau newydd ar gyfer ein rheilffyrdd a sicrhau bod 95% o deithiau ar y rheilffordd yn cael eu gwneud ar drenau newydd erbyn 2024, gweithio tuag at ein targed newydd o wneud 45% o deithiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040, a sicrhau bod ein system trafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn fwy hygyrch i bobl anabl.
- 4.3 I gefnogi'r uchelgeisiau hyn, mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn darparu dros £585m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd. Bydd hyn yn golygu bod modd parhau â Rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, gan ddarparu'r cledrau, y signalau a'r gwaith trydaneiddio wedi'i uwchraddio a fydd yn golygu bod modd

rhedeg mwy o wasanaethau a gwasanaethau cyflymach; bydd hyn yn gwella mynediad a chysylltedd rhwng cymunedau'r cymoedd a Chaerdydd, sy'n elfen allweddol o system Metro De Cymru. Ar ôl cwblhau'r gwaith, gyda'r bwriad o gyflwyno'r amserlen ym mis Rhagfyr 2023, bydd oddeutu 170 cilometr o gledrau wedi'u trydaneiddio, gyda 2,500 o strwythurau llinell uwchben wedi'u gosod.

- 4.4** Yn fwy cyffredinol, bydd ein hymrwymiad i gerbydau newydd yn darparu trenau newydd, cyflymach a mwy cyfforddus, ac yn golygu bod modd sefydlu mwy o wasanaethau a llwybrau newydd. Bydd hyn yn cynnwys fflydau Stadler trydan/batri ar gyfer gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd a fflyd diesel newydd ar gyfer y llinellau heb eu trydaneiddio; y disgwylir y bydd oddeutu 20% yn fwy effeithlon na'r fflyd bresennol.
- 4.5** Yn ogystal â darparu mynediad uniongyrchol at swyddi, mae ein buddsoddiad mewn seilwaith rheilffyrdd yn canolbwyntio ar ddatblygu'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth yn unol â Llwybr Newydd a'n huchelgeisiau adfywio, gan gynyddu'r cyfleoedd i sicrhau datblygiad economaidd ehangach o amgylch lleoliadau gorsafoedd newydd er mwyn gwireddu cyfleoedd gwaith newydd mewn lleoliadau cynaliadwy.
- 4.6** Amcangyfrifir y bydd ein buddsoddiad mewn trafnidiaeth gyhoeddus – ein seilwaith trenau a bysiau gyda'i gilydd – yn arwain at arbedion allyriadau cronol o 0.49 MtCO₂ rhwng nawr a 2040, drwy alluogi newid dulliau teithio, sy'n cynrychioli rhwng 0.6% a 2.7% o allyriadau o geir. Fodd bynnag, gwyddom fod y prif ysgogiadau ar gyfer newid dulliau teithio yn annhebygol o fod yn fuddsoddiad mewn seilwaith. Mae dadansoddiad Trafnidiaeth Cymru yn dangos bod angen gostyngiad rhwng 50% a 75% mewn teithiau ceir ardaloedd trefol, a gostyngiad rhwng 25% a 50% mewn teithiau ceir ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau gostyngiad o tua 50% mewn allyriadau CO₂ trafnidiaeth ar yr wyneb erbyn 2030, a (ochr yn ochr â galluogi buddsoddiad mewn cerbydau trydan) bod ymyriadau sy'n lleihau'r galw am le ar y ffyrdd – gan gynnwys prisio a rheoleiddio – yn allweddol i sbarduno newid mewn dulliau teithio.

Bysiau (gan gynnwys Metro)

Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
Cyflogaeth	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn golygu bod modd lleoli swyddi'n gynaliadwy.
Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau trafnidiaeth yn cefnogi'r cyfraniad y gall newid dulliau teithio ei wneud tuag at ddatgarboneiddio.
Cynhyrchiant Busnesauau	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod modd sicrhau'r manteision cynhyrchiant sy'n gysylltiedig â datblygiadau busnes newydd sy'n canolbwyntio ar ganol trefi.

- 4.7** Mae ein buddsoddiad mewn seilwaith bysiau yn cwmpasu dau faes eang: atebion Metro integredig yn y De, y Gogedd a'r Gorllewin, gan gynnwys cyflawni argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (Burns), yn ogystal â datblygu rhaglen Metro ar gyfer y Canolbarth sy'n cyd-fynd â Chynnig Gwledig Strategaeth Trafnidiaeth Cymru; a datgarboneiddio'r fflyd bysiau. Rhaid ystyried y buddsoddiadau hyn o fewn y cyd-destun bod nifer o'r ymrwymadau seilwaith yng nghomisiwn Burns yn ymwneud â seilwaith wedi'i neilltuo. Er enghraifft, mae comisiwn Burns yn cynnwys argymhellion i ad-drefnu Prif Linell y De i gynyddu capasiti a hyblygrwydd y rheilffordd rhwng Caerdydd ac Afon Hafren, a rhaglen adeiladu gorsafoedd rheilffordd newydd i ddarparu gwasanaethau cymudo lleol ar Brif Linell y De.
- 4.8** Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn seilwaith i gyflawni yn erbyn y canlyniadau a nodir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn Llwybr Newydd ac yn ein cynllun bysiau newydd, Bws Cymru, yn ogystal â'n hymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau seilwaith bysiau newydd mawr, gwaith i wneud y fflyd bysiau yn un allyriadau sero, fel y nodir yn Cymru Sero Net, datblygu'r cynlluniau ar gyfer metro yn y Gogledd a Bae Abertawe a gwneud ein system trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn fwy hygyrch a fforddiadwy i bob rhan o gymdeithas.
- 4.9** Mae dros £185m o gyllid cyfalaf ar gael drwy Gyllideb ddrafft 2022-23 dros y tair blynedd nesaf er mwyn cefnogi'r uchelgeisiau hyn. Bydd hyn yn cefnogi datblygiadau i'r seilwaith a'r fflyd – er enghraifft, gwella gorsafoedd a chanolfannau bysiau, seilwaith ffyrdd sydd ei angen i flaenoriaethu bysiau yn ogystal â systemau tocynnau gwell ac integredig mewn model tebyg i ddatgarboneiddio'r fflyd hurio preifat, yn ogystal â chyllido cynllun tebyg i brydlesu ar gyfer gweithredwyr bysiau sy'n eu galluogi i brynu cerbydau allyriadau sero gan godi'r cyfalaf cychwynnol, ac ad-dalu drwy eu hincwm referniw yn lle hynny.

4.10 Mae amcangyfrifon yn dangos y gallai cyflawni'r targed i gael bysiau allyriadau sero erbyn 2028 arwain at arbedion carbon cronol o 1.32 MtCO₂e rhwng nawr a 2040. Mae hyn yn rhagdybio mwy o filltiroedd bws yn gysylltiedig â gwell gwasanaeth a mwy o gyfran gan y sector bysiau, a fydd yn cael ei gyflawni drwy'r camau gweithredu a amlinellir yn yr adran uchod ynghylch lleihau'r galw a newid dulliau teithio.

Pennod 5. Ffyrdd

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Rhwydwaith Ffyrdd Strategol	125,000	190,000	185,000	500,000
Grantiau Diogelwch Ffyrdd	16,500	4,000	4,000	24,500
Cyfanswm	141,500	194,000	189,000	524,500

Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi i gynnal ein rhwydwaith ffyrdd strategol i fodloni rhwymedigaethau statudol a gwarchod diogelwch a bywydau
Cyflogaeth	Bydd buddsoddi yn ein rhwydwaith ffyrdd strategol yn adlewyrchu ein hierarchaeth buddsoddi mewn trafndiaeth ac yn helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth
Bioamrywiaeth	Pan fydd ein buddsoddiadau hanfodol mewn seilwaith yn cael effaith anorfod ar fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol, byddwn yn buddsoddi mewn mesurau gwrthbwysio i leihau a lliniaru'r effeithiau hynny
Bioamrywiaeth	Bydd ein buddsoddiadau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cefnogi bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau

5.1 Nod yr adolygiad ffyrdd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yw sicrhau bod ein buddsoddiadau yn y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn cyd-fynd yn llawn â chyflawni ein blaenoriaethau strategol, o'r Rhaglen Lywodraethu, Strategaeth Drafndiaeth Cymru a'r WIIS. Prif nodau ein buddsoddiadau yw parhau â'n gwaith i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dal i gynnal a gwella ein hasedau bioamrywiaeth, ond mae'n bwysig cydnabod yr angen i gynnal a gwella cyflwr ein hased mwyaf er diogelwch pobl Cymru.

5.2 Drwy gyllideb ddrafft 2022-23, rydym yn dyrannu £500m i'n rhaglenni Rhwydwaith Ffyrdd Strategol dros y tair blynedd ariannol nesaf, sy'n cynnwys cyllid i wneud gwaith a fydd yn ceisio osgoi dirywiad pellach yn y rhwydwaith. Mae'r dyraniad yn adlewyrchu oedi o ran prosiectau gwella ffyrdd a ffyrdd newydd sylweddol o fewn cwrdd yr adolygiad ffyrdd. Mae cadw llwybrau ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol yn agored ac yn ddiogel, a sicrhau eu bod yn rhedeg yn esmwyth, yn hanfodol er mwyn gwella cysylltiadau a galluogi'r twf economaidd sy'n gysylltiedig â hynny.

5.3 Yn ogystal â'r buddsoddiad cyfalaf hwn, mae ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol sy'n cael cyllid refeniw hefyd yn darparu gwerth cyfwerth â chyfalaf o tua £590m i ddeuoli rhannau 590 a 6 o'r A465.

- 5.4** Mae'r buddsoddiad hwn yn ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol hefyd wedi'i gynllunio i sicrhau bod y sector seilwaith hwn hefyd yn cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys parhau â'n "menter Coridorau Gwyrdd" - plannu coed a llwyni brodorol ar draws yr ystad feddal bresennol, ac ymgymryd â gwaith adfer y dirwedd a gwella cynefinoedd, plannu bylbiau brodorol a phlanhigion ifanc brodorol.
- 5.5** Gan adeiladu ar fentrau fel hyn, erbyn 2022-23 byddwn wedi cwblhau a chyhoeddi ein cynllun Bioamrywiaeth, gan ddangos ein gwelliant parhaus o ran rheoli ar gyfer bioamrywiaeth a'n cyfraniad at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yn gyffredinol.
- 5.6** Mae adolygu prosiectau adeiladu ffyrdd newydd a chanolbwyntio ar adnewyddu a chynnal asedau, yn ogystal â'n buddsoddiad mewn mesurau bioamrywiaeth, yn dyst i'n hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Ar ben hynny, rydym yn comisiynu gwaith i feincnodi cyfraniad carbon y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol er mwyn gosod targedau i leihau hyn, a datblygu cynllun clir i'w cyflawni.

Diogelwch ar y Ffyrdd

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi i gynnal ein rhwydwaith ffyrdd strategol i fodloni rhwymedigaethau statudol a gwarchod diogelwch a bywydau
Lles Corfforol	Byddwn yn blaenoriaethu buddsoddi mewn seilwaith teithio llesol a all sicrhau manteision iechyd sylweddol
Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau trafnidiaeth yn cefnogi'r cyfraniad y gall newid dulliau teithio ei wneud tuag at ddatgarboneiddio

- 5.7** Ochr yn ochr â'r rhaglen hanfodol i gynnal ac adnewyddu ein Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, gall buddsoddi cyfalaf hefyd chwarae rhan bwysig yn y gwaith o roi ein Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd ar waith ar draws y rhwydwaith ffyrdd a chefnffyrdd lleol. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cydnabod pwysigrwydd y mesurau hyn, ac yn ein hymrwymo i osod 20mya fel terfyn cyflymder safonol mewn ardaloedd preswyl a gwahardd parcio ar balmentydd lle bynnag y bo modd.
- 5.8** Mae £24.5m wedi'i ddyrannu drwy'r Gyllideb ddrafft dros y tair blynedd nesaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymadau hyn yn y Rhaglen Lywodraethu ynghyd â'n targedau ehangach o ran diogelwch ar y ffyrdd drwy ein rhaglenni Diogelwch ar y Ffyrdd a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn sicrhau bod cyllid ar gael i awdurdodau lleol, ac yn canolbwyntio'n arbennig ar annog mwy o blant a theuluoedd i deithio mewn modd llesol i'r ysgol, ac i wneud hynny'n ddiogel.

- 5.9** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae mentrau Strydoedd Ysgol, sy'n cynnwys cau ffyrdd mynediad yn rhan-amser i'r rhan fwyaf o draffig modur yn ogystal ag ymgymryd â gweithgareddau i hybu, gorfodi a chodi ymwybyddiaeth, yn dechrau cael eu cyflwyno ac yn cael canlyniadau cadarnhaol. Nod y rhaglen grant cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd yw lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol yng Nghymru drwy dargedu grwpiau risg uchel ac agored i niwed a galluogi mwy o bobl i fanteisio ar deithio llesol.
- 5.10** Mae'r cyllid a ddyrennir i'r maes hwn hefyd yn ariannu ein buddsoddiad mewn diogelwch ar y cefnffyrdd a hyrwyddo teithio llesol, yn ogystal â'r cynlluniau diogelwch lleol a amlinellir uchod, a'r buddsoddiad ehangach yn ein seilwaith teithio llesol a nodir yn yr ardal fuddsoddi berthnasol.
- 5.11** Yn yr un modd â buddsoddiadau eraill mewn seilwaith trafnidiaeth, rhaid asesu ceisiadau yn erbyn prif uchelgeisiau Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, yn ogystal â gofynion yr asesiadau carbon yn WeITAG. Drwy sicrhau bod ein buddsoddiadau mewn mesurau diogelwch ar y ffyrdd yn cael eu hystyried o safbwynt blaenoriaethu a galluogi teithio llesol, rydym yn cyfrannu at y gostyngiadau mewn allyriadau a nodir yn yr adran Teithio Llesol.

Pennod 6. Adfywio

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Trawsnewid Trefi	20,000	40,000	40,000	100,000
Diogelwch Tomenni Glo	23,100	11,000	10,300	44,400
Cyfanswm	43,100	51,000	50,300	144,400

Trawsnewid Canol Trefi

Gwasanaethau Allweddol	Bydd ein buddsoddiadau mewn adfywio yn gwella adeiladwaith canol trefi ac yn hyrwyddo gwasanaethau cyhoeddus hygyrch
Buddsoddi yng Nghymru	Wrth fuddsoddi'n strategol yn ein rhaglenni adfywio, byddwn yn sicrhau y gwneir hynny mewn modd sy'n ystyried Cymru gyfan.
Bioamrywiaeth	Bydd ein buddsoddiadau, gan gynnwys ein hagenda trawsnewid trefi, yn ehangu mannau gwyrdd Cymru
Cyflogaeth	Byddwn yn buddsoddi yng nghanol ein trefi i alluogi busnesau i weithio ar y cyd a gwneud y gorau o gadwyni cyflenwi lleol i helpu i greu swyddi

- 6.1** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tanlinellu ein hymrwymiad i ganol ein trefi, gyda ffocws clir ar sicrhau eu bod yn gallu dod yn fwy economaidd ystwyth yn ogystal ag ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol. Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn nodi dyraniad o £100m ar gyfer buddsoddiad tair blynedd i drawsnewid canol ein trefi.
- 6.2** Mae ein rhaglen Trawsnewid Trefi yn ceisio sicrhau bod ein buddsoddiad mewn adfywio yn cael ei flaenoriaethu mewn canol trefi, fel bod modd sicrhau hygyrchedd a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn ogystal â hybu cyfleoedd i ddatblygu busnesau a chreu swyddi. Fel hyn, gall canol trefi fod yn fannau amlwg i gymunedau.
- 6.3** Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddull creu lleoedd integredig sy'n darparu cymorth hyblyg i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn canol trefi ledled Cymru drwy fuddsoddi mewn lleoedd sy'n tanberfformio, o ran llesiant economaidd a chymdeithasol. Bydd y rhaglen, ochr yn ochr â chymorth ehangach i fusnesau, yn hanfodol i helpu gydag adferiad economaidd canol ein trefi.
- 6.4** Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £60m i awdurdodau lleol er mwyn iddynt allu rhoi benthyciadau di-log i drydydd partïon i ailddatblygu neu wella canol trefi; bydd hyn yn arwain at fuddsoddi dros £180m mewn prosiectau ledled Cymru dros y cyfnod o 15 mlynedd. Mae ein pecyn cymorth cydlynol yn cynnwys cyllid i awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill i ddatblygu uwchgynlluniau, gwella'r defnydd o dechnoleg ddigidol a gwella ymgysylltiad â

chymunedau a rhanddeiliaid er mwyn galluogi dull gweithredu mwy holistaidd sy'n rhoi gwerth ar dai, mannau cyhoeddus a gwasanaethau cymunedol, yn ogystal ag effaith economaidd.

- 6.5** Mae'r buddsoddiad yn galluogi awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yng nghanol trefi, ac yn darparu benthykiadau a chyllid grant i ailddechrau defnyddio adeiladau masnachol gwag a rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon. Mae cyllid grant ar gyfer gwneud mannau cyhoeddus yn fwy gwyrdd er mwyn gwella'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth yn rhan allweddol o'r buddsoddiad, gan wella mynediad pobl at fannau gwyrdd a gwneud trefi'n lleoedd mwy deniadol.
- 6.6** Mae'r sylw ar ganol trefi yn cyd-fynd yn uniongyrchol â pholisi "Canol Trefi yn Gyntaf" Cymru'r Dyfodol, a fydd yn dylanwadu ar leoliad gwasanaethau cyhoeddus, datblygiadau manwerthu a masnachol gan eu denu i ganol trefi, a bydd hynny'n arwain at sawl defnydd neu reswm dros ymweld â chanol trefi, gan gynnwys hamdden, gwasanaethau, byw, gweithio a phrofiad.
- 6.7** Un o flaenoriaethau Trawsnewid Trefi yw cynnig ffyrdd eraill o ddefnyddio safleoedd ac adeiladau yng nghanol trefi, gan gynnwys datblygu economi gylchol, drwy weithio gyda phartneriaid awdurdodau lleol i chwilio am gyfleoedd i gefnogi canolfannau cymunedol ac atgyweirio ac ailddefnyddio canolfannau. Bydd y pecyn buddsoddi hwn yn sicrhau bod lleoliadau addas ar gael, ac yn cynnig dyfodol mwy cynaliadwy i ganol ein trefi.
- 6.8** Nod ein buddsoddiad mewn Trawsnewid Trefi yw cyflawni'r canlynol dros y tair blynedd nesaf: 180 o brosiectau creu mannau gwyrdd yng nghanol trefi, 510 o adeiladau gwag neu adfeiliedig yn cael eu hailddefnyddio a 120 o wasanaethau newydd (er enghraifft, cyfleusterau addysg bellach, hamdden ac iechyd) yn cael eu sefydlu yng nghanol trefi.
- 6.9** Gwyddom fod 50% o'r holl garbon y mae adeilad yn ei greu drwy gydol ei oes yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnod adeiladu, felly mae ailgylchu'r adeiladau hyn drwy ein buddsoddiad adfywio ynddo'i hun yn ymyriad cadarnhaol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Bydd pob prosiect a ariennir drwy Trawsnewid Trefi yn cael ei ddylunio, ei gynllunio a'i adeiladu'n ofalus iawn i'r safonau amgylcheddol uchaf (e.e. BREEAM, sgôr EPC A ac ati), a chaiff y safonau dylunio eu hadolygu gan Gomisiwn Dylunio Cymru mewn achosion priodol. Bydd cyllid yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer prosiectau sy'n ailddatblygu ac yn adeiladu eiddo carbon isel.

Diogelwch Tomenni Glo

Lles Corfforol	Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer tomenni glo
Ansawdd Aer a Dŵr	Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith

- 6.10** Mae'r newid a ragwelir yn yr hinsawdd yn debygol o arwain at batrymau tywydd annisgwyl, gyda stormydd mwy rheolaidd a mwy dwys. Rydym eisoes wedi gweld yr effaith y gall hyn ei chael gyda llithriad y domen lo yn Tylorstown.
- 6.11** Mae angen rhaglen sylweddol o waith a buddsoddiad i gynnal eu sefydlogrwydd ac i helpu i atal rhagor o ddigwyddiadau posibl ac, wrth wneud hynny, helpu i ddiogelu seilwaith critigol, eiddo a'r amgylchedd, a chyfrannu at gymunedau iach a gwydn.
- 6.12** Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth i ddelio â'r hyn a etifeddwyd gan ganrifoedd o gloddio a sicrhau diogelwch tomenni glo; gan gryfhau pwerau awdurdodau lleol i ddiogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd. Cyn hynny, fodd bynnag, mae angen dull gweithredu dros dro, a bydd ein buddsoddiad o fwy na £44m yn sicrhau y bydd y gwaith cynnal a chadw a nodir ar draws blynyddoedd ariannol 2022-23 i 2024-25 yn gallu cael ei wneud, a byddwn yn nodi pa domenni y byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'w hadfer yn y blynyddoedd dilynol.
- 6.13** Bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu rhaglenni cynnal a chadw i ddod â thomenni y bernir bod eu risg yn uwch i gyflwr sefydlog cyn y drefn reoli statudol newydd, yn ogystal â galluogi adfer tirlithriad Tylorstown. Bydd costau cynnal a chadw parhaus dilynol a fydd yn ofynnol o dan y drefn reoli newydd honno yn dechrau yn ystod tymor y Senedd hon.
- 6.14** Prif bwrpas y buddsoddiad yw lleihau tirlithriadau posibl gan felly ddiogelu bywydau a seilwaith hanfodol. Er na fydd hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Cynllun Cyflawni Sero Net, gallai tirlithriadau pellach gael effeithiau negyddol ar y cynllun gyda rhaglenni glanhau ac ailadeiladu'n arwain at allyriadau carbon sylweddol.

Pennod 7. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Seilwaith y GIG	250,000	250,000	250,000	750,000
Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol	20,000	40,000	50,000	110,000
Seilwaith Digidol	10,000	20,000	20,000	50,000
Cyfarpar y GIG	5,000	5,000	5,000	15,000
Gofal Cymdeithasol	50,000	60,000	70,000	180,000
Cyfanswm	335,000	375,000	395,000	1,105,000

Seilwaith y GIG

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol
Incwm Aelwydydd	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol yn seilwaith sefydliadau angori lleol yn galluogi buddsoddiad o ansawdd uchel gan y sector preifat
Datgarboneiddio	Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb gynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur

- 7.1** Mae darparu canlyniadau clinigol gwell, ynghyd â mynediad a phrofiad gwell i gleifion ledled Cymru yn dibynnu ar ddarparu seilwaith ystadau sy'n addas i'r diben. Mae buddsoddi mewn cynnal a gwella'r seilwaith hwnnw'n hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau hygyrch yn cael eu darparu'n ddiogel ac mewn ffordd gynaliadwy.
- 7.2** Dyna pam, dros y tair blynedd nesaf, ein bod yn buddsoddi £750m i sicrhau bod ystad graidd y GIG yn gallu cyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth hon, gan gynnwys cefnogi ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ddarparu triniaethau sydd wedi'u gohirio yn sgil y pandemig, darparu gwell mynediad at feddygon, nyrsys, deintyddion a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, a blaenoriaethu'r buddsoddiad mewn iechyd meddwl.
- 7.3** Mae buddsoddiad cyfalaf yn ystad y GIG yn cynnwys amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys cynnal y seilwaith presennol (gan gynnwys gofynion statudol), diweddarau ac adnewyddu ein hystad a sut mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu – er enghraifft, cynyddu'r cyfleoedd i ddatgarboneiddio a sefydlu seilwaith cyfleusterau – a buddsoddi mewn seilwaith i alluogi datblygu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Mae buddsoddiadau yn y maes hwn yn cynnwys adnewyddu Ysbyty'r Tywysog Charles yn barhaus, buddsoddi mewn datblygu genomeg yn Cardiff Edge, a'n rhaglen i ddarparu cerbydau ambiwlans newydd.

7.4 Yn ogystal, mae buddsoddiad sylweddol wedi'i gynllunio drwy ein Model Buddsoddi Cydfuddiannol, drwy gyllid refeniw, yng Nghanolfan Ganser Felindre, a fydd yn golygu bod cyfanswm o tua £220m o werth cyfalaf yn cael ei ddarparu.

7.5 Mae ein Cynllun Cyflenwi Strategol ar gyfer Datgarboneiddio yn y GIG yng Nghymru yn gosod targedau lleihau allyriadau o 16% erbyn 2025 a 34% erbyn 2030 o'i gymharu â 2018-19. Dros y pedair blynedd gyntaf, y prif raglenni gwaith fydd gwneud y defnydd gorau o ynni a rheolaeth yn yr ystad bresennol, rhoi cynlluniau ar waith i symud yn effeithlon at wres carbon isel, a datblygu dulliau cynhyrchu gwres carbon isel fel rhan o raglenni adnewyddu ac amnewid.

Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol
Datgarboneiddio	Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb gynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur

7.6 Mae'r ffordd mae pobl yn cael mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol wedi dod i'r amlwg drwy gydol y pandemig. Mae galw clir am ystad gofal sylfaenol a chymunedol sy'n darparu mynediad yn nes at gartrefi pobl, ac yn lleihau'r pwysau ar leoliadau aciwt. I ymateb i hyn, mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi uchelgais glir am seilwaith gofal sylfaenol a chymunedol, ac mae'n ymrwymo i fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru, ynghyd â datblygu mwy na 50 o ganolfannau cymunedol lleol i gyd-leoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen yn ogystal â gwasanaethau eraill.

7.7 Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn darparu buddsoddiad o £110m dros dair blynedd i gefnogi'r weledigaeth hon am seilwaith integredig a hygyrch. Yn y lle cyntaf, bydd hyn yn golygu bod modd parhau i ddarparu'r canolfannau a'r hybiau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n rhan o'n "piblinell 1" bresennol, gyda chyllid wedyn yn cynyddu i ehangu'r rhaglen er mwyn cyflawni'r ymrwymadau uchelgeisiol yn y Rhaglen Lywodraethu. Byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn dysgu o'n profiadau â'r biblinell bresennol, ac yn blaenoriaethu'r angen i gynnal astudiaethau dichonoldeb ac ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau'r buddion cyd-leoli mwyaf posibl fel rhan hanfodol o'r gwaith cynnar. Mae amrywiaeth o ofynion buddsoddi yn debygol o ddatblygu, a bydd rhai ohonynt yn gofyn am fuddsoddiadau sylweddol mewn adeiladau newydd, ond byddwn hefyd yn mynd ar ôl cyfleoedd i weithio gydag eraill drwy adnewyddu ac ailwampio asedau.

- 7.8** Mae'r cynllun cyflawni strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru yn cydnabod bod ymgymryd â datblygiadau newydd a gwaith adnewyddu sylweddol yn weithgareddau sy'n defnyddio llawer o garbon. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i fabwysiadu dull achrediadau adeiladu sero net – a ddiffinnir erbyn 2022 – a fydd yn gosod y safon sero net y mae'n rhaid i'r buddsoddiadau seilwaith gydymffurfio â hi.

GIG Digidol

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol
Datgarboneiddio	Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb gynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur

- 7.9** Mae technoleg ddigidol wedi bod yn un o brif nodweddion yr ymateb i'r pandemig ac mae'n hanfodol bod seilwaith digidol effeithlon ac effeithiol yn tanategu pob gwasanaeth iechyd a gofal, sy'n golygu bod modd darparu gwasanaethau mwy gwydn, diogel a hygyrch i staff y GIG a chleifion a'r cyhoedd ynghyd â chanlyniadau iechyd gwell ledled Cymru.
- 7.10** Felly, rydym yn buddsoddi £50m dros y tair blynedd nesaf yn y Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol er mwyn cyflymu'r trawsnewidiad digidol mewn iechyd a gofal, gan gefnogi blaenoriaethau allweddol y llywodraeth hon. Mae hyn yn cynnwys cyflawni ymrwymïadau ein Rhaglen Lywodraethu i ymestyn y defnydd o dechnolegau newydd, gan gynnwys defnyddio e-bresgripsiynu ar draws GIG Cymru ac archwilio deallusrwydd artifisial i ganfod afiechydon yn gywir; gall hynny helpu i ddarparu cyngor a thriniaeth yn gyflym ac yn effeithiol.
- 7.11** Mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol yn helpu i leihau'r gwahaniaethau o ran mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Bydd gweithio o bell ac ymgynghori o bell yn sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar y gwasanaeth mwyaf priodol, yn haws. Mae tystiolaeth o'r defnydd o ymgynghoriadau fideo yn ystod y pandemig yn dangos bod y manteision yn deg, ar draws yr holl grwpiau economaidd-gymdeithasol.
- 7.12** Mae'r pandemig hefyd wedi dangos sut y gall llwyfannau darparu digidol annog hunanreoli (e.e. profion gartref) a chyflawni'n fwy effeithlon ar raddfa fawr (e.e. brechu torfol). Mae angen buddsoddi yn ein hystad iechyd yn unol â'r targedau uchelgeisiol ar gyfer lleihau allyriadau a nodir yn y cynllun cyflawni strategol ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru. Yn unol â'n Strategaeth Ddigidol i Gymru a chan adeiladu ar y manteision datgarboneiddio sy'n deillio o'r camau tuag at fwy o ymgynghoriadau o bell a chyswllt â chleifion allanol yn ystod y pandemig,

mae cyfleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth ddigidol, gan ddefnyddio llai o garbon o ganlyniad i leihau'r angen i deithio i gael ac i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd.

Cyfarpar y GIG

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol
Datgarboneiddio	Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb gynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur

7.13 Mae darparu gwasanaethau gofal iechyd gwydn a diogel yn dibynnu ar sicrhau cyfarpar modern a dibynadwy sy'n addas i'r diben – yn amrywio o beiriannau pelydr-X bach i MRI arbenigol i gyflymyddion llinellol – sy'n chwarae rhan allweddol mewn llwybrau clinigol a phrofiad cleifion, o ddiagnosis cynnar a chyflymder triniaeth drwy amseroedd sganio cynnar.

7.14 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn tanlinellu ein hymrwymiad i ddarparu gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael â'r pwysau eithriadol y mae ein gwasanaeth iechyd yn eu hwynebu i ddarparu triniaethau sydd wedi'u gohirio gan y pandemig.

7.15 Rydym yn gwneud dyraniad cyllideb penodol o £15m dros y tair blynedd nesaf i barhau i gefnogi buddsoddiad parhaus yn y llwybr canser sy'n gysylltiedig â buddsoddi mewn cyflymyddion llinellol ar draws y tair canolfan ganer yng Nghymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i sicrhau bod gan ein GIG seilwaith cyfarpar dibynadwy ac effeithlon i'w alluogi i ddelio'n effeithiol â'r galw presennol a chynyddol am driniaeth. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i brynu'r dechnoleg ddiweddaraf yn ogystal â rhoi rhaglen ar waith i brynu cyfarpar mawr newydd pan fo angen.

7.16 Bydd angen i fuddsoddiad yn yr ystad iechyd gyflawni'r ymrwymadau a'r targedau uchelgeisiol a nodir yn y cynllun cyflawni ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021, fel rhan o'i gyfraniad at yr uchelgais sero net cyfunol erbyn 2030. Yn ogystal â dadansoddiad penodol o fesurau lleihau carbon, bydd yn ofynnol i achosion busnes sy'n benodol i brosiectau, gan gynnwys y rhai ar gyfer cyfarpar cyfalaf, nodi beth fydd yr effaith ar allyriadau carbon fel rhan o'r buddsoddiad.

Gofal Cymdeithasol

Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol modern o ansawdd uchel
Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn tai a llety arloesol i fodloni anghenion gofal
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn adlewyrchu'r dull gweithredu cyfannol ar gyfer gofal iechyd meddwl a chorfforol.
Gwasanaethau Allweddol	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith cyhoeddus yn gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

7.17 Mae natur gydgysylltiedig y sectorau iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cael ei dangos yn glir drwy gydol pandemig COVID-19, a'r pwysau parhaus y mae ein GIG yn ei wynebu. Gall buddsoddi mewn seilwaith i gynorthwyo gofal cymdeithasol helpu i greu darpariaeth gofal a chymorth fodern yn y gymuned, gan gynnwys gofal preswyl a gofal seibiant i bobl agored i niwed er mwyn iddynt allu diwallu eu hanghenion iechyd a gofal mewn ffordd integredig, cyn agosod â phosibl at y cartref.

7.18 Adlewyrchir pwysigrwydd gofal sylfaenol yn ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys ein haddewid i ddiwygio gofal sylfaenol, dod â gwasanaethau meddygon teulu ynghyd gyda fferylliaeth, therapi, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, y gymuned a'r trydydd sector, yn ogystal â buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru.

7.19 I gefnogi'r uchelgais hwn, rydym yn dyrannu £180m o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf i gynorthwyo amrywiaeth o raglenni. Ar y cyd â'r maes buddsoddi mewn gofal sylfaenol a chymunedol, byddwn yn cefnogi buddsoddiad yn y canolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig newydd.

7.20 Byddwn hefyd yn buddsoddi i wella'r seilwaith gofal preswyl, ac i ailgydbwyso'r ddarpariaeth er mwyn atal gorddibyniaeth ar un sector. Bydd safleoedd preswyl wedi'u moderneiddio yn diwallu anghenion cynyddol gymhleth pobl yn eu cymunedau. Byddwn yn defnyddio cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â bylchau a nodwyd yn asesiadau anghenion a chynlluniau ardal partneriaid. Lle bo prinder darpariaeth byddwn yn cynyddu capasiti gofal preswyl.

7.21 Os oes cyfleoedd datgarboneiddio da yn codi o fewn cynlluniau – megis dulliau cynaliadwy o wella dulliau gwresogi – byddwn yn ceisio blaenoriaethu'r rhain o fewn y rhaglen.

Pennod 8. Datgarboneiddio

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Tlodi Tanwydd a Chartrefi Cynnes	30,000	35,000	35,000	100,000
Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar	15,000	25,000	25,000	65,000
Ynni'r Môr	4,000	10,000	10,000	24,000
Cyfanswm	49,000	70,000	70,000	189,000

Tlodi Tanwydd

Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Byddwn yn parhau i wneud buddsoddiadau cyfalaf strategol i liniaru tlodi tanwydd
Incwm Aelwydydd	Gall ein buddsoddiad i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd mewn perchnogaeth leol fod o gymorth i gynyddu incwm aelwydydd
Datgarboneiddio	Byddwn yn buddsoddi mewn datgarboneiddio cartrefi sy'n bodoli eisoes drwy gamau ôl-ffitio

- 8.1 Mae Tlodi Tanwydd a Chartrefi Cynnes Cymru yn adeiladu ar y rhaglen tai cymdeithasol, a fydd yn cyflwyno gwersi am y ffyrdd gorau o ddatgarboneiddio cartrefi. Bydd y rhaglen hon yn cymhwyso'r gwersi hyn i'r cartrefi nad ydynt yn dai cymdeithasol yng Nghymru, gan barhau i wella effeithlonrwydd ynni oddeutu 6000 o gartrefi y flwyddyn, fel sy'n cael ei gyflawni ar hyn o bryd drwy'r cynllun cartrefi clyd Nyth. O ganlyniad, bydd hyn yn lleihau allyriadau carbon gan helpu i gyrraedd targedau carbon sy'n gyfreithiol rwymol, a chyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i barhau i wella cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd a chreu swyddi, cyfleoedd hyfforddi a chadwyni cyflenwi.
- 8.2 Mae'r rhaglen hefyd yn hybu llesiant ehangach gan fod cartrefi sydd wedi eu hinswleiddio'n well yn gwella deilliannau addysgol plant, yn lleihau cyfraddau marwolaeth o salwch anadlol, ac yn rhoi ansawdd bywyd gwell i bobl drwy dargedu'r cartrefi sydd â'r angen mwyaf, yr adeiledd gwaethaf a'r incwm isaf, sy'n tueddu i effeithio'n anghymesur ar grwpiau difreintiedig.
- 8.3 Bwriad y buddsoddiad ynTlodi Tanwydd a Chartrefi Cynnes Cymry yw lleihau tlodi tanwydd fel nad oes unrhyw aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus; ac nad oes mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd ar unrhyw adeg. Gan hynny, mae'r gyllideb ddrafft hon wedi ymrwymo i fuddsoddi £100m dros y tair blynedd nesaf i barhau i ddarparu'r cynllun cartrefi clyd Nyth. Bydd hyn yn darparu mesurau effeithlonrwydd ynni a chyngor i gartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd gan ddefnyddio cadwyn gyflenwi leol, yn ogystal â dyfarnu a gweithredu'r contract Cartrefi Cynnes nesaf erbyn canol 2023. Mae'r costau'n cynnwys mesurau, ar draws 6000 o gartrefi y flwyddyn 2022/23, sef blwyddyn olaf Nyth a blwyddyn rhoi'r rhaglen newydd ar waith. Yn y blynyddoedd dilynol,

bydd lefel y gwariant fesul eiddo yn cynyddu, i gyfateb â lefel yr uchelgais o ran tlodi tanwydd a datgarboneiddio, wrth i'r hyn a ddysgwyd a thechnoleg ddatblygu.

- 8.4** Ar hyn o bryd mae'r cynllun Nyth yn lleihau allyriadau carbon tua 2 dunnell o CO₂ y flwyddyn ar gyfer pob cartref a gynorthwyir. Bydd yr ymdrech hon yn arwain at arbedion carbon rhagamcanol o dros 190,000 tonnall o CO₂ yn y cartrefi a gynorthwywyd dros y ddwy flynedd diwethaf yn unig dros oes yr asedau a osodwyd. Disgwylir y bydd y rhaglen fuddsoddi arfaethedig ar gyfer y dyfodol mewn tlodi tanwydd a chartrefi cynnes (tua 6000 y flwyddyn) yn sicrhau'r un gostyngiadau (os nad rhagor) o ran allyriadau carbon gan ei bod yn ceisio manteisio i'r eithaf ar arloesi mewn technoleg a chyflenwad ynni carbon is.

Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar

Datgarboneiddio	Byddwn yn buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus a lleol
Incwm Aelwydydd	Gall ein buddsoddiad i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd mewn perchnogaeth leol fod o gymorth i gynyddu incwm aelwydydd

- 8.5** Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y gronfa Ynni Lleol a Byw'n Glyfar, yn hanfodol i gyflawni ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac arloesi mewn technoleg adnewyddadwy yn y sector cyhoeddus a thrwy grwpiau cymunedol. Mae'r Gwasanaeth yn alluogwr allweddol sy'n darparu cymorth, cyngor ac arbenigedd i brosiectau ynghyd â buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau na fyddent, heb gymorth, yn ariannol hyfyw. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cymorth technegol, cymorth prosiect a chymorth ariannol i brosiectau mwy a all leihau allyriadau yn y sectorau cyhoeddus a chymunedol.
- 8.6** Mae Byw'n Glyfar, a gwaith cysylltiedig ar gyflawni'r llwybr hydrogen erbyn 2025, ar flaen y gad o ran arloesi ym maes datgarboneiddio, cyllido cysyniadau cynnar a gwaith dichonoldeb ochr yn ochr â chynlluniau peilot a gwrthdystwyr i ddangos sut gall Cymru, drwy integreiddio gwres, pŵer, trafnidiaeth a fectorau eraill, ddarparu systemau sero net sy'n gwasanaethu anghenion y boblogaeth yn well yn y mannau lle maent yn byw. Mae'n canolbwyntio ar brosiectau yn y sector cyhoeddus, gan weithio'n agos gydag awdurdodau lleol a denu cyllid arall. Yn y gorffennol, mae dros 85% o'r prosiectau cysyniadol cychwynnol wedi cael eu mabwysiadu a'u datblygu gan randdeiliaid eraill, gan ddenu dros £47m o gyllid cyhoeddus a phreifat ychwanegol.
- 8.7** Yn 2020/21, fe wnaeth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd ymrwymo buddsoddiad o £23m mewn benthyciadau di-log a arweiniodd at fuddsoddiad pellach o £20m, a disgwylir y bydd yn creu £79m o arbedion ac incwm i'r sector cyhoeddus a grwpiau cymunedol yn ystod oes yr asedau. Mae

modd sicrhau manteision effaith lluosydd sylweddol drwy leihau'r risg sydd ynghlwm wrth fabwysiadu a lledaenu dulliau a thechnolegau sydd wedi eu profi a'u sicrhau drwy Fyw'n Glyfar ar gyfer camau gweithredu sefydliadol a chyhoeddus ehangach ar gyfer sero net.

8.8 Dros y 3 blynedd nesaf mae'r gyllideb ddrafft wedi ymrwymo £65m i alluogi'r gwaith hwn i barhau, gan gyllido cymysgedd o grantiau a benthyciadau i alluogi gwaith cyfalaf gyda chyfnodau ad-dalu hirach. Disgwylir i raglen gyfredol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ddod i ben yn 2023. Bydd y rhaglen olynol, a fydd yn cael ei chaffael yn 2022, yn dysgu'r gwersi gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac yn ceisio sbarduno gostyngiadau mwy mewn allyriadau a manteision llesiant hyd yn oed yn ehangach mewn mannau ledled Cymru. Mae'r dyraniad hwn hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf yn unol ag addewid y Cytundeb Cydwethio i sefydlu cwmni adeiladu cenedlaethol i helpu cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.

8.9 Mae datblygiadau lleol a chymunedol a pherchnogaeth ar ynni yn arwain at nifer o fanteision y tu hwnt i gadw elw yn yr economi leol a lleihau allyriadau. Mae'n rhoi pobl mewn cysylltiad â thechnolegau adnewyddadwy ac yn eu normaleiddio. Mae cymryd rhan yn y prosiectau'n cynnig swyddi diogel sy'n talu'n dda, yn datblygu sgiliau ac yn darparu cydlyniant a gwydnwch cymunedol. Mae gweld pobl leol yn perchnogi ac yn elwa ar y prosiectau hyn yn cynyddu llythrennedd ynni ac yn cynyddu parodrwydd y cyhoedd i'w derbyn, a fydd yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau sero net.

8.10 Rhwng 2018 a 2021, ategodd Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru fuddsoddiad o £102m mewn effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau allyriadau isel iawn, a fydd yn arbed 432,000 tonnell o CO2 ac yn cynhyrchu £212m o incwm ac arbedion lleol. Disgwylir y bydd parhad y rhaglen bresennol a chyflwyno'r rhaglen newydd o 2023 ymlaen yn sicrhau lefelau tebyg, os nad yn rhagori arnynt, yn y dyfodol.

Ynni'r Môr

Datgarboneiddio	Byddwn yn buddsoddi mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus a lleol.
Incwm Aelwydydd	Gall ein buddsoddiad i gefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy sydd mewn perchnogaeth leol fod o gymorth i gynyddu incwm aelwydydd.

8.11 I ategu ein hymrwymiad i newid i economi ddi-garbon, rhaid inni leihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil a chynyddu trydan o ffynonellau carbon isel ac adnewyddadwy. Un o'r dylanwadau allweddol yw mynd ar drywydd arloesi mewn technolegau adnewyddadwy newydd. Yn ogystal ag ymrwymo i ddatblygu'r Her Môr-lynnoedd Llanw a chefnogi technolegau llanw newydd,

mae'r Rhaglen Lywodraethu'n tanlinellu ein huchelgais o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol.

- 8.12** Gan gydnabod ein targed i gynhyrchu 70% o'r ynni a ddefnyddir drwy ddulliau adnewyddadwy erbyn 2030, rydym yn buddsoddi £24m o gyllid cyfalaf i archwilio'r cyfleoedd i ddatblygu'r sector ynni morol drwy ein rhaglen Ynni'r Môr dros y tair blynedd nesaf. Bydd y rhaglen, sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio ynni môr a gwynt carbon isel, yn cyflymu taith Cymru tuag at sero net.
- 8.13** Bydd ein buddsoddiad parhaus yn ein galluogi i fwrw ymlaen â'r uchelgais o wneud Cymru'n arweinydd byd mewn ynni môr cynaliadwy, gan gasglu ynghyd y sector cyhoeddus, datblygwyr, buddsoddwyr, cadwyn cyflenwi a'r byd academiaidd i ddatblygu ar y cyd. Un o nodau allweddol y rhaglen yw cyflenwi cyfleuster morlyn llanw cyntaf Cymru erbyn 2035, adeg hollbwysig i ddechrau defnyddio ynni carbon isel ar raddfa fawr a chefnogi'r broses o gyflawni sero net erbyn 2050. Bydd y rhaglen hefyd yn hwyluso'r defnydd o dechnolegau ffrwd lanw yn nyfroedd Cymru.
- 8.14** Bydd cefnogaeth i uwchraddiadau allweddol i seilwaith porthladdoedd dros y tair blynedd nesaf er mwyn datgloi'r potensial enfawr ar gyfer cynhyrchu gwynt ar y môr sy'n arnofio (FLOW) yng Nghymru, gyda gweithgarwch economaidd a datblygiad cadwyni cyflenwi cysylltiedig, yn ogystal â swyddi o ansawdd uchel yn cael eu creu, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd hirdymor ac i bobl o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.
- 8.15** Bydd y gwaith o gyflawni ein Rhaglen Ynni Morol hefyd yn cael ei gefnogi gan adolygiad o'r prosesau cydsynio i helpu i symleiddio'r broses o roi caniatâd i brosiectau ynni morol a gweithio i nodi ardaloedd Adnoddau Strategol Morol erbyn 2023.
- 8.16** Mae cefnogi'r datblygiad a'r defnydd o dechnolegau cynhyrchu ynni môr carbon isel ar raddfa fawr yn gallu creu buddion sylweddol o ran carbon, gan gyfrannu'n gadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Gallai prosiect FLOW 5GW yn nyfroedd Cymru dros gyfnod o 20 mlynedd arwain at arbedion gydol oes o 153,000 miliwn tonnell o'r hyn sydd gyfwerth â charbon deuocsid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn yr un modd, gallai prosiect morlyn llanw 500MW gyda chyfnod gweithredu o 120 o flynyddoedd arwain at arbedion gydol oes o hyd at 36.8 miliwn tonnell o'r hyn sydd gyfwerth â charbon deuocsid mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Pennod 9. Natur a'r Amgylchedd

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Bioamrywiaeth	20,000	25,000	25,000	70,000
Grantiau Amgylcheddol	2,000	2,000	500	4,500
Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	5,000	5,000	5,000	15,000
Strategaeth Ddiwydiannol Coed a Choedwig Genedlaethol	9,000	23,000	25,000	57,000
Ansawdd yr Aer	5,000	2,150	300	7,450
Cyfanswm	41,000	57,150	55,800	153,950

Bioamrywiaeth

Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn.
Bioamrywiaeth	Bydd ein buddsoddiad mewn mawndiroedd yn rhoi budd o ran bioamrywiaeth a dal a storio carbon.
Bioamrywiaeth	Byddwn yn gwella mynediad i'n tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol.
Lles Meddyliol	Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y budd ehangach sydd iddynt o ran iechyd.

- 9.1** Yn ogystal â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy newid y ffordd rydym yn buddsoddi mewn seilwaith traddodiadol, mae rôl hollbwysig y gall buddsoddi mewn "seilwaith gwyrdd" ei chwarae i sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol amrywiol yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yng ngoleuni hyn, mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol, ac mae ein Cynllun Adnoddau Naturiol Cenedlaethol yn cydnabod rôl buddsoddiad strategol tymor hwy mewn seilwaith i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.
- 9.2** Bydd y £70m a ddyrennir drwy'r gyllideb Ddrafft yn buddsoddi'n uniongyrchol yn ein huchelgais i gynnal a chynyddu bioamrywiaeth ar draws ein gwlad. Bydd ein rhaglen Rhwydweithiau Natur yn gwella cyflwr, cysylltedd a gwydnwch ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig, tra hefyd yn darparu cyfleoedd i'n rhywogaethau sydd mewn perygl mwyaf ffynnu.
- 9.3** Bydd Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn parhau i gefnogi 'creu natur ar garreg eich drws', yn enwedig mewn ardaloedd heb fawr ddim mynediad i natur, gan sicrhau bod mannau gwyrdd ar gael i bobl sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, ardaloedd trefol neu gyrion trefi, neu bobl sydd heb fawr ddim mynediad at natur.

- 9.4** Drwy'r rhaglen hon rydym yn bwriadu newid arferion torri gwair, creu 2,000 o safleoedd i beillwyr a 1,000 o leoedd tyfu cymunedol, yn ogystal â chreu lleoedd ar gyfer natur mewn canolfannau trafndiaeth a lleoliadau iechyd. Mae'r rhain yn fesurau cymedrol sy'n cael effaith yn lleol ac yn ategu ein cefnogaeth i raglenni eraill sy'n canolbwyntio ar weithgareddau ar raddfa tirwedd, megis y Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant a'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy.
- 9.5** Bydd ein Rhaglen Weithredu Genedlaethol bum mlynedd ar Fawndiroedd Genedlaethol yn golygu ein bod yn ymgymryd â gweithgarwch adfer ar 600-800 hectar o fawndir diraddiedig bob blwyddyn i atal allyriadau a galluogi mawndiroedd sy'n dal ac yn storio carbon, gan ddiogelu tua 834,000 tonnall o stoc carbon. Mae mawndiroedd mewn cyflwr da yn darparu gwasanaethau ecosystem i'r perwyl mwyaf ac yn darparu'r amodau gorau ar gyfer eu bioamrywiaeth nodweddiadol.
- 9.6** Mawndiroedd yw'r storfa ddaearol fwyaf o garbon fesul uned, ac amcangyfrifir bod 7 miliwn tonnall o garbon yn cael eu storio mewn mawn dwfn ar draws ystad Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru. Bydd rhagor o fuddsoddiad yn cynnal y storfa garbon hon ac yn sicrhau bod mawndiroedd yn aros yn iach.

Grantiau Amgylcheddol

Bioamrywiaeth	Byddwn yn gwella mynediad i'n tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol
Bioamrywiaeth	Bydd ein buddsoddiadau, gan gynnwys ein hagenda trawsnewid trefi, yn ehangu mannau gwyrdd Cymru.
Lles Meddyliol	Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y budd ehangach sydd iddynt o ran iechyd.

- 9.7** Mae mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur yn un o brif nodau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac mae pandemig y coronafeirws wedi tynnu sylw at bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol i lesiant corfforol a meddyliol y genedl. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo ni i greu a gwella ein mannau gwyrdd fel bod ein hadnoddau naturiol cyfoethog yno am genedlaethau i ddod.
- 9.8** Yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23, dyrennir £4.5m o gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru i'n rhaglen grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant. Bydd grantiau'n cyllido prosiectau i ddatblygu, adfywio ac ehangu mynediad at seilwaith gwyrdd cynaliadwy. Byddant yn canolbwyntio'n glir ar wella ac adfer bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol, gan ehangu cyfleoedd cymunedol a hamdden ar yr un pryd â gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig.
- 9.9** Byddant yn cyflawni nifer o allbynnau sy'n ymwneud â'n Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys cynlluniau peilot presgripsiynu cymdeithasol, creu rhandiroedd, tyfu bwyd yn lleol a chreu mannau gwyrdd hygrych yn lleol.

- 9.10** Yn y tymor byr, bydd llawer o'r cyllid grant yn canolbwyntio ar fuddsoddi yn y gwelliannau a wneir i wydnwch ecolegol. Fodd bynnag, yn y tymor hwy, bydd amrywiaeth o fanteision yn cael eu cyflawni gan gynnwys gwelliannau mewn ansawdd aer, oeri trefol, llai o lifogydd a dal a storio carbon.

Tirwedd a Hamdden Awyr Agored

Bioamrywiaeth	Byddwn yn gwella mynediad i'n tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol.
Chwaraeon	Wrth wneud buddsoddiadau cyfalaf strategol yn ein tirweddau naturiol, byddwn yn adlewyrchu'r rôl bwysig y maent yn ei chwarae o ran galluogi hamdden.
Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn.

- 9.11** Mae'r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi lles meddyliol a chorfforol y genedl. Gall buddsoddi yn ein seilwaith Tirweddau Dynodedig a Hamdden Awyr Agored sicrhau eu bod yn cyfrannu'n llawn at argyfyngau hinsawdd a natur, yn ymateb i newidiadau yn anghenion ac ymddygiad ymwelwyr, ac yn hyrwyddo mynediad at yr awyr agored i bawb. Ar ben hynny, gall buddsoddi yn ein tirweddau dynodedig gyfrannu at ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i ehangu trefniadau i greu neu wella mannau gwyrdd yn sylweddol
- 9.12** Dyna pam mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn dyrannu £15m, dros dair blynedd, i'n rhaglen gyfalaf Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy. Mae'r rhaglen yn ymdrin ag amrywiaeth eang o feysydd, gan gynnwys datgarboneiddio, adfer natur a thwristiaeth gynaliadwy. Er enghraifft, mae'r buddsoddiadau hyd yma yn cynnwys rhaglenni seilwaith gwefru cerbydau trydan yn ein parciau cenedlaethol, datgarboneiddio ein canolfannau ymwelwyr, a phrynu tir ar gyfer dal a storio carbon ac adfer natur.
- 9.13** Yn ogystal, yn y buddsoddiad hwn byddwn yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Llwybr Arfordir Cymru, Llwybrau Cenedlaethol, rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir mynediad agored a mannau gwyrdd. Mae Llwybr Arfordir Cymru a'n Llwybrau Cenedlaethol yn darparu rhai o brif gynnyrch twristiaeth Cymru a byddwn yn parhau i sicrhau bod yr asedau cenedlaethol hyn yn cael eu cynnal a'u hyrwyddo'n ganolog. Ochr yn ochr â hyn, bydd rhagor o fuddsoddiadau yn ein rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cynnal ac yn uwchraddio ein rhwydwaith o lwybrau hamdden sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr ac sydd ar gael yn rhad ac am ddim.
- 9.14** Bydd ein Tirweddau Dynodedig yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau economi carbon sero drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Byddant hefyd yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o wneud 45% o siwrneiau drwy ddulliau cynaliadwy erbyn 2040 drwy annog defnyddio trafnidiaeth

gyhoeddus a hyrwyddo cerdded a beicio i staff, ymwelwyr a defnyddwyr gwasanaethau.

Coedwig Genedlaethol a Strategaeth Diwydiant Coed

Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi i greu a gwella coetiroedd yng Nghymru.
Ansawdd Aer a Dŵr	Byddwn yn hybu gwelliannau i ansawdd aer wrth fuddsoddi mewn coetiroedd.
Datgarboneiddio	Bydd buddsoddi mewn cyfalaf naturiol yn helpu i ddal a storio carbon
Chwaraeon	Wrth wneud buddsoddiadau cyfalaf strategol yn ein tirweddau naturiol, byddwn yn adlewyrchu eu rôl allweddol o ran galluogi hamdden.

- 9.15** Mae'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn ei gwneud yn glir ein bod yn ystyried bod seilwaith y tu hwnt i'r amgylchedd adeiledig traddodiadol yn rhan o'n buddsoddiad cyfalaf mewn asedau naturiol ac ecosystemau. Mae ein hymrwymiaid yn y Rhaglen Lywodraethu i greu Coedwig Genedlaethol yn ymestyn o'r Gogledd i'r De – yn ogystal â chynorthwyo cymunedau i greu 30 o goetiroedd newydd a chysylltu cynefinoedd, gwarchod coetiroedd hynafol a chreu strategaeth diwydiant coed – yn rhan o'n huchelgais i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan roi cyfle inni harneisio'r potensial o ran yr economi, diwylliant a hamdden.
- 9.16** Rydym eisiau plannu 43,000 hectar o goetir newydd erbyn 2030 a 180,000 hectar erbyn 2050, gan gynyddu'n sylweddol faint y carbon fydd yn cael ei ddal a'i storio. Bydd llawer o'r coed a blennir yn cyfrannu at y Goedwig Genedlaethol newydd.
- 9.17** Dros y tair blynedd nesaf, rydym yn dyrannu tua £57m i sicrhau bod coetiroedd yn cael eu creu yn unol â thargedau Llywodraeth Cymru: bydd hyn yn gofyn am blannu tua 2,500 hectar o goetir newydd yn 2022-23, gan godi i tua 5,000 yn 2025-26. Rydym yn archwilio mecanweithiau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod i ddefnyddio'r cyllid cyfalaf hwn, gan gynnwys cynnig newydd ar gyfer coetiroedd, y Grant Buddsoddi mewn Coetir, a'r Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol.
- 9.18** Ochr yn ochr â hyn, bydd ein buddsoddiad yn helpu i adfer coetiroedd sydd wedi eu niwedio gan glefyd coed, gan gynnwys y planhigfeydd hynny o goetir hynafol sy'n rhan mor hanfodol o fioamrywiaeth Cymru. Bydd hefyd yn sicrhau buddsoddiad yn y sector coedwigaeth a phren fel rhan o'r strategaeth diwydiant coed.
- 9.19** Mae buddsoddi yn ein hasedau naturiol yn gyfle unigryw i fynd i'r afael ag allyriadau sy'n cael eu creu drwy sectorau seilwaith eraill ochr yn ochr â gwelliannau mewn bioamrywiaeth a mynediad at natur. Yr unig ddull sydd ar

gael ar hyn o bryd i gloi carbon atmosfferig yw drwy i ffotosynthesis ddigwydd mewn planhigion.

Ansawdd yr Aer

Ansawdd Aer a Dŵr	Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith.
--------------------------	---

- 9.20** Mae iechyd pobl Cymru yn dibynnu ar ansawdd yr amgylchedd rydym yn byw ynddo, gydag aer o ansawdd gwael yn risg sylweddol i iechyd pobl . Mae gennym ardaloedd lle mae ansawdd yr aer ymhlith y gorau yn y Deyrnas Unedig – fodd bynnag, mae’n hanfodol bod pawb yng Nghymru yn gallu mwynhau manteision aer glân.
- 9.21** Mae llygryddion nid yn unig yn arwain at ganlyniadau negyddol i iechyd ein poblogaeth, ond maent hefyd yn gallu cael eu cludo drwy'r awyr i dir a chyrrff dŵr. Gall hyn, yn ei dro, olygu eu bod yn cael effaith negyddol ar blanhigion ac anifeiliaid neu’n achosi newidiadau i gynefinoedd tir a dŵr, sy’n cael effaith niweidiol ar ein bioamrywiaeth gyfoethog.
- 9.22** Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo ni i ddatblygu ein huchelgeisiau a nodir yn y cynllun Aer Glân drwy gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru ac ymestyn y ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. Er y bydd elfennau sylweddol o'r cynllun hwn yn cael eu cyflawni drwy ddefnyddio dulliau rheoleiddio ehangach, mae gan fuddsoddiad cyfalaf rôl allweddol i'w chwarae hefyd.
- 9.23** Bydd y dyraniad o £7.45m a nodir yn y Gyllideb Ddrafft yn fodd inni gwblhau'r gwaith hanfodol i liniaru nitrogen deuocsid (NO_2) yng Nghaerffili a Chaerdydd. O ran y naill, bydd yn caniatáu i Gyngor Caerffili gwblhau gwaith peiranyddol ar ôl i'r tai yn Woodside Terrace gael eu dymchwel er mwyn lleihau allyriadau cerbydau a lleihau crynodiadau ar ochr y ffordd. O ran y llall, bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi cynlluniau seilwaith ffyrdd yng nghanol y ddinas, gan leihau mynediad cyffredinol i gerbydau a chefnogi teithio llesol a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd y ddau gynllun yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gwerth terfyn cymedrig blyneddol o $40\mu\text{g}/\text{m}^3$, ar gyfer NO_2 a bydd hefyd yn sicrhau gostyngiad yng nghysylltiad y cyhoedd â deunydd gronynnol ($\text{PM}_{2.5}$).
- 9.24** Ar ben hynny, bydd yn ein galluogi i sefydlu'r gwasanaeth monitro, modelu ac asesu ansawdd aer newydd drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, a fydd yn ein galluogi i ganfod a mynd i'r afael ag effeithiau llygredd ar aelodau agored i niwed ein cymunedau, sy’n teimlo'r effaith fwyaf.
- 9.25** Mae llygredd aer yn aml yn tarddu o'r un ffynonellau â nwyon tŷ gwydr, sy’n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad, gall camau a gymerir i leihau llygredd aer hefyd fynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr lle mae cyd-

fanteision yn bodoli, a buddsoddiad mewn gwaith sy'n galluogi newid dulliau teithio i deithio llesol yn cyfrannu at y gostyngiadau carbon posibl a nodir yn yr adran Teithio Llesol.

Pennod 10. Datblygu Economaidd

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Cymorth i fusnesau	27,500	24,000	19,000	70,500
Seilwaith Digidol	15,000	-26,500	20,000	8,500
Cymorth Busnes – Cymoedd Technoleg	5,000	5,000	5,000	15,000
Sector Eiddo	10,000	10,000	10,000	30,000
Datblygu Seilwaith Strategol	12,212	18,328	6,783	37,323
Gwyddoniaeth ac Arloesi	10,000	10,000	15,000	35,000
Economi Gylchol	40,000	60,000	60,000	160,000
<i>Cyfanswm</i>	<i>119,712</i>	<i>100,828</i>	<i>135,783</i>	<i>356,323</i>

Cymorth Buses

Cyflogaeth	Byddwn yn cryfhau ein cymorth cyfalaf strategol i fusnesau er mwyn sicrhau bod swyddi a bywoliaethau yn cael eu creu a'u diogelu.
Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net.
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Byddwn yn helpu busnesau i sicrhau'r diogelwch, y sefydlogrwydd a'r cyfleoedd y gall gwaith teilwng a theg eu darparu.
Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn parhau i gefnogi busnesau preifat i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi economi ddiwastraff
Incwm Aelwydydd	Byddwn yn defnyddio ein cymorth cyfalaf uniongyrchol i fusnesau yng Nghymru i wella incwm aelwydydd

10.1 Cafodd ein Cronfa Dyfodol yr Economi ei lansio ym mis Mai 2018. Wedi'i ffurfio drwy gyfuno nifer o gynlluniau presennol mewn un gronfa, mae'n dal yn hanfodol o ran cefnogi busnesau ar hyd a lled Cymru. Mae'n darparu buddsoddiadau amrywiol i helpu i greu swyddi drwy gyllid penodol i sectorau a chyllid ad-daladwy i fusnesau bach a chanolig. Ers lansio'r gronfa, mae dros 400 cynnig o gymorth wedi cael eu derbyn, gwerth dros £115m.

10.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i gryfhau ein Contract Economaidd – ar y sail hon yr ydym yn darparu cyllid cyfalaf drwy Gronfa Dyfodol yr Economi – ac mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn darparu £70.5m o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf er mwyn inni barhau i ariannu busnesau ar hyd a lled Cymru. Bydd y Gronfa'n hwyluso buddsoddiadau busnes wedi'u targedu mewn meysydd blaenoriaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar greu economi fwy teg, gwyrdd a chynaliadwy i Gymru. Un o'r ffactorau cyfrannol pwysicaf yn hyn o beth fydd defnyddio technolegau digidol ac rydym wedi

ymrwymo i greu amgylchedd a fydd yn caniatáu i dechnoleg, a busnesau sy'n defnyddio technoleg, ffynnu.

10.3 Er mai prif fwriad y gronfa yw sicrhau buddion ariannol, mae'n rhan annatod o'n Contract Economaidd. Mae hwn yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i fuddsoddiadau alluogi cyflogaeth deg o ansawdd uchel, gan ganiatáu i bobl gael incwm teg heb gamfanteisio neu dlodi. Mae'r contract hefyd yn herio busnesau i wneud mwy i gyfrannu at ein blaenoriaethau strategol, gan gynnwys newid i economi carbon isel sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd.

10.4 Drwy'r contract newydd rydym yn sbarduno ymddygiadau ychwanegol mewn ymddygiad drwy gyflwyno addewidion datblygu. Rydym yn gofyn i bob busnesau sy'n gweithio gyda ni wneud rhwng tair a phum addewid i wneud pethau'n wahanol, neu i adeiladu ymhellach ac yn gyflymach ar ymrwymïadau presennol. Felly, byddwn yn trafod cadernid amgylcheddol a charbon isel gyda 100% o sefydliadau a'n huchelgais yw y bydd o leiaf 50% o gontractau economaidd yn cynnwys o leiaf un addewid i leihau allyriadau neu i allu dygymod yn well â'r newid yn yr hinsawdd.

Seilwaith Digidol

Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy mewn rhannau o Gymru nad yw'r farchnad yn darparu ar eu cyfer
Cynhyrchiant Busnesauau	Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol mewn cymunedau ledled Cymru i alluogi busnesau i elwa ar gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol yn sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol yn y sefyllfa orau i reoli'r newid technolegol parhaus.

10.5 Mae'r cynnydd sydyn mewn gweithio a dysgu gartref o ganlyniad i'r ymateb i COVID-19 wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cysylltedd digidol cyflym a dibynadwy. Mae ein huchelgais ehangach, sef bod 30% o'r boblogaeth yn parhau i weithio gartref neu'n agos i'w cartref, yn dibynnu ar argaeledd eang seilwaith digidol sy'n addas i'r diben. Dyna pam mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i gyflawni'r Strategaeth Ddigidol i Gymru ac i uwchraddio ein seilwaith digidol a chyfathrebu.

10.6 Mae elfennau o fuddsoddi mewn seilwaith digidol wedi'u cadw ar gyfer Llywodraeth y DU – er enghraifft y fenter £5bn "Prosiect Gigabit", sydd wedi'i chynllunio i ddarparu cysylltedd o ansawdd uchel i'r cymunedau hynny na fydd y farchnad ar ei phen ei hun yn darparu ar eu cyfer. Er mai Llywodraeth y DU fydd yn darparu'r cyllid cyfalaf, ni fydd yn arwain y gwaith cyflawni – caffael,

rheoli'r prosiect, rheoli contractau, yn ogystal â gweithio i sicrhau cyfran gynrychioladol o'r rhaglen i Gymru, gan nodi'r heriau anghymesur mae cymunedau anghysbell a thopograffi yn eu creu.

10.7 Ond yn y meysydd hynny lle mae gennym ddiddordeb polisi uniongyrchol, byddwn yn buddsoddi cyllid cyfalaf net o £8.5m dros y tair blynedd nesaf i wella ac ehangu cysylltedd digidol. Mae hyn yn cynnwys parhau i fuddsodi yn ein Cronfa Band Eang Lleol – sy'n darparu cyllid i helpu awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i gyflawni prosiectau band eang lleol, ac Allwedd Band Eang Cymru, sy'n darparu grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd i gartrefi a busnesau yng Nghymru nad ydynt yn gymwys am gymorth gigabit. Mae ymyriadau eraill yn cynnwys buddsoddi yn Rhwydwaith Ffyrdd Strategol De Cymru, lle bydd 150km o bibelli a ffeibr seilwaith cefnffyrdd yn cael ei alluogi erbyn 2025, yn ogystal â rheoli ein Rhwydwaith Fibrespeed – rhwydwaith ffeibr perfformiad uchel sy'n cysylltu'r Gogledd â'r economi ddigidol fyd-eang.

10.8 Drwy gefnogi gweithio o bell a sicrhau bod gan gartrefi a busnesau ledled Cymru fynediad at seilwaith digidol cyflym a dibynadwy, gall ein buddsoddiadau leihau'r angen i deithio. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o ofynion ynni cynyddol y seilwaith digidol sy'n pweru ein cysylltedd digidol a'r gwasanaethau digidol yr ydym i gyd yn eu defnyddio. O ran cyflenwi'r seilwaith ei hun, bydd gofyn i'r contractwyr ar gyfer rhaglenni mawr – er enghraifft Prosiect Gigabit – ystyried eu hallyriadau cwmplas 1 a 2 (adeiladau, pŵer, ynni, trafnidiaeth) fan leiaf. Mae angen gwneud gwaith ychwanegol mewn cysylltiad ag allyriadau cwmplas 3 (cyflenwad) a byddwn yn gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn hyn o beth.

Y Cymoedd Technoleg

Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net
Cynhyrchiant Busnesau	Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau
Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith digidol i ddarparu band eang cyflym a dibynadwy mewn rhannau o Gymru nad yw'r farchnad yn darparu ar eu cyfer
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein buddsoddiadau cyfalaf strategol yn sicrhau'r diogelwch, y sefydlogrwydd a'r cyfleoedd y gall gwaith teilwng a theg eu darparu

10.9 Mae'r Cymoedd Technoleg yn rhaglen gwella seilwaith sylweddol i gefnogi swyddi cynaliadwy, uchel eu gwerth, i ddenu buddsoddiad ac i greu cyfleoedd i ranbarth cyfan Cymoedd De Cymru. Mae'r gwaith hyd yma wedi sicrhau 270,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr newydd ac wedi'i adnewyddu i fusnesau masnachol, newydd a diwydiannol, yn ogystal ag arddangoswr ar raddfa fawr, sy'n gweithio gyda'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y

Cyfryngau a Chwaraeon, i gyflwyno rhwydwaith 5G masnachol, cynaliadwy. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar greu amgylchedd deniadol i gwmnïau technoleg leoli a datblygu, gan gynnwys drwy fuddsoddi mewn adeiladau a pharatoi tir i bontio'r bwlch hyfywedd, a chreu gofod newydd i entrepreneuriaid a busnesau newydd.

10.10 Amcangyfrifir bod y rhaglen eisoes wedi helpu i hwyluso dros 600 o swyddi cynaliadwy drwy ei gwneud hi'n bosibl gwneud defnydd economaidd o hen dir a gweithio gyda chwmnïau sy'n bodoli eisoes i helpu i wella cynhyrchiant a sgiliau, a thyfu cynhyrchiad presennol. Mae'r rhaglen yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau'r llywodraeth hon, gan gynnwys ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd a diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

10.11 Mae Cyllideb ddrafft 2022/23 yn amlinellu dyraniad o £15m dros y tair blynedd nesaf i barhau â'r buddsoddiad drwy raglen y Cymoedd Technoleg. Yn ogystal â buddsoddi ym mhrosiect 5G Cysylltu Cymunedau Gwledig, bydd y rhaglen yn cefnogi canolfan fyd-eang Thales ar gyfer technoleg weithredol (y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol gynt), canolfan ragoriaeth seiberddiogelwch sy'n canolbwyntio ar drawsnewid digidol mewn technoleg weithredol sydd wedi recriwtio 90% o'i gweithlu o ranbarth de Cymru, ac wedi ymgysylltu â dros 80 o gyflenwyr lleol. Mae'r prosiect yn cynnwys cyfleoedd prentisiaeth a gwaith maes addysgol gwerthfawr, gwaith ymchwil seiber a thrawsnewid technoleg ddigidol, yn ogystal â chydweithio gyda busnesau bach a chanolig, a phrosiectau cwsmeriaid eraill.

10.12 Mae ResilientWorks, canolfan ar gyfer datblygu systemau cadarn ym meysydd trafnidiaeth ac ynni, yn brosiect mawr arall sy'n rhan o'r rhaglen. Bydd y cyfleuster yn gymhwysedd unigryw i ddiwydiant y DU, gan gasglu ynghyd seilwaith cenedlaethol hollbwysig, cerbydau awtonomaidd a systemau pŵer mewn gwaith profi ac ymchwil integredig. Mae'r buddsoddiad hwn yn cefnogi'r newid i economi carbon isel yn uniongyrchol ac yn dod â Chymru'n agosach at gyrraedd y targed sero net ar gyfer 2050.

Y Sector Eiddo

Cyflogaeth	Bydd ein buddsoddiadau strategol yn y sector eiddo masnachol yn ceisio mynd i'r afael â chyflenwad cyfyngedig, gan fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddenu a chadw buddsoddiad.
Cynhyrchiant Busnesau	Bydd buddsoddi mewn seilwaith eiddo masnachol sydd wedi'i leoli'n briodol yn galluogi twf yng nghynhyrchiant busnesau.
Buddsoddi yng Nghymru	Bydd ein buddsoddiadau eiddo masnachol yn hyrwyddo'r manteision i gymunedau o ganolbwyntio ar ganol trefi.

10.13 Mae'n hollbwysig buddsoddi mewn safleoedd ac eiddo modern i ganiatáu i fusnesau ehangu a thyfu. Gallwn chwarae rôl hanfodol yn sicrhau bod eiddo o safon uchel, sy'n ynni effeithlon, ar gael i fusnesau cynhenid a

mewnfuddsoddwyr. Rydym yn cydnabod y gallai prinder eiddo masnachol modern, priodol gyfyngu ar gyfleoedd busnes ac yn ei dro, lleihau cyfleoedd cyflogaeth ledled Cymru. Gwyddwn fod buddsoddi mewn seilwaith eiddo modern yn rhoi cyfle i fusnesau presennol wella cynhyrchiant, a fydd yn hollbwysig wrth inni adfer o'r pandemig sydd wedi effeithio i'r fath raddau ar fusnesau tr hyd a lled y wlad.

10.14 Bydd dyrannu £30m ar draws y cyfnod 2022-23 i 2024-25 yn ein galluogi i barhau i fuddsoddi mewn eiddo masnachol, lle mae tystiolaeth o ddiffyg yn y farchnad. Bydd yn ein galluogi i ddenu a chadw buddsoddiad na fyddai'n dod i Gymru na'n cael ei ailfuddsoddi yng Nghymru fel arall, gan ddylanwadu ar benderfyniadau masnachol ar yr un pryd er mwyn cyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach. Ar y cyd â'r sector preifat, byddwn yn anelu at sicrhau 150,000 troedfedd sgwâr o arwynebedd llawr masnachol newydd bob blwyddyn, yn unol â'r Cynllun Cyflawni Eiddo.

10.15 Nod buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn eiddo masnachol, sydd wedi'i ddylunio'n bennaf i gyflawni polisi economaidd, yw sicrhau bod darpariaeth ar gael yn unol ag ystyriaethau polisi ehangach, gan gynnwys dull gweithredu Canol Trefi yn Gyntaf. Mae capasiti gweithleoedd uwch mewn, er enghraifft, trefi marchnad ac aneddiadau llai yn sbardun pwysig ar gyfer creu a diogelu bywiogrwydd cymunedau lleol.

10.16 Bydd holl brosiectau masnachol adeiladu uniongyrchol Llywodraeth Cymru sy'n cael eu cyflawni fel rhan o'i Chynllun Cyflawni ar gyfer Eiddo yn anelu at gyrraedd y safon carbon sero net mewn defnydd. Bydd rhaid i'r holl brosiectau sy'n cael arian gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun gydymffurfio â Pholisi Adeiladau Cynaliadwy'r Llywodraeth. Gan dybio bod adeiladau o dan y Polisi Adeiladau Cynaliadwy yn gweld gwelliant o 10% a bod y rhai sy'n cael eu hadeiladu i gyflawni carbon sero net yn cynhyrchu allyriadau sero wrth weithredu, asesir y byddai'r allyriadau carbon yn sgil y Cynllun Cyflawni Eiddo dros gyfnod y gyllideb tua 300 tCO2 y flwyddyn.

Datblygu Seilwaith Strategol

Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi rhwydwaith sefydlog a chydlynol o wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.
Cyflogaeth	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn gwella mynediad at gyfleoedd swyddi ac yn golygu bod modd lleoli swyddi'n gynaliadwy.
Cynhyrchiant Busnesau	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod modd sicrhau manteision cynhyrchiant yn sgil rhoi pwyslais ar ddatblygu busnesau newydd yng nghanol trefi.

10.17 Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn datblygu seilwaith strategol yn canolbwyntio ar gyflawni prosiectau cyfalaf mawr drwy bartneriaethau a

thrafodiadau masnachol, gan ddefnyddio cyllid gan ffynonellau trydydd parti yn aml, fel Bargen Ddinesig Caerdydd, Llywodraeth y DU a'r sector preifat.

10.18 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys cyfres o ymrwymïadau i fuddsoddi yn y prosiectau cyfalaf mawr hyn, gan gynnwys datblygu'r Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd yng Nghwm Dulais, buddsoddi mewn gwasanaethau bysiau a chyflawni prosiectau seilwaith bysiau mawr newydd, a bwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer metro yn ne Cymru a Bae Abertawe.

10.19 Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn ymrwymo £37m dros y tair blynedd nesaf i ategu'r prosiectau hyn, ac i ddefnyddio cyllid allanol. Yn benodol, bydd cyfran y cyllid yn 2022-23 a 2023-24 – ynghyd â gwariant y blynyddoedd blaenorol - ar gyfer y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-Eang ar gyfer Rheilffyrdd yn galluogi buddsoddiadau preifat mewn datblygu technoleg rheilffyrdd newydd a fydd yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu technolegau pŵer i ddisodli disel a gwella effeithlonrwydd yn injan drydan.

10.20 Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer rhaglen Achub ac Adfer Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd, yn dilyn yr effaith sylweddol y mae'r pandemig wedi'i chael ar weithgareddau'r Maes Awyr. Bydd hyn yn cynnal swyddi ac yn sicrhau rhwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau trafnidiaeth yng Nghymru.

10.21 Bydd cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiad yng Ngorsaf Parcfordd Caerdydd, cyswllt metro i Fae Caerdydd ac uwchraddio Gorsaf Caerdydd Canolog, yn ogystal â buddsoddiad cyfalaf ym Mhorth Wrecsam a Phorth y Gogledd yng Nglannau Dyfrdwy. Nod yr ymyriadau trafnidiaeth hyn yw gwella ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus a'r mynediad ati, a chefnogi'r nod o newid dulliau teithio o geir preifat, a fydd yn hanfodol er mwyn cyrraedd targedau lleihau carbon.

Gwyddoniaeth ac Arloesi

Cynhyrchiant Busnesau	Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau.
Cynhyrchiant Busnesau	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac i osgoi gwastraff diangen.
Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiad mewn busnesau yng Nghymru yn cefnogi'r newid i economi carbon sero net.
Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi economi ddiwasttraff.

- 10.22** Mae parhau i dyfu economi sy'n seiliedig ar wybodaeth ar sail buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu, yn ogystal ag arloesi, yn un o ysgogwyr cydnabyddedig cynhyrchiant, ac mae'n helpu i greu swyddi o ansawdd a thwf cynaliadwy. Gan adeiladu ar yr ymchwil a'r arloesi gwyddonol rhyfeddol a welwyd yn ystod pandemig y coronafeirws, rhaid inni barhau i fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf i gynyddu capasiti a galluogrwydd, a fydd yn ysgogi gwell effeithlonrwydd, defnydd llai o ynni, y defnydd o ddeunyddiau cynaliadwy, llai o wastraff, ac yn arwain at fabwysiadu egwyddorion economi gylchol.
- 10.23** Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i fwrw ymlaen â'n Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi, i gyflawni ein rhaglen y Cymoedd Technoleg 10 mlynedd, ac i helpu meysydd allweddol o'n heconomi i arloesi, i dyfu ac i leihau eu hól troed carbon.
- 10.24** Mae'r gyllideb ddrafft hon yn ymrwymo £20m dros y tair blynedd nesaf ar gyfer ein rhaglen ymchwil ac arloesi er mwyn cefnogi meysydd technoleg newydd, gan gynnwys technoleg ynni adnewyddadwy fel ynni llanw a thechnolegau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, yn ogystal â heriau cymdeithasol eraill sy'n ein hwynebu, fel pandemig COVID-20. Mae ein buddsoddiad wedi'i gynllunio i sicrhau bod busnesau Cymru'n gallu denu cydfuddsoddiad sylweddol o'r cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n weddill, ond, yn bwysicach, i helpu i ddatblygu cynigion o ansawdd i'w cyflwyno i gystadlaethau cyllid y DU a'r UE. Byddwn yn buddsoddi mewn prosiectau trosglwyddo gwybodaeth ac yn cefnogi rhagor o arloesi wrth ddarparu gwasanaethau'r sector cyhoeddus drwy brosesau caffael sydd wedi'u harwain gan her.
- 10.25** Mae ein buddsoddiad o £15m dros dair blynedd yn rhaglen Sêr Cymru II – gan gynnwys y Sefydliad Sêr Cymru newydd – yn cefnogi ymchwil gwyddonol parhaus yn ein Sefydliadau Addysg Uwch a'r sector preifat, gan gyfrannu at wella perfformiad gwyddoniaeth ac ymchwil Cymru. Mae hyn yn adeiladu ar y rhaglen bresennol, sy'n tynnu ymhell dros £3 o fuddsoddiad ychwanegol i Gymru am bob £1 o gyllid.
- 10.26** Er mwyn bodloni uchelgeisiau Sero Net Cymru, mae angen i Weinidogion Cymru gael gafael ar y dystiolaeth orau, fel y gallant ddeall maint a chymhlethdod y problemau a'r cyfle i gael atebion polisi technolegol ac ymddygiadol, er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae deall y wyddoniaeth yn parhau i fod yn gam cyntaf hanfodol i lywio opsiynau polisi y gellir eu cyflawni a fydd yn gwneud gwahaniaeth yng Nghymru ac yn y Byd ehangach. Mae'r angen am system wyddoniaeth gydlynol ac arloesi ehangach sy'n cynnwys datblygu technegau, cynhyrchion a gwasanaethau newydd i ddarparu Cymru carbon isel i ddim wedi'i hymgorffori drwy gydol ein strategaeth Sero Net a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Bydd asesiadau o brosiectau yn y dyfodol yn cynnwys ystyriaeth fanylach o'r effaith ar yr

amgylchedd ac rydym yn gweithio i ddatblygu adnoddau i asesu effaith carbon prosiectau yn well.

- 10.27** Un o amodau cyllid Sêr Cymru yw y byddai effaith carbon unrhyw weithgaredd newydd yn cael ei chyfrif neu ei lliniaru drwy ôl troed cyffredinol y sefydliad.

Economi Gylchol

Ansawdd Aer a Dŵr	Bydd ein buddsoddiadau yn yr economi gylchol yn sbarduno gwelliannau o ran ansawdd aer a datgarboneiddio.
Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn cynorthwyo busnesau preifat i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi economi ddiwasttraff.
Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith atgyweirio ac ailddefnyddio i hyrwyddo egwyddorion economi gylchol.
Gwasanaethau Allweddol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith cymunedol sy'n helpu dinasyddion i leihau gwastraff.

- 10.28** Gan fod 45% o'n hallyriadau defnydd yn deillio o'r nwyddau a'r cynhyrchion a ddefnyddiwn bob dydd, mae trosglwyddo i Economi Gylchol – lle rydym parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd ac yn osgoi pob gwastraff – yn rhan greiddiol o'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a chyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i 'Adeiladu economi gryfach a gwyrddach wrth inni ddatgarboneiddio cymaint â phosibl'.

- 10.29** Mae camau gweithredu penodol yn cynnwys cyflwyno cynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr (EPR) i gymell gwell dyluniad a lleihau gwastraff deunyddiau allweddol megis pecynnu a chefnogi ailgylchu cymunedol ac 80 o ganolfannau ailddefnyddio ac atgyweirio yng nghanol trefi er mwyn sicrhau bod deunyddiau'n parhau i gael eu defnyddio o fewn ein cymunedau, annog rhagor o bobl i ddod yn ôl i ganol ein trefi, ac adeiladu ar ein llwyddiant ailgylchu. Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn nodi ein buddsoddiad arfaethedig o £160m dros y tair blynedd nesaf i gyflawni yn erbyn yr uchelgeisiau hyn.

- 10.30** Mae sicrhau bod y seilwaith yn cael ei ddatblygu ym mhob rhanbarth yng Nghymru i gefnogi'r newid i Gymru gylchol, ddi-garbon yn hanfodol i ddatgarboneiddio a gallu Cymru i fod yn gystadleuol mewn economi fyd-eang ddatgarboneiddio. Mae ein Cronfa Economi Gylchol eisoes wedi cefnogi dros 180 o brosiectau ledled Cymru mewn cymunedau, ac yn ein cyrff cyhoeddus.

- 10.31** Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau cyfraddau ailgylchu o 70% erbyn 2025, byddwn yn parhau i ariannu prosiectau cysylltiedig i helpu awdurdodau lleol i gyflawni'r nodau hyn, yn ogystal â chyflawni rhaglenni newid ymddygiad drwy'r fenter 'Bydd Wych.

- 10.32** Byddwn yn buddsoddi i gefnogi 80 o ganolfannau atgyweirio ac ailddefnyddio, ac yn datblygu cyfleusterau ailgylchu cymunedol, gan adeiladu ar waith peilot

cychwynnol pwysig i ddatblygu mannau yn ein cymunedau a chanol ein trefi lle gall pobl ddod ynghyd a gwneud mwy nag ailgylchu, er mwyn cymell rhagor o atgyweirio, ailddefnyddio ac ailweithgynhyrchu deunyddiau

10.33 Bydd y buddsoddiad hwn hefyd yn helpu i roi rhaglen ar waith i ddatgarboneiddio seilwaith gwastraff ac ailgylchu, gan gynnwys cyflwyno rhaglen cerbydau allyriadau isel iawn i ddatgarboneiddio'r fflyd cerbydau. Byddwn hefyd yn buddsoddi mewn seilwaith rhanbarthol i newid i economi gylchol, gan ganolbwyntio ar eco-barciau ac ar fuddsoddi mewn safleoedd mewn modd rhanbarthol strategol.

10.34 Bydd ein rhaglen fuddsoddi'n cyflawni cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr i gymell busnesau i leihau gwastraff. Disgwylir y bydd hyn yn trosglwyddo costau o tua £72m o'r sector cyhoeddus i'r sector preifat, a chymell newidiadau mawr.

10.35 Drwy'r Gronfa Economi Gylchol rydym hefyd wedi ariannu busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd newydd y gall trosglwyddo i economi gylchol eu cynnig, megis defnyddio cynnwys wedi'i ailgylchu mewn gweithgynhyrchu. Fel yr adlewyrchir yn Cymru Sero Net, mae camau allweddol ar effeithlonrwydd adnoddau wedi'u cynnwys ym mhob sector allweddol ac adlewyrchir y dull economi gylchol fel gweithgaredd galluogi allweddol. Gwyddwn hefyd y bydd sefydlu rhwydwaith her dim gwastraff o sefydliadau sy'n seiliedig ar leoedd yn helpu i gefnogi'r newid diwylliannol angenrheidiol mewn busnesau a chymunedau.

10.36 Gan fod y gwaith ailgylchu gan awdurdodau lleol bellach yn arbed mwy na 400,000 o dunelli o allyriadau Co2 y flwyddyn, mae ein trefniadau ailgylchu o'r radd flaenaf hefyd yn rhoi cyfle inni sicrhau lefelau uwch o werth ychwanegol economaidd o'r deunydd a gasglwn.

Banc Datblygu Cymru

Cyflogaeth	Drwy ein buddsoddiadau a wneir drwy Fanc Datblygu Cymru, byddwn yn sicrhau bod ein cymorth i fusnesau yn gwireddu gweledigaeth y Llywodraeth o economi werdd a chynhwysol yn glir.
Cynhyrchiant Busnesau	Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau.

10.37 Sefydlwyd Banc Datblygu Cymru gan Lywodraeth Cymru i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau gael y cyllid sydd ei angen arnynt i ddechrau, i gryfhau ac i dyfu. Mae ein hymrwymiad i amcanion y Banc Datblygu yn cael ei egluro yn ein haddewid yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu'r defnydd o gyfalaf tymor estynedig i fusnesau drwy ddyled a chyfran ecwiti.

- 10.38** Dros y cyfnod pum mlynedd nesaf, drwy ddarparu cyllid i fusnesau, yn ogystal â buddsoddi yn y sector eiddo gan gynnwys darparu Cymorth i Brynu Cymru, mae gan y Banc Datblygu uchelgais i greu effaith o £1.2bn ar economi Cymru, gyda'r nod o gefnogi dros 2,200 o fusnesau a chreu a diogelu mwy nag 20,000 o swyddi.
- 10.39** Dros y cyfnod hwn, mae gan y Banc uchelgais i fuddsoddi dros £350m mewn dyled ac ecwiti yn uniongyrchol i gefnogi anghenion busnesau, o ficro-fuddsoddi hyd at gynllunio olyniaeth. Bydd ystod a graddfa'r cymorth a gynigir gan ei gronfa gonglfaen, Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru, yn sicrhau mynediad parhaus at gyllid i fusnesau ar draws Cymru ymhell i'r tymor hir.
- 10.40** Yn ogystal, bydd Banc Datblygu Cymru yn buddsoddi tua £290m yn uniongyrchol i fusnesau bach a chanolig sy'n ddarparwyr tai i ddarparu dros 2100 o gartrefi newydd yng Nghymru. Bydd y Banc yn defnyddio'r cyfle hwn i gyflwyno strwythurau ariannu arloesol i helpu i sbarduno datblygwyr wrth iddynt bontio i adeiladu cartrefi gwyrdd.
- 10.41** Fel y nodir yn ei addewid sero net, mae'r Banc wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni uchelgeisiau datgarboneiddio a newid hinsawdd Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda'i bortffolio presennol yn ogystal â chefnogi cwsmeriaid newydd i ganolbwyntio ar eu rhinweddau amgylcheddol, cynhyrchu ymchwil i gefnogi polisi ac arwain drwy esiampl wrth gyflawni ei gynllun lleihau carbon ei hun.

Pennod 11. Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth	20,000	29,000	32,000	81,000
Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth – Cadw	10,000	10,000	10,000	30,000
Cymru Greadigol	5,000	5,000	5,000	15,000
Chwaraeon	8,000	8,000	8,000	24,000
Twristiaeth	5,000	5,000	5,000	15,000
Cyfanswm	48,000	57,000	60,000	165,000

Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol yn y sector diwylliant yn darparu'r cyfleusterau o ansawdd uchel a'r mynediad sydd eu hangen i barhau i ddarparu cynnig diwylliannol unigryw Cymru.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau yn ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn gwneud y gorau o'u rôl o ran cefnogi'r diwydiant twristiaeth yn ein cymunedau.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith digidol yn sicrhau bod ein sefydliadau diwylliannol yn y sefyllfa orau i reoli'r newid technolegol parhaus.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiad mewn asedau treftadaeth yn adlewyrchu hanes unigryw Cymru, gan gydnabod gwerth cynhenid diogelu asedau o'r fath yn ogystal â'r budd ehangach i'r diwydiant twristiaeth.

11.1 Mae diwylliant (gan gynnwys y Celfyddydau, Treftadaeth a Chwaraeon) yn ganolog i lawer o'n prif ymrwymïadau yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio ac mae'n cyfrannu at lawer mwy, gydag elfen gyfalaf sylweddol. Mae diwylliant yn hanfodol i'n bywydau yng Nghymru, ac mae'n cyfrannu'n fawr at les meddyliol a chorfforol pobl Cymru, yn ogystal â'n haddysg, ein hanes, ein twristiaeth a'n lle yn y byd.

11.2 Dros y tair blynedd nesaf, byddwn yn dyrannu £81m i leoliadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf mewn nifer o brosiectau diwylliant allweddol a phroffil uchel megis Theatr Clwyd, yr Amgueddfa Bêl-droed, yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol ac Amgueddfa Genedlaethol y Gogledd (yn amodol ar gytuno ar gynlluniau busnes priodol). Mae'r rhain yn brosiectau arwyddocaol i Gymru ac yn sicrhau cynnig cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl ledled Cymru a fydd yn denu twristiaeth oddi mewn i'r wlad yn ogystal ag o'r tu allan.

11.3 Mae gennym gyfrifoldeb statudol i barhau i gefnogi ein cyrff diwylliannol cenedlaethol sy'n derbyn nawdd, yn ogystal â'r sectorau diwylliant lleol, sydd i gyd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni blaenoriaethau'r llywodraeth ac ymrwymïadau'r Rhaglen Lywodraethu, gan arwain at well

ansawdd bywyd i gynifer o'n poblogaeth. Ochr yn ochr â'n rhwymedigaethau statudol rheolaidd, rydym wedi gofyn i'r cyrff hyn i gyd roi blaenoriaeth i wella mynediad a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, datgarboneiddio a gwelliannau digidol dros y tair blynedd nesaf, er mwyn cyd-fynd â blaenoriaethau ehangach.

11.4 Darperir buddsoddiad cyfalaf i'r sector amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol drwy ein rhaglen Grant Trawsnewid Cyfalaf, a thrwy Gyngor Celfyddydau Cymru i'r sector celfyddydau, gan gynnwys theatrau. Rydym yn cynnig ymestyn a datblygu'r cynlluniau hyn i fynd i'r afael â'r ystod o ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gan alluogi mwy o amrywiaeth ac amrywiaeth o geisiadau a gwell cysondeb â blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym yn ailedrych ar y cynlluniau hyn er mwyn rhoi lle canolog i ddatgarboneiddio a thechnoleg ddigidol, i sicrhau bod buddsoddiadau'n gynaliadwy a'u bod yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig anghydraddoldebau hiliol a gwahaniaethu ar sail anabledd.

11.5 Mae'r holl gyrff a noddir yn darparu gwybodaeth fanwl am allyriadau nwyon tŷ gwydr eu safleoedd yn eu hadroddiadau ariannol blynyddol. Ar ben hynny, wrth asesu'r holl raglenni cyfalaf a gyflawnir gan yr adran, un o amodau grantiau mawr yw bod yn rhaid glynu wrth y Fframwaith Adeiladau Carbon Sero Net.

Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth – Cadw

Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau yn ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn gwneud y gorau o'u rôl o ran cefnogi'r diwydiant twristiaeth yn ein cymunedau.
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith sy'n hybu gweithgareddau diwylliannol yn hyrwyddo'r manteision o ran lles meddyliol.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau cyfalaf uniongyrchol yn y sector diwylliant yn darparu'r cyfleusterau o ansawdd uchel a'r mynediad sydd eu hangen i barhau i ddarparu cynnig diwylliannol unigryw Cymru

11.6 Mae Cymru'n ffodus o feddu ar amrywiaeth helaeth ac unigryw o adeiladau, henebion a safleoedd archaeolegol sy'n dyddio o wahanol gyfnodau, o'r cynfyd i'r Rhyfel Oer. Mae'r asedau hanesyddol hyn yn gyfranwyr allweddol at lesiant diwylliannol. Mae llawer yn atyniadau craidd i dwristiaid hefyd – mae dros draean yr ymwelwyr dydd i Gymru o'r DU yn ymweld â chastell neu heneb hanesyddol. Mae Cadw wedi ymrwymo i gynnal ei gyfrifoldeb i gadw a chynnal a chadw ein henebion a, drwy wneud hynny, i gyfrannu at y nodau llesiant yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu mynediad at ein treftadaeth.

11.7 Mae ein cyllideb ddrafft yn dyrannu £30m dros y tair blynedd nesaf i gefnogi tair ffrwd gyfalaf allweddol. Yn y lle cyntaf, bydd y cyllid yn ariannu ein rhaglen

gyfalaf fanwl, uniongyrchol yn safleoedd Cadw, gan gynnwys gwaith ar raddfa fawr sy'n cael ei wneud yng nghestyll Caernarfon a Chaerffili yn benodol dros y ddwy flynedd nesaf, ac yn Llys Tretŵr a Phorth Mawr, Caernarfon. Ar ben hynny, byddwn yn ariannu rhaglen o grantiau cyfalaf treigl Cadw ar draws cyfnod y gyllideb, gan gefnogi gwaith ar asedau hanesyddol nad ydynt yn rhan o bortffolio uniongyrchol Cadw.

- 11.8** Cynhaliodd Cadw ddadansoddiad adran gyfan o'i lwyth carbon ar ddiwedd 2019 gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad yn awgrymu bod 339 tunnell o CO₂ yn cael eu rhyddhau ar draws yr ystad. Aseswyd pob un o'r 130 o henebion a bydd y pedwar safle gwaethaf yn destun prosiectau dros y ddwy flynedd nesaf i leihau eu hól troed carbon. Mae'r prosiectau'n cynnwys darparu mannau gwefru cerbydau trydan mewn safleoedd, yn ogystal â newid boeleri nwy aneffeithlon sydd wedi dyddio mewn canolfannau ymwelwyr am rai eraill heb allyriadau. Bydd gofyniad i ystyried lleihau carbon yn cael ei ychwanegu at y meini prawf ar gyfer dyfarnu grantiau i adeiladau hanesyddol hefyd – fodd bynnag, bydd y gwaith o gadw ac ailddefnyddio ein hadeiladau hanesyddol mewn ffordd addasol yn fwy cynaliadwy yn ei hanfod nag adeiladau rhai newydd yn eu lle.

Creadigol

Cynhyrchiant Busnesau	Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein buddsoddiad cyfalaf strategol mewn busnesau yng Nghymru i sicrhau gwelliannau yng nghynhyrchiant ein diwydiannau.
Y Gymraeg	Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cymorth cyfalaf i'r sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol yn cefnogi ein targedau ar gyfer y Gymraeg.

- 11.9** Mae'r diwydiannau creadigol yn sector pwysig sy'n datblygu yn economi Cymru. Roedd ei drosiant blyneddol dros £2.2bn yn 2019 ac mae'n cyflogi dros 56,000 o bobl. Ers mis Mawrth 2020 mae Cymru wedi buddsoddi tua £11m mewn cynrychiadau i Gymru yn gyfnewid am wariant o £117m ar gadwyni cyflenwi lleol, criw a lleoliadau, yn ogystal â darparu cyfle i arddangos Cymru i weddill y byd. Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i ystyried sefydlu corff sgiliau i'r Diwydiannau Creadigol ac i ystyried creu cronfa ymchwil a datblygu i'r Diwydiannau Creadigol.

- 11.10** Mae'r £15m sy'n cael ei ddyrannu drwy Gyllideb Ddrafft 2022-23 yn canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol. Yn gyntaf, bydd yn cyfrannu at ddatblygu ymrwymiad sgiliau'r Rhaglen Lywodraethu drwy greu cyfleoedd i bawb, a hefyd helpu i ymrwymo ysgogi arian cyfatebol i gyflawni'r ymrwymiad ymchwil a datblygu. Fodd bynnag, bydd hefyd yn ein galluogi i fuddsoddi'n uniongyrchol yn ein sectorau blaenoriaeth - sgrin, cerddoriaeth a digidol - gan helpu i dyfu'r diwydiannau creadigol ym mhob rhan o Gymru.

11.11 Drwy ddarparu cymorth cyfalaf i gynyrchiadau creadigol, mae Cymru wedi dod i gael ei hystyried yn lleoliad ffafriol iawn ar gyfer cynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu mawr. Mae potensial i gynhyrchu adenillion o 10:1 ar fuddsoddiad, gan greu cyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaeth ar yr un pryd hefyd. Mae hefyd alw heb ei ddiwallu ledled y DU am gyfleusterau stiwdio, felly rydym yn gweithio gyda chwmnïau buddsoddi mewn stiwdios a gyda Bergen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i archwilio cyfleoedd i ddatblygu stiwdios yn Rhanbarth y De-ddwyrain, yn ogystal ag yn y Gogledd. Bydd y dyraniad hefyd yn cael ei ddefnyddio i dreialu dull o ddatblygu clystyrau creadigol ar draws lleoliadau yng Nghymru, gan fanteisio ar wersi i amlinellu sut gall y diwydiannau creadigol gefnogi adfywiad canol trefi.

11.12 Bydd disgwyl i bawb sy'n cael cymorth gan Cymru Greadigol lynu wrth egwyddorion cynaliadwyedd a darparu tystiolaeth o arferion sy'n anelu at ddyfodol carbon sero a diwastraff ar gyfer ffilmiau wedi'u sgriptio, dramâu teledu o safon uchel, a chynyrchiadau mewn stiwdio.

11.13 Rydym wrthi'n archwilio cyfle i gynnal gwaith ymchwil a datblygu sylweddol mewn cysylltiad â chynaliadwyedd i helpu i wneud Cymru'n gyrchfan cynhyrchu cynaliadwy sydd gyda'r gorau yn y byd. Byddwn hefyd yn blaenoriaethu datblygiadau stiwdios sy'n cyrraedd y safonau cynaliadwyedd uchaf, gan gyd-fynd â'n gweledigaeth i ddatblygu pwynt gwerthu unigryw Cymru fel gyrchfan cynhyrchu cynaliadwy sydd gyda'r gorau yn y byd. Bydd disgwyl i ddatblygiadau stiwdios newydd gynnal asesiad llawn o'r effaith carbon ac ystyried yr effaith ar fioamrywiaeth os ydynt wedi'u lleoli mewn ardaloedd o harddwch naturiol.

Chwaraeon

Chwaraeon	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol yn seilwaith chwaraeon Cymru, sydd gyda'r gorau yn y byd, yn gallu helpu cenedlaethau'r dyfodol i gymryd rhan mewn chwaraeon.
Lles Corfforol	Bydd ein buddsoddiad mewn seilwaith chwaraeon yn hybu iechyd a lles
Chwaraeon	Bydd ein buddsoddiad yn ein hystad addysg yn cynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a hamdden.

11.14 Mae cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymgysylltu â chwaraeon yn bwysig iawn i Gymru fel cenedl. Nid yn unig y mae cymryd rhan yn arwain at fuddion iechyd gwych, mae ymgysylltu'n uno cymunedau ac yn cyfrannu at ein naws am le. Ar ben hynny, mae'r sector yn cyflogi tua 26,000 o bobl yng Nghymru. Mae 5,000 (19%) o'r rhain yn hunangyflogedig. Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n ein hymrwymo i hyrwyddo mynediad cyfartal at chwaraeon, cefnogi ein hathletwyr ifanc a thalentog, yn ogystal â chlybiau ar lawr gwlad, a buddsoddi mewn cyfleusterau newydd i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan.

Hefyd byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein cyfleusterau chwaraeon o'r radd flaenaf.

11.15 Bydd y £24m rydym yn ei ddyrannu dros dair blynedd drwy Gyllideb Ddrafft 2022-23 yn galluogi cronfeydd Chwaraeon Cymru, sef CrowdFunder a Cymru Actif, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, i sicrhau buddsoddiad cyfalaf parhaus ar draws y rhwydwaith ar lawr gwlad er mwyn gwella ar y cae ac oddi arno. Bydd yn eu galluogi i gynnal a chadw, a gwella cyfleusterau cenedlaethol Chwaraeon Cymru ym Mhlas Mena yn y Gogledd a Gerddi Sophia yn y De, gan gynnwys ymyriadau i hybu datgarboneiddio. Byddant yn buddsoddi mewn seilwaith chwaraeon newydd ledled y wlad hefyd, gan ganolbwyntio ar iechyd a ffitrwydd, pyllau nofio, neuaddau chwaraeon, caeau gwair artiffisial, a chyrthiau sboncen. Wrth wneud hynny byddant yn gweithio gyda'u partneriad mewn awdurdodau lleol, gan ddenu buddsoddiad ychwanegol yn sgil hynny.

11.16 Mae Chwaraeon Cymru wedi darparu gwybodaeth ariannol ac anariannol fanwl am allyriadau nwyon tŷ gwydr eu safleoedd yn eu hadroddiadau ariannol blynyddol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o allyriadau nwyon tŷ gwydr gostyngol dros y tair blynedd ddiwethaf yn ystad Chwaraeon Cymru, gan ddisgyn o gyfanswm o 921,637 tonnell o CO₂e yn 2018-19 i 586,749 yn 2020-21.

11.17 Mae ymgysylltu pellach â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfleoedd allweddol i leihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon yn ei ddwy ganolfan genedlaethol; Plas Menai a Gerddi Sophia. O dan y rhaglen waith arfaethedig, gallai allyriadau carbon blynyddol Gerddi Sophia leihau 27% dros oes y prosiect, a'i chostau ynni blynyddol 42%. A drwy ddefnyddio rhagor ar baneli solar a phympiau gwres, gallai Plas Menai arbed 276 tonnell o CO₂e yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ei gosod.

Twristiaeth

Y Gymraeg	Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cymorth cyfalaf i'r sectorau twristiaeth, digwyddiadau a chreadigol yn cefnogi ein targedau ar gyfer y Gymraeg.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiadau yn ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn gwneud y gorau o'r rôl y maent yn ei chwarae wrth gefnogi'r diwydiant twristiaeth yn ein cymunedau.
Gweithgareddau Diwylliannol	Bydd ein buddsoddiad mewn asedau treftadaeth yn adlewyrchu hanes unigryw Cymru, gan gydnabod gwerth cynhenid diogelu asedau o'r fath yn ogystal â'r budd ehangach i'r diwydiant twristiaeth.

11.18 Mae mwy i dwristiaeth yng Nghymru na bod yn un sector economaidd arall. Mae'n chwarae rôl hollbwysig yn hyrwyddo'r pethau sy'n ein gwneud yn unigryw – ein hiaith, ein diwylliant, ein tirweddau a'n treftadaeth. Er bod y cyfyngiadau ar deithiau rhyngwladol o ganlyniad i bandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd tymor byr mewn twristiaeth ddomestig, yn 2022 a thu hwnt

bydd Cymru'n ymladd dros gyfran o'r farchnad mewn amgylchedd lle mae'r gystadleuaeth yn danbaid, gan gystadlu nid yn unig â chyrchfannau yn y DU ond â marchnadoedd rhyngwladol a fydd wedi ailagor. Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n nodi ein huchelgais glir i alluogi ein diwydiannau twristiaeth i ffynnu drwy fwrw ymlaen â'n Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi. Mae ein strategaeth 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020-25' yn nodi ein huchelgeisiau a'n blaenoriaethau yn fwy cyffredinol.

11.19 Mae ein cymorth cyfalaf i dwristiaeth yn canolbwyntio ar gefnogi rhaglenni a phrosiectau pwysig a fydd yn annog rhagor o ymwelwyr i ddod i Gymru, ac ar wella'r profiad i ymwelwyr yng Nghymru. Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn darparu £15m dros y tair blynedd nesaf i gefnogi hyn ar sail pedair ffrwd gydgyssylltiedig, sy'n ymwneud â sbectwm cyfan y diwydiant twristiaeth.

11.20 Mae'r rhain yn cynnwys Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol i gefnogi arloeswyr yn y diwydiant – yn arbennig, i ddarparu llety o ansawdd uchel yng ngoleuni ein ffocws ar werth dros gyfaint; Rhaglen gyfalaf 'hanfodion gwyh' i sicrhau gwelliannau i seilwaith twristiaeth ar raddfa fach.

11.21 Mae ein cymorth i fusnesau yn y sector twristiaeth yn amodol ar yr un meini prawf asesu â'r holl gymorth arall i fusnesau, a rhaid dangos cysondeb â'n galwadau i weithredu yn ein contract economaidd. Fel y mae Cymru Sero Net yn ei amlinellu, byddwn yn mynd ati i flaenoriaethu'r alwad i weithredu o ran datgarboneiddio, gan chwilio am geisiadau sy'n galluogi rhagor o'r sylfaen busnes i fod yn garbon isel neu'n ddi-garbon – er enghraifft buddsoddi mewn technoleg sydd wedi'i hanelu at leihau ôl troed carbon nwyddau a gwasanaethau.

Pennod 12. Seilwaith Addysg

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu	300,000	300,000	300,000	900,000
Dechrau'n Deg, Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar	20,000	25,000	25,000	70,000
Cymorth Cyfalaf Addysg Uwch	20,000	20,000	20,000	60,000
Rhaglen Gyfalaf Cyfrwng Cymraeg	15,000	15,000	15,000	45,000
<i>Cyfanswm</i>	<i>355,000</i>	<i>360,000</i>	<i>360,000</i>	<i>1,075,000</i>

Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif tan 31.12.2021)

Gwella Deilliannau Addysgol	Bydd ein buddsoddiadau yn ein hystad addysg yn gwella safonau o ran lle a thechnoleg i alluogi dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.
Datgarboneiddio	Wrth ddatblygu pob cynnig seilwaith, rhaid i'n hymateb gynnwys ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith yn yr ystad addysg wedi'u cyllunio i sicrhau budd o ran iechyd meddwl, ochr yn ochr â chyrhaeddiad addysgol.

12.1 Mae ein rhaglen fuddsoddi mewn ysgolion a cholegau, Ysgolion a Cholegau'r 21ain ganrif (tan 31.12.2021, pan gaiff ei hailenwi'n Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu), sydd wedi hen ennill ei phlwyf, wedi darparu 173 o ysgolion newydd ac ysgolion wedi'u hailwampio ledled Cymru, gan wella'r amgylchedd dysgu i dros 100,000 o ddisgyblion drwy Fand A, ac mae Band B yn seiliedig ar ymrwymiad gwreiddiol i ddarparu tua 200 yn ychwanegol o brosiectau ysgolion a cholegau newydd ac wedi'u hailwampio ledled Cymru rhwng 2019 a 2023-24.

12.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n ehangu ymhellach ar y nod hwn, gyda tharged o fuddsoddi dros £1.5bn yng nghan nesaaf y rhaglen dros dymor y llywodraeth hon, yn ogystal â thrawsnewid amgylcheddau dysgu, datblygu ysgolion carbon sero net, ac agor cyfleusterau ysgolion i gymunedau lleol.

12.3 Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn ymrwymo £900m arall o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf i helpu ein plant a'n pobl ifanc i gyflawni eu nodau, yn ogystal

ag ariannu addewid y Cytundeb Cydweithio i brofi sut y gall cyfleusterau cymunedol helpu i gefnogi pobl ifanc mewn argyfwng neu sydd â phroblem iechyd meddwl neu les emosiynol brys. Mae hyn yn golygu sicrhau bod ein hystad addysgol mewn cyflwr priodol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd; ei bod yn y lleoliad cywir ar gyfer anghenion lleol, yn cysylltu â llwybrau teithio llesol a chynaliadwy, ac o'r maint a'r math cywir i adlewyrchu niferoedd dysgwyr a chyfleoedd busnes i gefnogi cymunedau – o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddysgu oedolion. Yn ogystal â hynny, bydd ein ffrwd fuddsoddi wedi'i hariannu gan refferiw ar gyfer ein hystad addysg drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a fydd yn darparu £500m o fuddsoddiad drwy'r Rhaglen. Disgwylir i'r prosiectau cyntaf gael eu cwlbhau yn 2023.

12.4 Bydd y setliad amlflwyddyn sydd yng nghyllideb ddrafft 2022-23 hefyd yn ariannu tair ton fuddsoddi mewn menter ysgolion bro, lle bydd y buddsoddiad yn golygu bod modd addasu'r adeiladau presennol a chyd-leoli adeiladau a gwasanaethau newydd er mwyn cefnogi dysgwyr a'r gymuned ehangach. Miae hyn yn dilyn y cynllun peilot a ddechreuodd yn 2019, lle buddsoddiwyd mewn 21 o ganolfannau, gan ganolbwyntio ar gynyddu'r ymgysylltiad rhieni, ehangu'r diwrnod ysgol, a chydleoli gwasanaethau.

12.5 Yn unol â chyhoeddiad y Gweinidog Addysg ym mis Tachwedd, bydd gofyn i bob ysgol newydd, gwaith ailwampio mawr ac estyniadau, fod yn sero net wrth weithredu o 1 Ionawr 2022 ymlaen, yn ogystal â chyfyngu'r carbon corfforedig wrth adeiladu i ddim mwy nag 800kgCO₂e/m². Mae hyn yn adeiladu ar y buddsoddiad peilot yn Ysgol Gynradd Llancarfan ym Mro Morgannwg, lle dilynwyd dull 'adeiledd yn gyntaf' ac roedd pŵer yn cael ei gynhyrchu ar y safle, gyda storfa fatri, i ddechrau cyflawni'r ysgol carbon sero net gyntaf yng Nghymru. Targedau tuag at garbon ymgorfforedig fydd ein hymrwymyiadau datgarboneiddio statudol.

Gofal Plant a Dechrau'n Deg

Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith addysg yn helpu plant a theuluoedd i gael y dechrau gorau posibl ar fywyd.
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi gwasanaethau yn y gymuned.
Incwm Aelwydydd	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith addysg a'r blynyddoedd cynnar yn helpu rhieni sy'n gweithio i gynyddu incwm eu haelwydydd.

12.6 Mae ein hymrwymiad i'r blynyddoedd cynnar yn cynnwys datblygiad plant yn ogystal â'u dysgu, gan gydnabod bod angen inni sicrhau'r cynnig o'r ansawdd uchaf i roi'r dechrau gorau mewn bywyd. Mae angen buddsoddi mewn ystod eang o gymorth ar draws y blynyddoedd cynnar i fynd i'r afael â'r bylchau hyn, cefnogi trosglwyddo i addysg ffurfiol, a galluogi plant i fynd ymlaen i gyflawni eu

potensial. Mae darpariaeth Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a Dechrau'n Deg yn elfennau pwysig o'r cymorth hwnnw.

12.7 Mae ein rhaglen Dechrau'n Deg flaenllaw yn gweithio'n agos gyda theuluoedd drwy ddarparu gwell ymweliadau iechyd, gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel a ariennir, yn ogystal â chymorth ar gyfer rhianta a lleferydd, iaith a chyfathrebu. Rydym yn dal wedi ymrwymo i'r rhaglen hon, fel y nodir yn ein haddewid yn y Rhaglen Lywodraethu i barhau i gefnogi ein rhaglenni Dechrau'n Deg blaenllaw. Mae Dechrau'n Deg yn cefnogi teuluoedd sy'n byw yn rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru. Mae'n cynnig deuddeg awr a hanner o ofal plant o ansawdd uchel a ariennir yn llawn yr wythnos i blant 2-3 oed; cymorth i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu plant; cymorth rhianta; a gwasanaeth ymwelwyr iechyd gwell.

12.8 Ochr yn ochr â hyn, mae ein Cynnig Gofal Plant yn darparu 30 awr o addysg a gofal plant a ariennir i rieni sy'n gweithio i blant 3 a 4 oed am 48 wythnos y flwyddyn. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i gefnogi mwy o deuluoedd gyda chostau gofal plant lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant, ac i gynyddu'r ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar i gynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

12.9 Er mwyn darparu gwasanaethau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a Dechrau'n Deg o ansawdd uchel i'r safon angenrheidiol, mae angen inni sicrhau bod gennym adeiladau priodol, wedi'u cynnal i safon uchel, ac yn yr ardaloedd cywir. Rydym wedi buddsoddi dros £63m o gyllid cyfalaf mewn lleoliadau Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg ers 2018, gan gynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

12.10 Mae ein cyllideb Ddrafft ar gyfer 2022-23 yn dyrannu £70m i'r rhaglen, dros y tair blynedd nesaf. Disgwylir i'r gwaith o adeiladu 33 o brosiectau cyfalaf gael ei gwblhau yn ystod 2022-23, gyda 17 prosiect arall i ddechrau yn y flwyddyn ariannol honno a disgwylir i chwech arall ddechrau yn 2023-24, sy'n cwmpasu tua £30m o'r gyllideb honno. Bydd hyn yn golygu bod dros 500 o leoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg (ar draws 10 ysgol cyfrwng Cymraeg) a thros 200 o leoedd cyfrwng Saesneg yn cael eu creu (ar draws 8 ysgol). Mae o leiaf 13 o'r prosiectau hyn yn rhan o adeilad ehangach o Ysgol yr 21ain Ganrif. Caiff y gyllideb sy'n weddill ei buddsoddi mewn lleoliadau i gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ar wario gofal plant a ariennir gan y llywodraeth a'n rhaglen o waith adnewyddu mawr i sicrhau bod hen adeiladau sy'n dirywio yn parhau i fod yn addas i'r diben.

12.11 Yn yr un modd â'n holl ddatblygiadau seilwaith, byddwn yn archwilio'r cyfleoedd i leihau allyriadau carbon adeiladau Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal

Plant presennol, oherwydd gallai cynnal a chadw, a gwella seilwaith presennol fod yn ddefnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Bydd yn rhaid i bob adeilad gofal plant newydd gael sgôr BREEAM a rhaid i 10% o leiaf o gyfanswm gwerth y deunyddiau ddeillio o gynnwys wedi'i ailgylchu a'i aildefnyddio.

Cymorth Cyfalaf i Addysg Uwch

Deilliannau Addysgol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gynorthwyo'r sector Addysg Uwch.
Incwm Aelwydydd	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith sefydliadau angori lleol yn galluogi buddsoddiad o ansawdd uchel gan y sector preifat.
Delliannau Addysgol	Bydd ein buddsoddiadau yn ein hystad addysg yn gwella safonau o ran lle a thechnoleg i alluogi dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.

12.12 Mae sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn gyfryngau hollbwysig i helpu i gyflawni ein hamcan yn y Rhaglen Lywodraethu i barhau â'n rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a safonau'n codi. Drwy weithgareddau dysgu ac addysgu, ymchwil a datblygu, arloesi, cydweithio, yn ogystal â gweithgareddau entrepreneuriaidd a busnesau newydd, mae ganddynt rôl ganolog i'w chwarae yn cefnogi ein hadferiad economaidd a chymdeithasol.

12.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn sefydliadau Addysg Uwch gan fod gwella'r ystad ffisegol a digidol yn arwain at effeithiau cadarnhaol eang, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni nifer o flaenoriaethau'r Llywodraeth. Oherwydd hynny, mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn amlinellu buddsoddiad cyfalaf o £30m mewn Addysg Uwch dros y tair blynedd nesaf.

12.14 Yn bennaf, bydd y buddsoddiad yn ariannu rhaglenni cyfalaf drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys mesurau ad-drefnu ystadau, wedi'u dylunio i leihau'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'u hystadau, ac i sicrhau arbedion effeithlonrwydd gan eu gwneud yn fwy cynaliadwy dros y tymor hirach. Ar ben hynny, bydd yr amlen gyllid hon yn ariannu gwelliannau gweinyddol y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr ac yn darparu cyllid ymchwil i'r Cyngor Ymchwil Addysg Uwch.

12.15 Mae pob sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. I gyflawni hyn mae cynlluniau lleihau carbon wedi cael eu gwreiddio'n gadarn yn eu strategaethau ehangach. Mae sefydliadau wedi mynd ati i ystyried y camau gweithredu mae angen iddynt eu cymryd i addasu a gallu dygymod ag effaith y newid yn yr hinsawdd, a drwy eu hymchwil, eu busnes a'u cydweithio â'r diwydiant, maen nhw wedi cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

Rhaglen Gyfalaf Cyfrwng Cymraeg

Gwella Deilliannau Addysgol	Bydd ein buddsoddiadau yn ein hystad addysg yn gwella safonau o ran lle a thechnoleg i alluogi dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial.
Y Gymraeg	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r rôl y mae'r Sectorau Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar yn ei chwarae wrth hyrwyddo'r Gymraeg
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Bydd ein buddsoddiadau mewn seilwaith addysg yn helpu plant a theuluoedd i gael y dechrau gorau posibl ar fywyd.
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiadau seilwaith yn ein hystad addysgol yn cael eu cynllunio i sicrhau manteision iechyd meddwl yn ogystal â chyrhaeddiad addysgol.

12.16 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr' yn cynnwys dau darged trosfwaol – cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg o ddydd i ddydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau Cymraeg, o 10 y cant i 20 y cant erbyn 2050. Mae angen 438,000 yn rhagor o siaradwyr Cymraeg i gyflawni'r targed hwnnw, a bydd hynny'n cael ei gyflawni'n bennaf drwy gynyddu nifer y dysgwyr ysgol sy'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg, gan gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ehangu ein darpariaeth Gymraeg i'r blynyddoedd cynnar.

12.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu nifer y dysgwyr ysgol sy'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd o ddydd i ddydd. Felly, mae'r gyllideb ddrafft yn amlinellu buddsoddiad o £45m dros y tair blynedd nesaf er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfrannu at leihau'r mynediad anghyfartal at addysg cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli ar hyn o bryd.

12.18 Bydd y cyllid yn galluogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 o ran gwella safon yr addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd a gwella'r ffordd y mae'n cael ei chynllunio. Bydd hyn yn golygu cynyddu eu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a chanran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg o leiaf 6% i gymaint â 14% dros y 10 mlynedd nesaf. Hyd yma, mae'r rhaglen gyfalaf cyfrwng Cymraeg wedi creu dros 2,800 o leoedd ysgol a gofal plant cyfrwng Cymraeg ychwanegol. Er mwyn cyrraedd ein targed yn Cymraeg 2050 o roi'r cyfle i 30% o ddysgwyr gael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2030, mae angen o leiaf 10,000 o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg ychwanegol.

12.19 Bydd y Rhaglen Gyfalaf Cyfrwng Cymraeg yn cael ei rhoi ar waith yn unol â'r un safonau carbon sero net â'r rhaglen graidd Cymunedau Cynaliadwy i Ddysgwyr.

Pennod 13. Amaeth a Physgodfeydd

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Adnabod a symud da byw a ffiniau	1,000	1,000	1,000	3,000
Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – y Cynllun Datblygu Gwledig	30,000	30,000	30,000	90,000
Materion Morol a Physgodfeydd	200	200	0	400
TGCh Taliadau Gwledig Cymru	6,000	6,000	6,000	18,000
Cyfanswm	37,200	37,200	37,000	111,400

Adnabod a symud da byw, a ffiniau

Cynhyrchiant Busnesauau	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac i osgoi gwastraff diangen.
Cynhyrchiant Busnesauau	Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol mewn cymunedau ledled Cymru i alluogi busnesau i elwa ar gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy.
Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn.
Lles Meddyliol	Wrth fuddsoddi yn ein hasedau naturiol, byddwn yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y budd ehangach sydd iddynt o ran iechyd.

13.1 Mae systemau adnabod a symud da byw yn ddarnau hanfodol o seilwaith i gefnogi'r gwaith o atal a rheoli clefydau, sydd yn ei dro'n cefnogi iechyd y cyhoedd a hyder y cyhoedd. Yn ogystal, bydd systemau o'r fath hefyd yn caniatáu cydymffurfio â Rheoliadau Ewropeaidd, sy'n bwysig ar gyfer parhau i fasnachu â'r UE.

13.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i greu system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar bŵer natur i warchod drwy ffermio, a bydd system a gwasanaeth amlrywogaeth, sy'n cael ei ddarparu o dan system bresennol symud defaid Cymru, EIDCymru, yn galluogi Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i olrhain symudiadau a rheoli data presenoldeb ar gyfer gwartheg, defaid a moch mewn system unedig.

13.3 Bydd y buddsoddiad cyfalaf a amlinellir yn y gyllideb ddrafft o £3m dros y 3 blynedd nesaf yn ariannu costau 5 datblygwr i barhau i ddatblygu system EIDCymru i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â newidiadau deddfwriaethol ac yn galluogi'r diwygiadau polisi sy'n ofynnol. Mewn termau ariannol, yn dilyn cyfnod adeiladu'r prosiect, bydd y system a'r gwasanaeth amlrywogaethol yng Nghymru yn ariannu eu hunain o fewn yr ymrwymadau gwariant presennol.

13.4 Mae'r rhaglen hefyd yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chefnogi ein hymateb i argyfyngau hinsawdd a natur gan y bydd y cynllun arfaethedig yn ariannu camau gweithredu i wella cynefinoedd a lleihau carbon. Y nod yw cefnogi ffermydd i fod yn gynhyrchol mewn modd cynaliadwy, drwy wella effeithlonrwydd eu cynhyrchu gan ddefnyddio dulliau adrodd electronig a rheoli ffermydd Yr uchelgais polisi a chyflawni yw galluogi prosesau cofrestru a symud electronig di-bapur, ar gyfer pob da byw ar EIDCymru. Mae datgarboneiddio digidol yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau costau ac yn gyrru arloesedd i sicrhau llwyddiant. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at arbedion sylweddol o ran costau yn y tymor hwy.

Cymunedau Gwledig

Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn cynorthwyo busnesau preifat i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi economi ddiwastraff.
Cyflogaeth	Byddwn yn cryfhau ein cymorth cyfalaf strategol i fusnesau er mwyn sicrhau bod swyddi a bywoliaethau yn cael eu creu a'u diogelu.
Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi i greu a gwella coetiroedd yng Nghymru.

13.5 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fuddsoddi yn ein cefnogaeth i gymunedau gwledig ac amaethyddol, wrth i'r Rhaglen Datblygu Gwledig bresennol – rhaglen fuddsoddi a ariennir ar y cyd gan yr UE – ddod i ben, ac wrth i gynllun domestig newydd gael ei ddatblygu i gymryd ei le. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn gwneud ymrwymiad uniongyrchol i greu system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar bŵer natur i warchod drwy ffermio. Gallai'r cymorth hwn gyfrannu at gyflawni ymrwymïadau PfG ychwanegol, gan gynnwys ein huchelgeisiau ym meysydd coedwigaeth a bioamrywiaeth.

13.6 Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 wedi ymrwymo £12.5m dros y tair blynedd nesaf i gyflawni'r rhwymedigaethau statudol a chytundebol o ran Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru, sy'n dod i ben yn 2023, ac i sbarduno'r broses o bontio o'r UE i raglenni buddsoddi domestig.

13.7 O fewn y dyraniad hwn, caiff amrywiaeth o ffrydiau buddsoddi eu hariannu. Er enghraifft, mae ein cynlluniau Coetir Glastir yn darparu cyllid cyfalaf i greu a rheoli coetiroedd yn gynaliadwy, ac mae ein Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Coed yn darparu cyllid i berchnogion coedwigoedd preifat, coedwigoedd awdurdodau lleol neu goedwig arall yn y sector cyhoeddus, y gellir ei defnyddio ar gyfer gwelliannau sy'n ychwanegu gwerth at goedwigoedd ar gyfer gweithgareddau rheoli coetiroedd, cynaeafu coed a/neu brosesu pren.

13.8 Mae ein Grant Busnes i Ffermydd yn darparu buddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau sy'n gwella perfformiad technegol ac yn cynyddu

effeithlonrwydd adnoddau ar y fferm. Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (heb fod yn amaethyddol) yn cwmpasu costau buddsoddi cyfalaf ac yn cefnogi prosiectau ar arallgyfeirio, datblygu cadwyni cyflenwi a chynyddu cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chystadleurwydd busnesau gwledig.

- 13.9** Wrth i fusnesau fferm a diwydiannau gwledig symud i ffwrdd oddi wrth gymorth drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, byddwn hefyd yn defnyddio adnoddau sy'n disodli cyllid yr UE i fuddsoddi yn ein cymunedau gwledig. Ar ben y cyllid a amlinellir uchod, mae'r gyllideb ddrafft hon hefyd yn ymrwymo £77.5m o gyllid cyfalaf dros y tair blynedd nesaf i dargedu adnoddau tuag at ffermwyr wrth iddynt bontio tuag at ein Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys canolbwyntio ar welliannau amgylcheddol, rheoli tir ar raddfa fferm, cynhyrchiant ac arallgyfeirio. Byddwn hefyd yn targedu rheoli tir ar raddfa tirwedd a chadwyni cyflenwi bwyd.

Y Môr a Physgodfeydd

Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn
Bioamrywiaeth	Byddwn yn gwella mynediad i'n tirweddau dynodedig a'r defnydd o asedau amgylcheddol
Cyflogaeth	Byddwn yn cryfhau ein cymorth cyfalaf strategol i fusnesau er mwyn sicrhau bod swyddi a bywoliaethau yn cael eu creu a'u diogelu.
Cynhyrchiant Busnesauau	Bydd ein buddsoddiad strategol mewn seilwaith yn helpu busnesau yng Nghymru i fod yn fwy effeithlon o ran adnoddau ac i osgoi gwastraff diangen

- 13.10** Mae Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014 – 2020, yn rhaglen gwerth €14m yng Nghymru a ariennir gan yr UE, a'r nod cyffredinol yw hyrwyddo'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP), sydd i fod i gyfrannu at wella perfformiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Pysgodfeydd Ewropeaidd.

- 13.11** Ar ben hynny, mae EMFF hefyd yn ceisio hybu twf pellach yn holl sectorau morol Ewrop drwy ymchwil wedi'i dargedu a buddsoddi craff. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rhannwyd yr EMFF i'r meysydd blaenoriaeth canlynol; Pysgodfeydd cynaliadwy; Dyframaethu cynaliadwy; rhoi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar waith; Marchnata a phrosesu; a Chyflogaeth a chydlyniant tiriogaethol.

- 13.12** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r cyllid hwn nes y daw taliadau grant dan gontract wedi'u cyd-gyllido ar gyfer prosiectau cymeradwy i ben. Mae'r rhaglen wedi'i chau i geisiadau newydd drwy gydol 2021, ond caiff ei hailagor ar gyfer galwad derfynol am gynigion prosiect yn 2022 i sicrhau bod holl gyllid yr UE sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Rhaid cwblhau a thalu'r holl brosiectau cyn diwedd 2023 pan fydd y rhaglen EMFF yn cau'n ffurfiol ar

31 Rhagfyr 2023. Felly, mae'r gyllideb ddrafft wedi ymrwymo £400k i gyflawni'r ymrwymïadau statudol tan 2024.

13.13 Mae buddsoddi yn yr EMFF yn galluogi pysgodfeydd Cymru i barhau ag arferion cynaliadwy i sicrhau cadernid diwydiant pysgota Cymru a chynnal mantais gystadleuol gyda Physgodfeydd Ewrop ar yr un pryd. Yn ogystal, y nod wrth gyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu yw gwreiddio ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn ac adeiladu economi sy'n seiliedig ar egwyddorion gwaith teg, cynaliadwyedd ac ar ddiwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol.

Taliadau Gwledig Cymru

Cynhyrchiant Busnesauau	Byddwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol mewn cymunedau ledled Cymru i alluogi busnesau i elwa ar gysylltedd digidol cyflym a dibynadwy.
Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi mewn rhwydweithiau ecolegol gwydn.
Bioamrywiaeth	Byddwn yn buddsoddi i greu a gwella coetiroedd yng Ngymru.
Ansawdd Aer a Dŵr	Bydd ein buddsoddiadau mewn amddiffyn rhag llifogydd yn hyrwyddo'r defnydd o ddull naturiol o reoli llifogydd.

13.14 Mae llwyfannau TG Taliadau Gwledig Cymru yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer cynlluniau Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chyfres o gynlluniau amaeth-amgylchedd, coetiroedd ac economaidd-gymdeithasol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Mae'n elfen hanfodol o'r system grantiau, ac yn darparu rheolaeth ariannol a sicrwydd archwilio angenrheidiol sy'n caniatáu i'r cynlluniau gael eu rhedeg yn effeithiol ac yn effeithlon.

13.15 Mae ein cyllideb ddrafft wedi amlinellu buddsoddiad o £18m dros dair blynedd i hwyluso rhaglen newid ar gyfer Taliadau Gwledig Cymru, a gwelliannau i'r system TG. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ddechrau i sicrhau bod cynlluniau peilot y Cynllun Ffermydd Cynaliadwy a Rheoli Grantiau Domestig (cyllid i gymryd lle cyllid yr UE) yn cael eu darparu'n effeithiol. Yn ogystal â hyn, mae'r rhaglen newid yn anelu at ddarparu porth ar-lein gwell a all gefnogi cwsmeriaid, asiantau trydydd parti a phartneriaid cyflenwi ar gyfer y Gwasanaeth Cymorth Fferm a Chynghori newydd, Adolygiadau Allgymorth a Ffermydd Cynaliadwy a fydd yn galluogi creu Contractau Cynllun Fferm Cynaliadwy erbyn 2025.

13.16 Bydd y buddsoddiad yn darparu swyddogaethau TG newydd a gwell i ddarparu cyllid grant parhaus. Bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o greu system newydd o gymorth i ffermydd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar bŵer natur i warchod drwy ffermio. Disgwylir y bydd llwyfan TG Taliadau Gwledig Cymru'n cefnogi sawl cynllun gan gynnwys; galluogi cymunedau i greu 30 o goetiroedd

newydd; defnyddio natur i reoli llifogydd yn nalgylchoedd pob afon fawr er mwyn ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir; a sefydlu cynllun wedi'i dargedu i gefnogi'r gwaith o adfer morwellt a chynefinoedd morfa heli. Drwy hynny, bydd nifer o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cael eu cefnogi, yn enwedig lleihau carbon a bioamrywiaeth.

Pennod 14. Cymunedau

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Seilwaith Cymunedol	17,000	17,000	17,000	51,000
Cyfanswm	17,000	17,000	17,000	51,000

Seilwaith Cymunedol

Lles Meddyliol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith cymunedol sy'n sicrhau iechyd a lles meddyliol gwell a chydlyniant cymunedol.
Anghydraddoldeb Cymdeithasol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi gwasanaethau yn y gymuned
Buddsoddi yng Nghymru	Byddwn yn sicrhau bod ein buddsoddiad strategol mewn tai yn darparu cymunedau cynaliadwy â lleoedd o ansawdd uchel i fyw ynddynt.
Lles Corfforol	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith sy'n galluogi ein Gwasanaethau Tân ac Achub i barhau i ddiogelu bywyd a sicrhau diogelwch

14.1 Mae buddsoddi mewn seilwaith cymunedol a seilwaith sy'n eiddo i'r gymuned yn cynnwys amrywiaeth eang o raglenni sy'n adeiladu ar ein gwerthoedd Cymreig unigryw, sef cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Rydym yn cydnabod cyfraniad seilwaith cymunedol ar draws nifer o themâu buddsoddi, yn ogystal â chefnogi ymrwymadau ein Rhaglen Lywodraethu i gefnogi creu Banc Cymunedol i Gymru, a chryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae buddsoddi hefyd yn ein galluogi i barhau â'n partneriaeth gref â sefydliadau gwirfoddol ar draws ystod ein cyfrifoldebau a chryfhau'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd a'r gweithle yn ogystal â'r cartref er mwyn gwneud Cymru'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw.

14.2 Dyna pam ein bod yn dyrannu £51m rhwng 51-23 a 2024-25 i'w fuddsoddi mewn rhaglenni seilwaith allweddol yn y gofod hwn. Mae hyn yn cynnwys ein cymorth cyfalaf posibl i Fanc Cymunedol i Gymru, sy'n anelu at sicrhau gwell mynediad i wasanaethau bancio dwyieithog lleol, ac ansawdd y gwasanaethau hynny, gan hwyluso buddsoddiad lleol a chreu cyfoeth cymunedol, adfer arbedion i fenthyciadau ac atal cyfalaf rhag cael ei golli. Mae ein Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a'n Cronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol yn gweithio ar y cyd i ddarparu cyllid grant a dyledion i brynu, datblygu a gwella cyfleusterau lleol, gan alluogi darparu gwasanaethau'n lleol ac ailadeiladu cyfalaf cymdeithasol.

14.3 Mae ein Rhaglen Grantiau Cyfalaf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn cefnogi mudiadau statudol a gwirfoddol i gyflawni prosiectau cyfalaf – yn enwedig caniatáu'r sefydliadau hynny sy'n gweithio yn y sector VAWDASV i gaffael, cynnal a chadw ac adnewyddu adeiladau a chyfarpar, sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau i'r rhai sy'n ffoi rhag VAWSDASV. Yn yr un modd, gwyddom fod diffyg o ryw 100 o

leiniau preswyl parhaol i Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru, yn ogystal ag angen sefydledig am ddarpariaeth dramwy ac mae'r maes buddsoddi hwn yn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol o fewn Deddf Tai (Cymru) 2014, i ddarparu llety priodol, yn ogystal â chefnogi'r gwaith o ddatblygu mynediad cynaliadwy i gyfleustodau a gwasanaethau priodol i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd preswyl yn Cymru, gan sicrhau bod eu safleoedd yn addas i'r diben, yn unol â'n Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

14.4 Mae hefyd angen cyflawni mesurau diogelwch cymunedol hollbwysig drwy osod mesurau diogelu rhag tân yn y cartrefi hynny lle mae'r perygl mwyaf o dân, a thrwy wella gallu cydnerthedd cenedlaethol ein Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi yn y rhwydwaith gwasanaethau brys ledled y DU, a sefydlu, gwella ac adnewyddu set o gerbydau ac offer arbenigol ar gyfer Cymru gyfan, er mwyn darparu ymateb cyflym ac effeithiol i drychinebau mawr.

14.5 Er mai'r partner cyflenwi sector preifat fydd yn penderfynu ar leoliad canghennau'r Banc Cymunedol ar sail anghenion cymunedol a masnachol, gallai darparu rhagor o ganghennau leihau'r pellter oddi wrth ganghennau, ac amseroedd teithio defnyddwyr yn sgil hynny, a'r effaith gysylltiedig o ran carbon. Mae llawer o'r rhaglenni cyfalaf yn y maes seilwaith cymunedol yn canolbwyntio ar adnewyddu hen adeiladau sy'n aneffeithlon o ran ynni, ac mae buddsoddi mewn mesurau i wella hyn hefyd yn arwain at fanteision o ran lleihau carbon.

Pennod 15. Llywodraeth Leol

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Llywodraeth Leol	150,000	200,000	200,000	550,000
Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf	22,000	22,000	22,000	66,000
<i>Cyfanswm</i>	<i>172,000</i>	<i>222,000</i>	<i>222,000</i>	<i>616,000</i>

Cyllid Cyfalaf Llywodraeth Leol (gan gynnwys Bargeinion Dinesig a Thwf)

Cyflawni – gweithio gyda phartneriaid	Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid Llywodraeth Leol drwy ymgysylltu gwleidyddol ac ar lefel swyddogion, ac o ran dulliau cyllido, i sbarduno budd ein buddsoddiadau.
Defnydd Anghynaliadwy	Byddwn yn cynorthwyo cyrff cyhoeddus i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi economi ddiwastraff.
Buddsoddi yng Nghymru	Wrth fuddsoddi'n strategol yn ein rhaglenni adfywio, byddwn yn sicrhau y gwneir hynny mewn modd sy'n ystyried Cymru gyfan.

15.1 Mae llawer o'r buddsoddiadau mewn seilwaith a nodir yn yr Cynllun hwn yn cael eu cyflawni drwy ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol, ac yn cael eu cyd-ariannu ganddynt – er enghraifft, ein rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd a'n hagenda eang o drawsnewid trefi. Fodd bynnag, mae gan lywodraeth leol rôl hollbwysig i'w chwarae hefyd o ran penderfynu a darparu seilwaith sy'n galluogi gwasanaethau i gael eu darparu'n lleol, a hefyd yn cyfrannu at yr uchelgeisiau y mae WIIS yn eu gosod ar gyfer seilwaith ledled Cymru.

15.2 Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn nodi dros £150m o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Leol rhwng 2022-23 and 2024-25, a chymorth cyfalaf o £22m ar gyfer ein bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru.

15.3 Mae'r cyllid cyfalaf uniongyrchol – gan gynnwys cefnogi'r defnydd o bwerau benthyca – yn helpu awdurdodau lleol i roi arian cyfatebol i bosiectau y maent yn arwain arnynt o fewn rhaglenni cenedlaethol – er enghraifft buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell i ysgolion, yn ogystal â chefnogi eu blaenoriaethau a'u dyheadau lleol eu hunain.

15.4 Mae ein cyfraniad cyllid cyfalaf i fargeinion Dinesig a Thwf Dinas-Ranbarth Bae Abertawe, Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru¹ yn rhoi cefnogaeth i'r

¹ Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru at fargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer rhaglen Metro De Cymru.

pwyllgorau rhanbarthol perthnasol i gyflawni'r canlyniadau a'r allbynnau a nodwyd yng nghytundebau'r bargeinion, a'r achosion busnes portffolio perthnasol.

- 15.5** Ar hyn o bryd, mae ymgynghorwyr yn edrych ar gynllun gweithredu pob awdurdod lleol ar gyfer datgarboneiddio, ac mae adnodd allyriadau carbon hefyd wedi'i ddarparu i bob corff cyhoeddus i ddatblygu sylfaen allyriadau carbon i weithio arni. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a'r awdurdodau eu hunain ar ddatgarboneiddio, y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth drwy'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol.

Pennod 16. Yr Amgylchedd a Dŵr

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd	34,000	34,000	34,000	102,000
Ansawdd Dŵr	10,000	15,000	15,000	40,000
<i>Cyfanswm</i>	<i>44,000</i>	<i>49,000</i>	<i>49,000</i>	<i>142,000</i>

Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd

Lles Corfforol	Bydd ein buddsoddiadau amddiffyn rhag llifogydd yn blaenoriaethu'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf.
Lles Meddyliol	Bydd ein buddsoddiadau mewn rheoli perygl llifogydd yn atal neu'n lliniaru achosion o lifogydd, gan leihau'r effeithiau cysylltiedig ar iechyd meddwl.
Cynhyrchiant Busnesauau	Byddwn yn buddsoddi mewn seilwaith rheoli llifogydd i ddiogelu buddiannau economaidd busnesau yng Nghymru.
Ansawdd Aer a Dŵr	Bydd ein buddsoddiadau mewn amddiffyn rhag llifogydd yn hyrwyddo'r defnydd o ddull naturiol o reoli llifogydd.

16.1 Gwyddom fod newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu'r perygl o lifogydd yn ein cymunedau, oherwydd bod lefel y môr yn codi a hefyd oherwydd stormydd mwy dwys a rheolaidd. Mae angen inni barhau i fuddsoddi i ehangu a gwella ein seilwaith atal llifogydd er mwyn diogelu'r rheini sydd fwyaf mewn perygl, a sicrhau bod ein hymyriadau'n ehangu ar ein defnydd o systemau rheoli llifogydd sy'n seiliedig ar natur.

16.2 Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i ariannu mesurau amddiffyn rhag llifogydd ychwanegol ar gyfer dros 45,000 o gartrefi erbyn diwedd tymor presennol y Senedd, yn ogystal â darparu atebion rheoli sy'n seiliedig ar natur yn nalgylchoedd pob prif afon, gan ehangu cynefinoedd gwlyptir a choetir. O ystyried y risg gynyddol o lifogydd sydyn, bydd yn dod yn fwyfwy pwysig dod o hyd i ffyrdd gwell a mwy cynaliadwy o reoli dŵr ffo, yn aml mewn mannau lle nad oedd perygl mawr yn draddodiadol, gan gynnwys wrth ymyl tir amaethyddol ac mewn cymunedau mwy gwledig, sy'n cael eu heffeithio fwyfwy gan ddigwyddiadau o'r fath.

16.3 Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn cefnogi ein hawdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru – fel ein Hawdurdodau Rheoli Risg – i gyflawni'r uchelgeisiau hyn, yn ogystal ag ariannu addewid y Cytundeb Cydweithio i fuddsoddi mewn rheoli a lliniaru llifogydd, a chynllunio i ymateb i'r perygl cynyddol o lifogydd. Yr ydym drwy sicrhau bod cyllid cyfalaf £102m ar gael dros y tair blynedd nesaf i gyflawni'r ddau gynllun ychwanegol, yn ogystal â rhaglen o gynnal a chadw cyfalaf i'n sylfaen asedau bresennol. Yn ogystal, bydd y rhaglen refferiwl llifogydd yn cefnogi buddsoddiad cyfalaf drwy awdurdodau lleol drwy'r Rhaglen

Rheoli Perygl Arfordirol. Drwy'r rhaglen hon ein nod yw lleihau'r risg i dros 17,400 o gartrefi a busnesau o amgylch arfordir Cymru.

16.4 Mae Sero Net Cymru yn cydnabod, er bod yn rhaid inni ganolbwyntio'n bennaf ar fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru, rhaid inni hefyd sicrhau bod ein buddsoddiad mewn addasu – sy'n ceisio lleihau'r risgiau o newidiadau di-droi'n ôl i'n patrymau hinsawdd a thywydd – yn golygu bod ein seilwaith hefyd yn fwy gwydn. Er bod y gwaith sy'n cael ei wneud o dan ein rhaglen Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yn aml yn cynnwys prosiectau adeiladu sylweddol, mae ein Canllawiau ar Achosion Busnes FCERM yn mynnu bod ein holl Awdurdodau Rheoli Risg yn ystyried defnyddio atebion Rheoli Llifogydd Naturiol wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer asedau newydd a chynnal a chadw.

Ansawdd dŵr

Ansawdd Aer a Dŵr	Lle bo angen, byddwn yn buddsoddi mewn rhaglenni adfer seilwaith.
Ansawdd Aer a Dŵr	Bydd ein buddsoddiadau mewn amddiffyn rhag llifogydd yn hyrwyddo'r defnydd o ddull naturiol o reoli llifogydd.
Bioamrywiaeth	Pan fydd ein buddsoddiadau hanfodol mewn seilwaith yn cael effaith anorffwrdd ar fioamrywiaeth a'n hamgylchedd naturiol, byddwn yn buddsoddi mewn mesurau gwrthbwysu i leihau a lliniaru'r effeithiau hynny.

16.5 Gwyddom fod effeithiau tebygol mwy o lifogydd a stormydd mwy rheolaidd sy'n cael eu hachosi gan newid yn yr hinsawdd yn debygol o roi mwy o bwysau ar ein systemau dŵr gwastraff a charthffosiaeth, gan arwain at ddirywiad mewn ansawdd dŵr, llai o fioamrywiaeth, a mwy o lifogydd. Ochr yn ochr â dyletswyddau statudol i wella ansawdd dŵr, gall buddsoddiad cyfalaf chwarae rôl alluogi wrth fynd i'r afael â'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddechrau dynodi dyfroedd mewndirol Cymru ar gyfer hamdden, gan gryfhau'r drefn o fonitro ansawdd dŵr.

16.6 Bydd y £40m a ddyrennir drwy gyllideb ddrafft 2022-23 yn caniatáu inni gyflawni ein dyletswyddau statudol i sicrhau na fydd ansawdd dŵr yn dirywio, a gwella ansawdd dŵr, a bydd y gwaith yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ymyriadau.

16.7 Yn gyntaf, bydd y buddsoddiad hwn yn ariannu rhaglen Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adfer mwynloddiau metel a fydd yn lleihau llygredd sy'n llifo o weithfeydd segur i ddyfrffyrdd, gan barhau i ddatblygu a darparu 18 o brosiectau ar draws 14 o safleoedd.

16.8 Bydd y buddsoddiad hefyd yn ariannu rhaglenni ansawdd dŵr sydd â'r nod o gael gwared â sylweddau sy'n llygru o ddyfrffyrdd ac o dir lle gallant ddiferu i mewn i ddyfrffyrdd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda thirfeddianwyr i atal

sylweddau sy'n llygru fel nitradau, ffosffadau a gwastraff anifeiliaid rhag diferu i mewn i ddyfrffyrdd (dyma un o'r prif bethau sy'n achosi ansawdd dŵr gwael). Bydd cyllid cyfalaf a ddyrennir i'r maes buddsoddi hwn mewn ansawdd dŵr hefyd yn galluogi buddsoddi mewn cynlluniau adfer Afonydd, yn ogystal â chanolbwyntio ar astudiaethau peilot dŵr ymdrochi, a gwaith i Adfer Afonydd fel Cynefinoedd Pysgodfeydd.

- 16.9** Bydd cydweithio â'r sector rheoli llifogydd yn ein galluogi i gyflwyno cynlluniau rheoli dalgylchoedd, a Rheoli Llifogydd Naturiol yn effeithiol. Ochr yn ochr â helpu i warchod bioamrywiaeth leol, gallai technegau rheoli llifogydd sy'n lleihau'r angen am seilwaith adeiledig traddodiadol leihau'r carbon sydd wedi'i wreiddio yn y buddsoddiadau hynny mewn seilwaith. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr a'r rheoleiddiwr i sicrhau bod cynigion buddsoddi penodol yn ystyried bioamrywiaeth a gofynion sero net yn ogystal ag ansawdd dŵr.

Pennod 17. Gweinyddu Llywodraeth Cymru

	2022-23 (£,000)	2023-24 (£,000)	2024-25 (£,000)	Cyfanswm (£,000)
Costau Cynnal Canolog a Chyllid Canolog	11,463	11,463	11,463	34,389
Cyrff Eraill	5,100	5,100	5,100	15,300
Cyfanswm	16,563	16,563	16,563	49,689

Costau Cynnal Canolog a Buddsoddi Cyfalaf

Datgarboneiddio	Bydd ein buddsoddiadau eiddo masnachol yn hyrwyddo lleihau allyriadau carbon.
Buddsoddi yng Nghymru	Bydd ein buddsoddiadau eiddo masnachol yn hyrwyddo'r manteision i gymunedau o ganolbwyntio ar ganol trefi.

17.1 Mae Cyllideb ddrafft 2022-235 yn dyrannu £34m i'n sector gweinyddol dros y tair blynedd nesaf, sy'n cwmparu buddsoddiadau cyfalaf i ystad Llywodraeth Cymru, gallu TGCh a gweithgareddau gweithredu eraill, yn ogystal â'n trefniant cydweithredol Ystadau Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi ein gwaith i gael ei wneud mewn modd cynyddol effeithlon ac effeithiol, gan sicrhau y gall ein hadrannau gyflawni ein hymrwymiaid statudol a'n hymrwymiaid yn y Rhaglen Lywodraethu er budd y wlad yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

17.2 Yn ogystal â sicrhau gwerth am arian, bydd ein Strategaeth Gweithleoedd y Dyfodol yn helpu ein ffyniant cymdeithasol, economaidd a chenedlaethol ehangach gan sicrhau presenoldeb Llywodraeth Cymru ar draws pob rhan o Gymru.

17.3 Bydd adferiad economaidd a llesiant cymunedau wrth galon penderfyniadau sy'n seiliedig ar leoliadau yn y dyfodol. Bydd cynlluniau'n ystyried yr holl gyfleoedd cydweithredol ar gyfer rhannu gofod gyda sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru.

17.4 Byddwn yn parhau â'n hymdrechion parhaus i ddatgarboneiddio ystad swyddfeydd gweinyddol Llywodraeth Cymru. Erbyn 1 Ebrill 2021, roedd gostyngiad o 72% mewn allyriadau carbon wedi cael ei gyflawni gan roi cyfanswm ôl troed carbon diwygiedig o 3,500 tCO₂ ar gyfer yr ystad. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad sylweddol cyffredinol o 9,062 tonnall yng nghyfanswm allyriadau CO₂ yr ystad ers 2010-21.

17.5 At hynny, rydym wedi ymrwymo i sicrhau allyriadau sero carbon net ar draws yr ystad gyhoeddus erbyn 2030. Sefydlwyd Ystadau Cymru gan Lywodraeth Cymru i hwyluso a dylanwadu ar y broses o reoli asedau ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru. Bydd parhad y cyllid gennym ni yn golygu y bydd yn gallu datblygu ei nodau o ddylanwadu ar y cydweithio rhwng gwasanaethau cyhoeddus, a chefnogi'r broses honno, i helpu

proffesiynolion ystadau allanol i gyflawni yn erbyn y nod o ddatgarboneiddio ystad y sector cyhoeddus.

- 17.6** Byddwn yn cadw elfen y Gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n cefnogi mentrau lleihau carbon i wneud buddsoddiadau mewn byrddau iechyd a llywodraeth leol i helpu'r sector cyhoeddus i wneud cyfraniad i'n targedau sero carbon net. Y canlyniadau yw lleihau'r lefelau CO₂ a hefyd greu arbedion o ran rhyddhau arian parod oherwydd bod costau ynni'r sefydliadau yn is.

Cyrff Eraill

- 17.7** Gwneir ein dyraniadau Cyllidebol i adrannau er mwyn iddynt ymgymryd ag ystod eang o swyddogaethau. Mewn rhai achosion bydd ein hadrannau'n trosglwyddo cyfran o'u dyraniad yn y maes buddoddi ehangach i'w cyrff cysylltiedig, ond mewn rhai achosion rydym yn gwneud dyraniadau penodol drwy Gyllideb ddrafft 2022-23.
- 17.8** Mae'r cyrff hyn yn ymgymryd â swyddogaethau amrywiol. Maent yn darparu arbenigedd a phrofiad mewn meysydd arbenigol, ac maent yn bartneriaid gwerthfawr sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at lawer o gynlluniau a rhaglenni strategol Llywodraeth Cymru, ac yn cynnig her drwy graffu. Mae Cyllideb ddrafft 2022-23 yn nodi tair blynedd o gyllid cyfalaf £15.3m i gefnogi'r gwaith cyflawni hwn.
- 17.9** Er mai cymharol fach yw symiau'r dyraniadau cyfalaf a wnaed, maent yn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau hanfodol i bobl Cymru gan ddefnyddio arbenigedd na fyddai ar gael mewn ffyrdd eraill. Er nad yw'r canlynol yn rhestr gynhwysfawr o'n cyrff nodedig na'u gwaith, mae'n tynnu sylw at rai swyddogaethau allweddol y bydd ein buddsoddiad yn eu galluogi.
- 17.10** Bydd dyraniadau o'r Gyllideb ddrafft hon yn ariannu'n uniongyrchol waith galluogi ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg a'r Comisiynydd Pobl Hŷn drwy gaffael systemau TG a theleffoni newydd a fydd yn ein helpu i symud tuag at arferion gweithio newydd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Byddant hefyd yn buddsoddi yn eu gwefannau gan sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn gadarn.
- 17.11** Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus, bydd rhagor o fuddsoddiad mewn technoleg symudol ar gyfer Arolygiaeth Gofal Cymru yn galluogi arolygwyr i gofnodi gweithgarwch arolygu'n ddigidol ar y safle, gan gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd arolygiadau.
- 17.12** Bydd ein buddsoddiad yn Gyrfa Cymru yn darparu swyddfeydd modern sydd â'r dechnoleg ddiweddaraf, gydag allyriadau carbon isel a fydd yn darparu amgylcheddau gwaith modern sy'n caniatáu arferion gweithio hyblyg, a byddant ar gael i gymunedau ledled Cymru.

17.13 Byddwn yn buddsoddi mewn meddalwedd ac offer TG ar draws Cymwysterau Cymru ac Estyn gan sicrhau bod ganddynt systemau priodol a diogel i barhau â'u gweithgarwch hanfodol yn cefnogi ein sector Addysg yng Nghymru.

17.14 Fel gwasanaeth digidol yn y cwmwl, bydd ein buddsoddiad parhaus yn Awdurdod Cyllid Cymru yn disodli cyfarpar TGCh hanfodol fel gliniaduron ac yn adnewyddu trwyddedau diogelwch, gan alluogi'r Awdurdod i barhau i gasglu a rheoli trethi datganoledig yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddiogel.

17.15 Bydd ein buddsoddiad yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu seilwaith TGCh gweithredol wedi'i ddiweddarau er mwyn iddo allu cyflawni ei weithgareddau craidd yn fwy effeithlon a chadarn i gefnogi blaenoriaethau'r llywodraeth hon.

		Llesiant Amgylcheddol				Llesiant Cymdeithasol				Llesiant Economaidd				Llesiant Diwylliannol			
		1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16
Tai	Tai Cymdeithasol	x			x			x									x
	Datgarboneiddio Cartrefi Cymru	x						x									
	Diogelwch Adeiladau					x	x	x									
	Y Gronfa Gofal Integredig ac Addasiadau					x		x									x
	Cymorth Prynu							x									x
	Tai'r Farchnad							x									x
	Cyflenwad y Sector Rhentu Preifat	x						x									x
Teithio Llesol a Chynaliadwy	Teithio Llesol	x				x		x	x								
	Seilwaith Cerbydau Trydan	x		x													
	Cronfa Trafnidiaeth Leol	x							x	x							
Trafnidiaeth Gyhoeddus	Rheilffyrdd	x								x	x			x			
	Bysiau	x							x	x	x						
Ffyrdd	Rhwydwaith Ffyrdd Strategol		x			x				x							
	Cronfa Diogelwch ar y Ffyrdd					x											
Adfywio	Trawsnewid Trefi		x						x	x							x
	Diogelwch Tomenni Glo			x		x											
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Seilwaith y GIG	x				x	x					x					
	Gofal Sylfaenol a Chymunedol	x				x	x										
	Seilwaith Digidol	x				x	x										
	Cyfarpar y GIG	x				x	x										
	Gofal Cymdeithasol					x	x		x								
Datgarboneiddio	Tlodi Tanwydd a Chartrefi Cynnes	x						x				x					
	Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Byw'n Glyfar	x										x					
	Ynni Morol	x										x					
Natur a'r Amgylchedd	Bioamrywiaeth		x				x										
	Grantiau Amgylcheddol		x					x									
	Tirwedd a Hamdden Awyr Agored		x													x	
	Coedwig Genedlaethol a Strategaeth Diwydiant Coed	x	x	x												x	
	Ansawdd Aer			x													
Datblygu Economaidd	Cymorth i Fusnesau	x			x			x		x		x					
	Seilwaith Digidol								x		x				x		
	Cymoedd Technoleg	x						x	x		x						
	Y Sector Eiddo									x	x						x

[illegible]